



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2006
Tuesday, 6 June 2006**

**Cynnwys
Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 32 Cwestiwn Brys: Y Gwasanaeth Ambiwlan
Urgent Question: The Ambulance Service
- 39 Datganiad Busnes
Business Statement
- 42 Datganiad am Uno'r Heddluoedd
Statement on the Police Merger
- 52 Cymeradwyo Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd
Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006
Approval of the Registration of Fish Buyers and Sellers and Designation of Fish
Auction Sites (Wales) Regulations 2006
- 67 Dadl Plaid Leiafrifol (Y Democratiaid Rhyddfrydol): Swyddfeydd Post
Minority Party Debate (The Liberal Democrats): Post Offices
- 101 Diogelwch Staff y Sector Cyhoeddus
The Safety of Public Sector Staff

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Ailstrwythuro'r Heddluoedd Police Restructuring

Q1 John Griffiths: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's latest position on proposed police restructuring in Wales? OAQ1621(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Edwina Hart, Minister for Social Justice and Regeneration, will be making an oral statement later this afternoon following her meeting last Thursday with the four Welsh chief constables and the Home Office Minister, Tony McNulty, who has now taken over responsibility for policing.

John Griffiths: Thus far, the process has been characterised by haste, I believe, and it has not allowed for proper consultation, deliberation and considered responses. I believe that there has been a lack of clarity regarding the financial position and there are some unresolved concerns around local policing. With that sort of background, would you agree that now is the time to pause and delay, to allow greater detail to be forthcoming and adequate consultation to take place on fully thought-out and properly presented proposals?

The First Minister: I certainly agree with you about the difficulties over lack of clarity on financing. We have had that problem for some time now, particularly in this context. We have been the body responsible for the council tax precepting problem even though we are not responsible for policing, as it is not devolved. The protection of neighbourhood policing is what everyone in Wales regards as the No. 1 priority, and I entirely agree that it must be protected in any police reorganisation. For those reasons, I agree with the general drift of your thoughts. We have made it clear to the Home Office

C1 John Griffiths: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y cynlluniau i ailstrwythuro heddluoedd Cymru? OAQ1621(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Bydd Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'n gwneud datganiad llafar yn ddiweddarach y prynhawn yma yn dilyn ei chyfarfod ddydd Iau diwethaf gyda phedwar prif gwnstabl Cymru a'r Gweinidog yn y Swyddfa Gartref, Tony McNulty, sydd bellach wedi cael cyfrifoldeb am blismona.

John Griffiths: Hyd yn hyn, prif nodwedd y broses fu brys, yn fy marn i, ac nid yw wedi'i gwneud yn bosibl cael ymgynghori, trafodaeth ac ymatebion ystyriol sy'n briodol. Credaf fod diffyg eglurder wedi bod ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ac erys rhai pryderon ynghylch plismona lleol. Gyda chefnidir o'r fath, oni fyddech yn cytuno mai dyma'r amser i gymryd cam yn ôl ac oedi, i ganiatáu i fwy o fanylion ddod yn hysbys ac i ymgynghori digonol ddigwydd ynghylch cynigion sydd wedi'u hystyried yn drylwyr a'u cyflwyno'n briodol?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn sicr yn cytuno â chi ynglŷn â'r trafferthion o ran diffyg eglurder ynghylch ariannu. Mae'r broblem honno gennym ers peth amser bellach, yn enwedig yn y cyd-destun hwn. Ni yw'r corff sydd wedi bod yn gyfrifol am y broblem o ran praesept y dreth gyngor, er nad ydym yn gyfrifol am blismona, gan nad yw wedi'i ddatganoli. Gwarchod plismona bro yw'r brif flaenoriaeth ym marn pawb yng Nghymru, a chytunaf yn llwyr fod yn rhaid diogelu hynny wrth i'r heddlu gael ei ad-drefnu. Am y rhesymau hynny, yr wyf yn cytuno â'r hyn sydd gennych dan sylw yn gyffredinol. Yr

that we do not think that it is practical to achieve what it is seeking to achieve by 1 April 2007.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Gofynnaf gwestiwn eithaf sylfaenol i chi, Brif Weinidog. A ydych chi'n credu y dylai'r pedwar heddlu yng Nghymru ddod yn un?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn awr yn dechrau drysu popeth ynghylch mater sy'n ddryslyd beth bynnag. Yr ydym yn gyfrifol am ochr praesept y dreth gyngor, ond nid ydym yn gyfrifol am faterion ynghylch ad-drefnu'r heddluoedd, felly nid oes pwynt ceisio rhoi'r argraff i bobl Cymru mai ni sy'n gyfrifol. Y Swyddfa Gartref sydd ar y blaen ar y pwnc hwnnw, ac mae wedi dweud ei bod yn gweld rhesymau clir iawn dros symud o bedwar i un heddlu. Nid yw hynny'n fater i ni, ond mae'n fater i ni pan mae'n effeithio ar wasanaethau yr ydym ni'n eu darparu. Nid oes unrhyw syniadau personol gyda ni. Y cyfan y mae hyn yn ei wneud yw drysu cyfrifoldebau, ac mae'r cyfrifoldeb ar yr ochr honno yn glir: nid yw'n fater a ddatganolwyd i ni.

Ieuan Wyn Jones: Dewch yn eich blaen—chi yw Prif Weinidog Cymru. A ydych chi'n dweud wrthym nad oes gennych farn am ailstrwythuro heddluoedd Cymru? Yr ydym yn wynebu Swyddfa Gartref sydd wedi diystyru gwrthwynebiad cryf yng Nghymru. Gwyddom y bydd colli pwyslais ar blismona cymunedol. Gwyddom nad yw wedi ystyried ein costau. Onid ydych yn credu y gallem wneud y peth yn well yma, ac y dylai cyfrifoldeb dros yr heddlu gael ei ddatganoli er mwyn i ni gael yr offer i wneud y gwaith?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi gwrando'n ofalus iawn ar y pedwar prif gwnstabl, ac maent yn parhau i gefnogi'r egwyddor o symud o bedwar heddlu i un. Fodd bynnag, maent hefyd yn erbyn y ffordd y mae'r Swyddfa Gartref wedi gweithredu hyd yn hyn, ac maent o blaid symud y dyddiad dechrau o 1 Ebrill 2007 i ryw ddyddiad arall, flwyddyn yn hwyrach efallai, fel y gallwn gael y sefyllfa yn hollol glir ynghylch ariannu, y praesept a sut i amddiffyn y pethau mawr i bobl Cymru. Nid faint o brif

ydym wedi egluro i'r Swyddfa Gartref na chredwn ei bod yn ymarferol cyflawni'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni erbyn 1 Ebrill 2007.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): I will ask you a fairly fundamental question, First Minister. Do you think that Wales's four police forces should become one?

The First Minister: You are now starting to fudge the issues surrounding what is a confusing matter anyway. We are responsible for the council tax precept aspect, but we are not responsible for matters relating to the restructuring of the police forces, so there is no point in trying to give the people of Wales the impression that we are responsible. The Home Office has the lead on this matter, and it has said that it has very clear reasons for wanting to move from having four forces to one. That is not a matter for us, but it is a matter for us when it impacts on the services that we deliver. We do not have any personal ideas. All that this does is confuse responsibilities, and the responsibilities for that aspect are clear: it is not a matter that has been devolved to us.

Ieuan Wyn Jones: Come on—you are the First Minister of Wales. Are you really telling us that you do not have an opinion on the restructuring of Wales's police forces? We are faced with a Home Office that has disregarded strong opposition from Wales. We know that there will be a loss of emphasis on community policing. We know that it has not taken account of our costs. Do you not think that we could do a better job of it here, and that responsibility for the police should be devolved so that we have the tools to do the job?

The First Minister: We have listened extremely carefully to the four chief constables, and they continue to support the principle of merging the four police forces into one. However, they too are unhappy with how the Home Office has operated on this, and they are in favour of moving the start date from 1 April 2007 to some other date, perhaps a year later, so that we can get the picture clear in our minds on funding, the precept and how to safeguard what is important to the people of Wales. It is not

gwnstabiliaid sydd gennym sy'n bwysig, ond a fydd plismona yn ein cymdogaethau yn cael ei amddiffyn dan y gyfundrefn newydd, ac a fydd y plismona hwnnw o leiaf gystal ag ydyw ar hyn o bryd, os nad yn well.

Ieuan Wyn Jones: Do you not agree that it is the policing needs of Welsh communities that should come first, rather than the bulldozing through of plans by a department described by its own Minister as dysfunctional? Do you want a dysfunctional, not-fit-for-purpose Home Office—these are John Reid's own words—to be in charge of the restructuring of the police service in Wales? What we want is a bit of leadership from you, First Minister. We want you to stand up for Wales against a bulldozing Home Office. Is it not about time that we said to the Home Office, 'Hands off our police service; give us the tools, and we will do the job ourselves'?

The First Minister: That is Ieuan Wyn Jones suddenly lurching towards independence for Wales. Whenever something is unpopular, he says that we should have a Welsh police force, a Welsh army, a Welsh navy, and Welsh embassies all around the world. If that is what you believe, that is fine; come out and say so. However, there is no point in just saying it when you think that it is politically convenient.

The point that you made about protecting neighbourhood policing being the top priority for the people of Wales is one that I have made twice today—even before you tried to attack me and pretend to disagree with me. If we agree on something, why can you not be honest enough to say so? I had already twice placed an emphasis on the protection of neighbourhood policing. That is the key issue, rather than this grandstanding about Welsh independence and a separate Welsh police force. That is not the issue. I believe that you agree that it is not really the issue, but you have people behind you whom you think you will please with a bit of grandstanding. The issue is really about the protection of neighbourhood policing and solving the problems of the sharp difference

how many chief constables that we have that is important, but whether neighbourhood policing will be safeguarded under the new system, and whether that policing will be at least as good as it is now, if not better.

Ieuan Wyn Jones: Onid ydych yn cytuno mai anghenion plismona cymunedau Cymru ddylai ddod yn gyntaf, yn hytrach na gweithredu'n orfodol gynlluniau gan adran a ddisgrifiwyd gan ei Gweinidog ei hun fel un gamweithredol? A oes arnoch eisiau i Swyddfa Gartref gamweithredol nad yw'n addas i'w diben—geiriau John Reid ei hun yw'r rhain—fod yn gyfrifol am ailstrwythuro'r gwasanaeth heddlu yng Nghymru? Yr hyn y mae arnom ei eisiau yw ychydig o arweiniad gennych, Brif Weinidog. Yr ydym am i chi sefyll dros Gymru yn erbyn Swyddfa Gartref sy'n gweithredu ei chynlluniau'n orfodol. Onid yw'n hen bryd inni ddweud wrth y Swyddfa Gartref, 'Gadewch lonydd i'n gwasanaeth heddlu, rhowch yr arfau i ni, ac fe wnawn y gwaith ein hunain'?

Y Prif Weinidog: Dyna Ieuan Wyn Jones yn sydyn yn llamu tuag at annibyniaeth i Gymru. Pryd bynnag y byd rhywbeth yn amhoblogaidd, bydd yn dweud y dylem gael heddlu i Gymru, byddin i Gymru, llynges i Gymru a llysgenadaethau ledled byd. Os mai hynny yw eich barn, iawn; datganwch hynny ar goedd. Fodd bynnag, nid oes dim diben dweud hynny dim ond pan fyddwch yn credu bod hynny'n gyfleus yn wleidyddol.

Mae'r pwynt a wnaed gennych ynghylch y ffaith mai gwarchod plismona bro yw prif flaenoriaeth pobl Cymru, yn un a wnaed gennyf ddwywaith heddiw—hyd yn oed cyn i chi geisio ymosod arnaf a chymryd arnoch eich bod yn anghytuno â mi. Os ydym yn cytuno ar rywbeth, paham na allwch fod yn ddigon gonest i ddweud hynny? Yr oeddwn eisoes wedi rhoi pwyslais ddwywaith ar warchod plismona bro. Hynnyw yw'r mater allweddol, yn hytrach na'r ymddwyn gorchestol hwn ynghylch annibyniaeth i Gymru a heddlu ar wahân ar gyfer Cymru. Nid hynny yw'r mater dan sylw. Credaf eich bod yn cytuno nad hynny yw'r mater sydd dan sylw mewn gwirionedd, ond mae gennych bobl y tu ôl i chi, y credwch y byddwch yn eu plesio gyda rhywfaint o

between police precepts in north and south Wales.

ymddygiad gorchestol. Y mater dan sylw mewn gwirionedd yw gwarchod plismona bro a datrys problemau'r gwahaniaeth sylweddol rhwng praeseptau'r heddlu yn y gogledd a'r de.

Gwella Gwasanaethau Lleol Improving Local Services

Q2 The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies for improving local services? OAQ1600(FM)

C2 Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau lleol? OAQ1600(FM)

The First Minister: We set out our vision for high-quality, responsive public services in 'Making the Connections', published in June 2005. Our approach is based on co-operation rather than competition, and on new levels of collaboration across boundaries rather than on wholesale changes to existing boundaries or reorganisation of responsibilities.

Y Prif Weinidog: Cyflwynasom ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ymatebol ac o ansawdd da yn 'Creu'r Cysylltiadau', a gyhoeddwyd ym Mehefin 2005. Mae ein dull o weithredu yn seiliedig ar gydweithio yn hytrach na chystadleuaeth, ac ar lefelau newydd o weithio ar y cyd ar draws ffiniau, yn hytrach na newidiadau mawr i ffiniau presennol neu ad-drefnu cyfrifoldebau.

Nick Bourne: When did you first become aware of the inability of the Labour Government to deliver on the pledge to provide free homecare for disabled people?

Nick Bourne: Pa bryd y daethoch yn ymwybodol gyntaf o anallu'r Llywodraeth Lafur i gyflawni'r addewid i ddarparu gofal cartref yn rhad ac am ddim i bobl anabl?

The First Minister: That is a very detailed question; I will have to look at the papers and get back to you on it. I cannot make a commitment today to a reference to a date. If you would like to be absolutely certain as to what you mean by that question, a written Assembly question to support it would be useful.

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n gwestiwn manwl iawn; bydd yn rhaid i mi edrych ar y papurau a dod yn ôl atoch ynglŷn ag ef. Ni allaf wneud ymrwymiad heddiw i gyfeirio at ddyddiad. Pe baech yn hoffi bod yn gwbl sicr ynghylch yr hyn a olygwch wrth y cwestiwn hwnnw, byddai cwestiwn ysgrifenedig i'r Cynulliad i'w ategu yn ddefnyddiol.

Nick Bourne: Everybody else in the Chamber is aware of exactly what I meant. When did you first become aware of the inability of the Labour Government to deliver on the pledge to provide free homecare for disabled people? It is not a detailed question; it is a short and brief question to which you should know the answer.

Nick Bourne: Mae pawb arall yn y Siambr yn llwyr ymwybodol o'r hyn yr oeddwn yn ei olygu. Pa bryd y daethoch yn ymwybodol gyntaf o anallu'r Llywodraeth Lafur i gyflawni'r addewid i ddarparu gofal cartref yn rhad ac am ddim i bobl anabl? Nid yw'n gwestiwn manwl; cwestiwn byr a chryno ydyw, y dylech wybod yr ateb iddo.

The First Minister: It is a trap question, as you and I know. I will have to consult the papers. I am afraid that I was not born yesterday or the day before.

Y Prif Weinidog: Cwestiwn i faglu rhywun ydyw, fel y gwyddoch chi a minnau. Bydd yn rhaid i mi edrych y papurau. Mae'n ddrwg gennyf, ond nid ddoe nac echdoe y'm ganed.

Nick Bourne: We sometimes wonder when

Nick Bourne: Byddwn weithiau'n meddwl

you were born. Let me try to help you; since you are unable to answer the question, let people who know a bit more about these things, and who do a bit of reading behind the scenes on them, help you. A briefing paper was delivered to the Assembly Cabinet in August 2004, saying that you could not deliver on that promise as the Assembly had no statutory mechanism that could be used as a vehicle for implementation. You may have known before that, but that was the latest date on which you could have found out. Yet, in the 2005 annual report, you stated that the Government maintained that it was on course to deliver on the pledge. How is that possible? Is that deceitful or is it gross incompetence?

The First Minister: It is neither; that is another trap statement. You only set out two alternatives without considering the likeliest, which is the third. We do not control all the levers of delivery. Local authorities are frequently key deliverers of our pledges. We set out what we believe are reasonable pledges based on what we believe to be the sticks and carrots available to us. However, they do not enable us to compel local authorities to do anything.

2.10 p.m.

Nick Bourne: It was absolutely clear, based on the advice that you were getting no later than August 2004, that you could not deliver on a key manifesto pledge. Yet, in the 2005 annual report—and this is not a trick question—you maintain that, as previously announced, you will start by piloting a scheme and that you remain on course to deliver on this key pledge. How were you able to say that in the knowledge that you could not do so because of the advice that you had received the previous August?

The First Minister: You have already said that you think that that statement was deceitful. I rebut and reject that completely, because of the problem that I have

tybed pa bryd y'ch ganed. Gadewch imi geisio eich helpu; gan nad ydych yn gallu ateb y cwestiwn, gadewch i bobl sy'n gwybod ychydig mwy am y pethau hyn ac yn darllen ychydig yn eu cylch yn y cefndir, roi cymorth i chi. Cyflwynwyd papur briffio i Gabinet y Cynulliad ym mis Awst 2004, yn datgan na allech gyflawni'r addewid hwnnw gan nad oedd gan y Cynulliad ddim mecanwaith statudol y gellid ei ddefnyddio fel cyfrwng i'w weithredu. Efallai eich bod yn gwybod cyn hynny, ond dyna'r dyddiad diweddaraf pryd y gallech fod wedi dod i wybod. Er hynny, yn adroddiad blynyddol 2005, bu ichi ddatgan bod y Llywodraeth yn mynnu ei bod yn bosibl iddi gyflawni'r addewid fel y bwriedid. Sut y mae hynny'n bosibl? Ai bod yn dwyllodrus yw hynny, neu ai anallu difrifol yw?

Y Prif Weinidog: Nid y naill na'r llall; datganiad arall i faglu rhywun yw hynny. Nid ydych yn nodi ond dau ddewis, heb ystyried yr un mwyaf tebygol, sef y trydydd. Nid ni sy'n rheoli pob dim sy'n dylanwadu ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni. Mae'r awdurdodau lleol yn aml yn allweddol o ran cyflawni ein haddewidion. Yr ydym yn nodi'r hyn sydd yn ein barn ni yn addewidion rhesymol, yn seiliedig ar y gosb a'r abwyd sydd ar gael i ni yn ein barn ni. Fodd bynnag, nid ydynt yn ein galluogi i orfodi awdurdodau lleol i wneud dim byd.

Nick Bourne: Yr oedd yn gwbl eglur, yn seiliedig ar y cyngor yr oeddech yn ei gael ryw dro hyd at Awst 2004, na allech gyflawni addewid allweddol yn eich maniffesto. Er hynny, yn adroddiad blynyddol 2005—ac nid cwestiwn i'ch baglu yw hwn—yr ydych yn mynnu, fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, y byddwch yn dechrau drwy gynnal cynllun peilot a'ch bod am gyrraedd y nod o hyd o ran cyflawni'r addewid allweddol hwn. Sut yr oedd modd ichi ddweud hynny gan wybod na allech wneud y fath beth oherwydd y cyngor yr oeddech wedi'i gael y mis Awst blaenorol?

Y Prif Weinidog: Yr ydych eisoes wedi dweud eich bod yn credu bod y datganiad hwnnw'n dwyllodrus. Yr wyf yn gwrthod hynny'n llwyr, oherwydd y broblem yr wyf

mentioned. This not only applies to that particular manifesto pledge; there are other pledges that we made, including that on free school breakfasts, which are not dependent on being able to compel local authorities to do things in the way that we want them to do them. We do not have that kind of relationship with local authorities, but we may make an estimate that, with the combination of sticks and carrots that we have, we can persuade local authorities to deliver the pledges. However, later on, we were obliged to concede that we would not be able to do that.

Nick Bourne: With respect, I did not say that the statement was deceitful; I said that either it was deceitful or that it was gross incompetence. I accept that you are not deceitful, and, therefore, it must be gross incompetence that you maintained, almost a year later, that you could deliver on a pledge on which you knew you could not deliver.

The First Minister: It is none of those things. It is simply about whether these sticks and carrots are going to work with local authorities, as our deliverers, in light of the new information that was emerging from Scotland, that free home care was costing far more than anybody had previously estimated and the reason for that. You could estimate demand based on previous figures, but the latent demand, which has appeared in Scotland, which is not there until you make something free, was going to create an entirely different picture. The local authorities made their feelings clear to us on that, and we put together what we think is a much better package.

I have read the article in the *Western Mail* that you read, Nick, but it is the usual stuff that you get from a particular journalist. You are dependent on his work, which is fine, and I hope that you pay him 5 per cent for every time that you quote his work in this Chamber. I would not pay him anything.

Irene James: An effective fire service is a vital local emergency service in every

wedi sôn amdani. Nid yw hyn yn berthnasol i'r addewid manifesto penodol hwnnw'n unig; mae addewidion eraill a wnaed gennym, gan gynnwys yr un ynghylch brecwast am ddim yn yr ysgol, nad ydynt yn ddibynnol ar allu gorfodi awdurdodau lleol i wneud pethau fel yr ydym ni'n dymuno iddynt eu gwneud. Nid y math hwnnw o berthynas sydd gennym gydag awdurdodau lleol, ond gallwn fwrw amcan, gyda'r cyfuniad o gosbau ac anogaethau sydd gennym, y gallwn berswadio awdurdodau lleol i gyflawni'r addewidion. Fodd bynnag, yn ddiweddarach, bu'n rhaid inni gyfaddef na fyddem yn gallu gwneud hynny.

Nick Bourne: Gyda phob parch, ni ddywedais fod y datganiad yn dwyllodrus; dweud a wneuthum ei fod un ai'n dwyllodrus neu mai anallu difrifol ydoedd. Yr wyf yn derbyn nad ydych yn dwyllodrus, ac felly mae'n rhaid mai anallu difrifol ar eich rhan ydoedd pan fu ichi fynnu, bron flwyddyn yn ddiweddarach, y gallech gyflawni addewid y gwyddech na allech ei gyflawni.

Y Prif Weinidog: Dim un o'r pethau hynny. Yn syml iawn, mae a wnelo ag a yw'r cosbau a'r anogaethau hyn yn mynd i weithio gydag awdurdodau lleol, fel y rhai sy'n cyflawni ar ein rhan, yng ngoleuni'r wybodaeth newydd a oedd yn dod o'r Alban, fod gofal cartref rhad ac am ddim yn costio llawer mwy nag a amcangyfrifwyd gan neb o'r blaen, a'r rheswm am hynny. Gallech amcangyfrif hyn a hyn o alw ar sail ffigurau blaenorol, ond mae'r galw cudd, sydd wedi dod i'r amlwg yn yr Alban, nad oedd yno cyn i chi ddarparu rhywbeth am ddim, yn mynd i greu darlun cwbl wahanol. Mynegodd yr awdurdodau lleol eu barn yn glir inni ar hynny, ac aethom ninnau ati i lunio pecyn sydd, yn ein barn ni, yn un gwell o lawer.

Darllenais yr erthygl yn y *Western Mail* a ddarllenwyd gennych, Nick, ond y stwff arferol a gewch gan ryw newyddiadurwr ydyw. Yr ydych yn dibynnu ar ei waith ef, sy'n ddigon teg, a gobeithio eich bod yn talu 5 y cant iddo am bob tro y byddwch yn dyfynnu o'i waith yn y Siambr hon. Ni fyddwn i'n talu ceiniog iddo.

Irene James: Mae gwasanaeth tân effeithiol yn wasanaeth brys lleol hanfodol ym mhob

community across Wales. Current proposals to reorganise fire services in Islwyn, by downgrading Abercarn station from full-time status to part-time status, and amalgamating Cefn Fforest station in Blackwood with Bargoed station, will leave Islwyn without any full-time emergency cover. Will you liaise with the Minister for Social Justice and Regeneration to revisit this reorganisation and address concerns raised by me and my constituents about ensuring the presence of a full-time fire service in Islwyn?

The First Minister: We will take that up, because, for the past 14 months, we have been responsible for the fire service in a way that we are not for the police service. Had I known that you were going to raise this issue today, I would have asked Brian Fraser, the chief fire officer, about it, as I was with him last night at the opening of the new fire service training centre in Pontprennau in Cardiff. Edwina or I will contact him in light of the concerns that you have expressed properly on behalf of your constituents today.

Alun Ffred Jones: Yn seiliedig ar eich dogfen, 'Creu'r Cysylltiadau', mae byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r gogledd yn bwriadu canoli eu gwasanaethau cefnogol, gan anwybyddu'r ffaith mai dim ond tair blynedd sydd ers yr ad-drefnu diwethaf. Bwriedir canoli'r swyddi hyn ym Mhrestatyn, sydd mewn ardal â chyflogaeth lawn, fel y bu ichi grybwyll fwy nag unwaith yn y Siambr. Fodd bynnag, bydd 70 o swyddi yn diflannu o ardal Arfon ac ysbytai Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru. A gredwch ei bod yn synhwyrol canoli swyddi cyhoeddus o'r fath yng ngogledd-ddwyrain Cymru, lle mae cyflogaeth lawn, gan dynnu swyddi o ardaloedd fel Ynys Môn, sy'n dioddef o ddiffyg swyddi da?

Y Prif Weinidog: Ni chofiaf i mi erioed ddweud bod cyflogaeth lawn ym Mhrestatyn. Os gallwch ddyfynnu unrhyw araith neu ddatganiad lle dywedais fod cyflogaeth lawn ym Mhrestatyn, pob lwc i chi; ysgrifennwch ataf i ddangos eich esiampl. Mae Unsain, sef yr undeb sy'n cynrychioli gweision cyhoeddus yn ardal Bangor a Chaernarfon,

cymuned ledled Cymru. Bydd y cynlluniau cyfredol i ad-drefnu'r gwasanaethau tân yn Islwyn drwy israddio gorsaf Aber-carn o statws llawnamser i statws rhan-amser, a chyfuno gorsaf Cefn Fforest yn y Coed Duon gyda gorsaf Bargoed yn peri bod Islwyn heb ddim gwasanaeth tân brys llawnamser. A wnewch gysylltu â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i edrych eto ar yr ad-drefnu hwn a rhoi sylw i'r pryderon a godwyd gennyf fi a'm hetholwyr ynghylch sicrhau presenoldeb gwasanaeth tân llawnamser yn Islwyn?

Y Prif Weinidog: Edrychw'n ar hynny oherwydd, ers 14 mis bellach, yr ydym wedi bod yn gyfrifol am y gwasanaeth tân mewn ffordd nad ydym yn gyfrifol am y gwasanaeth heddlu. Pe gwyddwn eich bod yn bwriadu codi'r mater hwn heddiw, byddwn wedi holi Brian Fraser, y prif swyddog tân, yn ei gylch, gan fy mod gydag ef neithiwr yn agoriad canolfan hyfforddi newydd y gwasanaeth tân ym Mhontprennau yng Nghaerdydd. Byddaf fi neu Edwina'n cysylltu ag ef yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd gennych yn briodol ar ran eich etholwyr heddiw.

Alun Ffred Jones: Based on your document, 'Making the Connections', the local health boards and trusts of north Wales intend to centralise their support services, while ignoring the fact that only three years have passed since the last reorganisation. These jobs will be centred in Prestatyn, which has full employment, as you have mentioned on several occasions in the Chamber. However, 70 jobs will be lost from the Arfon area and the hospitals of North West Wales NHS Trust. Do you think that it is sensible to centralise such public-sector jobs in north-east Wales, where there is full employment, while jobs are taken from areas such as Anglesey, which suffer from a lack of good-quality jobs?

The First Minister: I do not recall ever saying that there is full employment in Prestatyn. If you can quote any speeches or statements in which I have claimed that there is full employment in Prestatyn, good luck to you; write to me to show your example. Unison, as the union representing public servants in the Bangor and Caernarfon area,

wedi tynnu fy sylw at yr un pwynt, ond, hyd y deallaf, mae'r trafodaethau wedi mynd rhagddynt oherwydd bod y rhent yn isel a bod yr adeilad ar gael ym Mhrestatyn. Dyna'r prif reswm pam bod pawb, gan gynnwys yr undebau, megis Unsain, oedd yn gwrthwynebu'r symud yn y lle cyntaf, wedi derbyn erbyn hyn ei fod yn gwneud synnwyr i symud i rywle lle mae swyddfa ar gael a lle mae'r rhent yn isel. Gall y mwyafrif o weithwyr yn awr deithio i'r swyddfa i weithio gyda'i gilydd er mwyn darparu gwasanaeth sy'n fwy effeithiol.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):

Perhaps I could try you on another public service: the railways. You told us that within 12 months we would have the opening of the Risca-Rogerston-Newbridge-Ebbw Vale rail link. Can you tell us whether it will it have new or old rolling stock?

The First Minister: No, I cannot. I do not know the answer, but I am sure that Andrew Davies and his officials will be able to supply you with one. We are pleased that work has started on the line. I am sure that, had you taken a bit more time to prepare your question, you would have remembered to say how happy you are that the reopening will take place. No doubt you will make good that deficiency in your supplementary, otherwise people might think that you are against the Ebbw Vale railway line, and you would not want to give that impression, would you? It is important. Huge progress has been made, and it has resulted in the reopening of the Vale of Glamorgan line, and will shortly result in the reopening of the Ebbw Vale line, and, we hope, the extension of that line into Newport once the Network Rail improvements to the signalling system on the south Wales main line from Port Talbot to Newport, costing some £400 million, have been completed.

Michael German: If you check the Record, you will see my support for the Ebbw Vale rail link expressed over the years. We expect a world-class service for people on that line, so we would expect to have world-class rolling stock. If you want people to be excited about travelling on public transport, you must have good vehicles. I have asked

has made the same point to me, but, as I understand it, the negotiations are going ahead because of the low rent and availability of the building in Prestatyn. That is one of the main reasons why everyone, including the unions, such as Unison, which objected to the move initially, now accepts that it is sensible to move to somewhere that is available and has low rent. The majority of the workers can now commute to the office to work together in order to provide a more effective service.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):

Efallai y gallwn godi mater arall gyda chi, sef gwasanaeth cyhoeddus arall: y rheilffyrdd. Dywedasoeh wrthym y byddai cyswllt rheilffordd Rhisga—y Tŷ Du—Trecelyn—Glynebwy yn cael ei agor o fewn 12 mis. A allwch ddweud wrthym ai cerbydau newydd ynteu hen rai fydd ar y lein hon?

Y Prif Weinidog: Na allaf. Ni wn beth yw'r ateb, ond yr wyf yn siŵr y bydd Andrew Davies a'i swyddogion yn gallu rhoi ateb i chi. Yr ydym yn falch bod y gwaith wedi dechrau ar y lein. Yr wyf yn siŵr, pe baech wedi cymryd ychydig mwy o amser i baratoi eich cwestiwn, y byddech wedi cofio dweud pa mor hapus yr ydych fod y lein yn mynd i ailagor. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn gwneud iawn am y diffyg hwnnw yn eich cwestiwn atodol, neu mae perygl y bydd pobl yn meddwl eich bod yn erbyn lein Glynebwy, ac ni fyddech am roi argraff o'r fath, na fyddech? Mae hyn yn bwysig. Mae cynnydd enfawr wedi'i wneud, ac mae wedi arwain at ailagor lein Bro Morgannwg, a chyn hir bydd yn arwain at ailagor lein Glynebwy, ac, yr ydym yn gobeithio, estyniad y lein honno i Gasnewydd pan fydd gwelliannau Network Rail i'r system signalau ar brif lein y de o Bort Talbot i Gasnewydd, sy'n costio tua £400 miliwn, wedi eu cwblhau.

Michael German: Os edrychwch ar y Cofnod, fe welwch fod fy nghefnogaeth i gyswllt rheilffordd Glynebwy yn cael ei mynegi dros y blynyddoedd. Yr ydym yn disgwyl gwasanaeth o'r safon orau yn y byd i bobl ar y lein honno, felly byddem yn disgwyl cael cerbydau gyda'r gorau hefyd. Os ydych am i'r syniad o deithio ar

Andrew Davies about this, and I am now asking you, because he was unclear about it. Since you do not know the answer now, will you come back to us with the answer within the next seven days?

The First Minister: I am not sure about within the next seven days—‘as soon as the information is available’ might be a better way of putting it. You can have a third opportunity to welcome the fact that we are investing in the railways. We are reopening the lines that were closed by Beeching. We have reopened one; we are in the middle of a second, and it would be good to have a word of welcome for that and for the massive, £400 million investment by Network Rail in the Port Talbot to Newport stretch of the main line into which the Ebbw Vale line will interlock, eventually allowing it to flow into Newport. We are always keen to have a bit of backing from opposition parties for these massive investments. The investment of £400 million from Network Rail is the biggest investment ever in the railways in Wales. You might want to welcome that, as well as the Ebbw Vale infrastructure project and the fact that construction is now under way for the six stations and the line itself.

Michael German: I will repeat what I said earlier—my support for this venture is already on record. I am sure that you would want a railway service that is fit for purpose, and which people want to use. There is nothing purposeful in having a railway line with old rolling stock. Whether people want to travel on a service depends on whether or not it is a regular, comfortable service that is on time. The line was due to open this year—I went back and read Andrew Davies’s statement on it last year. It will not open this year; it will be delayed. However, people need to know whether we will have new trains on that service. If we do not know the answer to that now, and cannot find it out, when do you think that we will know the answer?

The First Minister: You did mention earlier

drafnidiaeth gyhoeddus apelio at bobl, rhaid cael cerbydau da. Yr wyf wedi holi Andrew Davies am hyn, ac yn awr yr wyf yn gofyn i chi, oherwydd yr oedd yn aneglur yn ei gylch. Gan nad ydych yn gwybod yr ateb yn awr, a ydych yn fodlon dod yn ôl atom gydag ateb o fewn y saith diwrnod nesaf?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr ynglŷn ag o fewn y saith diwrnod nesaf—efallai y byddai ‘cyn gynted ag y bydd y wybodaeth ar gael’ yn ffordd well o’i gyfleu. Cewch drydydd cyfle i groesawu’r ffaith ein bod yn buddsoddi yn y rheilffyrdd. Yr ydym yn ailagor y leiniau a gaewyd gan Beeching. Yr ydym wedi ailagor un; yr ydym ar ganol ail un; a byddai’n braf cael clywed gair o groeso i hynny ac i’r buddsoddiad enfawr o £400 miliwn gan Network Rail yn y rhan rhwng Port Talbot a Chasnewydd o’r brif lein y bydd lein Glynebwy’n ymuno â hi, gan ganiatáu iddi lifo i Gasnewydd yn y diwedd. Yr ydym yn awyddus bob amser i gael tipyn o gefnogaeth gan y gwrthbleidiau i’r buddsoddiadau enfawr hyn. Y buddsoddiad hwn o £400 miliwn gan Network Rail yw’r buddsoddiad mwyaf erioed yn y rheilffyrdd yng Nghymru. Efallai y byddech am groesawu hynny, yn ogystal â phrosiect seilwaith Glynebwy a’r ffaith bod y gwaith i adeiladu’r chwe gorsaf a’r lein ei hun wedi dechrau.

Michael German: Ailadroddaf yr hyn a ddywedais yn gynharach—mae fy nghefnogaeth i’r fenter hon wedi’i chofnodi eisoes. Yr wyf yn siŵr y byddech am weld gwasanaeth rheilffordd sy’n addas i’r diben, ac y bydd pobl am ei ddefnyddio. Nid oes dim pwrpas mewn cael rheilffordd gyda hen gerbydau. Yr hyn a fydd yn penderfynu a fydd pobl am deithio ar wasanaeth yw a yw’r gwasanaeth yn un rheolaidd, cyfforddus a phrydlon ai peidio. Yr oedd y lein i fod i agor eleni—euthum yn ôl a darllen datganiad Andrew Davies ar y mater y llynedd. Ni fydd yn agor eleni; mae hynny wedi ei ohirio. Fodd bynnag, bydd pobl am gael gwybod a fydd gennym drenau newydd ar y gwasanaeth hwnnw. Os na wyddom yr ateb i hynny yn awr, ac os na allwn ddarganfod yr ateb, pa bryd yr ydych yn credu y byddwn yn cael gwybod yr ateb?

Y Prif Weinidog: Soniasoch yn gynharach

the real factors that affect people's willingness to travel on public transport, in contrast to the grandstanding points that you are making now. Those are whether the service runs on time, frequently and regularly, whether it is clean, and whether it is comfortable. Those are the key factors that people look for. I am not sure that they are as obsessed with the date of birth of the rolling stock, as much as the points that you made about cleanliness, comfort, regularity and adherence to the timetable.

am y gwir ffactorau sy'n effeithio ar barodrwydd pobl i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn wahanol i'r pwyntiau ymfrostgar yr ydych yn eu gwneud yn awr. A yw'r gwasanaeth yn brydlon, yn rhedeg yn aml a rheolaidd, a yw'n lân, ac a yw'n gyfforddus, yw'r ffactorau hynny. Y rheini yw'r ffactorau allweddol a fydd dan sylw gan bobl. Nid wyf yn siŵr a ydynt yn rhannu eich obsesiwn ynglŷn â dyddiad geni'r cerbydau, o'i gymharu â'r pwyntiau a wnaethpwyd gennych ynghylch glendid, cyfforddusrwydd, gwasanaeth rheolaidd a phrydlondeb y trenau.

Codi Ymwybyddiaeth o Ganser y Brostad a Chanser y Gaill Raising Awareness about Prostate and Testicular Cancers

Q3 Carl Sargeant: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to raise awareness about prostate and testicular cancers? OAQ1617(FM)

C3 Carl Sargeant: A wnaiff y Prif Gweinidog ddatganiad am beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o ganser y brostad a chanser y gaill? OAQ1617(FM)

The First Minister: Tackling cancer is one of our top health priorities and I am pleased that you have asked this question, because it helps us to highlight the fact that Cancer Research UK is running a cancer awareness week this month, with a particular emphasis on prostate and testicular cancers. I commend Gavin Henson, Matthew Stevens and the other sports stars who have participated in the campaign to raise awareness of these issues.

Y Prif Weinidog: Mynd i'r afael â chanser yw un o'n prif flaenoriaethau ym maes iechyd ac yr wyf yn falch eich bod wedi gofyn y cwestiwn hwn, oherwydd y mae'n ein helpu i dynnu sylw at y ffaith bod Cancer Research UK yn cynnal wythnos ymwybyddiaeth canser y mis hwn, gyda phwyslais arbennig ar ganser y brostad a chanser y gaill. Hoffwn ganmol Gavin Henson, Matthew Stevens a'r sêr eraill o fyd chwaraeon sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am y materion hyn.

Carl Sargeant: 'Check Your Balls' is a nationwide campaign, and every man should be aware of it. Sixty per cent of men still do not know the signs of prostate cancer, and 37 per cent do not know the signs and symptoms of testicular cancer. Research suggests that cancer survival is lower in more deprived communities, and Cancer Research UK Cymru suggests that the causes may lie in the delay of diagnosis and treatment and poorer general health. What is the Assembly Government doing to ensure that information about prostate and testicular cancer reaches men in deprived communities in particular?

Carl Sargeant: Mae 'Check Your Balls' yn ymgyrch genedlaethol, a dylai pob dyn fod yn ymwybodol ohoni. Nid yw 60 y cant o ddynion yn ymwybodol o arwyddion canser y brostad, ac nid yw 37 y cant yn ymwybodol o arwyddion canser y gaill. Mae ymchwil yn dangos bod cyfraddau goroesi canser yn is mewn cymunedau mwy difreintiedig, ac mae Cancer Research UK Cymru yn awgrymu mai oedi cyn cael diagnosis a thriniaeth ac iechyd gwael yn gyffredinol sy'n gyfrifol am hynny. Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i sicrhau bod gwybodaeth am ganser y brostad a'r gaill yn cyrraedd dynion mewn cymunedau difreintiedig yn fwyaf arbennig?

The First Minister: Going well beyond the campaign that I mentioned—and I commend Gavin Henson, Matthew Stevens, David James and Colin Montgomery, four of the major sports stars who are participating in that particular campaign—we launched a campaign a couple of years ago, and we are currently reviewing its effectiveness; you will have seen it in male toilets throughout this Assembly building, and in many other public toilets also. We are carrying out a review of the effectiveness of those cancer awareness campaigns, which is expected to take about six months to complete.

Rhodri Glyn Thomas: First Minister, it is good to hear that tackling cancer is a priority for this Government. However, if you were serious about tackling cancer, should you not be prioritising services in the primary sector so that these diseases could be identified early? If that is the case, First Minister, why are you looking at the restructuring and reconfiguration of acute services in Wales, rather than telling us what you are going to do with the primary services and how you are going to allow more treatments to be provided in the primary sector?

The First Minister: I hate to say this, but I think that you are slightly confused. The review of secondary care services—that is, hospital services—is being undertaken precisely because of the increased emphasis on primary care services. Primary care services can do a lot more now than they used to 30 or 40 years ago. Therefore, you have to use district general hospitals in a different way to interlock with a wider range of services provided by the community nurse, the GP, dentists and community pharmacists. That is precisely the reason why we need a review of secondary care.

Denise Idris Jones: I am sure you would agree, First Minister, that elderly males who have undergone surgery for prostate cancer should be treated with absolute dignity to avoid any embarrassment. Last week, I

Y Prif Weinidog: Gan fynd ymhell y tu hwnt i'r ymgyrch y soniais amdani—a hoffwn ganmol Gavin Henson, Matthew Stevens, David James a Colin Montgomery, pedwar o'r enwau mawr o fyd chwaraeon sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrch hon—lansiwyd ymgyrch gennym ddwy flynedd yn ôl, ac yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ei heffeithiolrwydd; byddwch wedi ei gweld yn nhoiledau'r dynion yn adeilad y Cynulliad, ac mewn llawer o doiledau cyhoeddus eraill hefyd. Yr ydym yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd yr ymgyrchoedd hyn i godi ymwybyddiaeth o ganser, a disgwylir y cymer tua chwe mis i'w gwblhau.

Rhodri Glyn Thomas: Brif Weinidog, mae'n dda clywed bod mynd i'r afael â chanser yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Fodd bynnag, pe baech o ddifrif ynglŷn â mynd i'r afael â chanser, oni ddylech fod yn rhoi blaenoriaeth i wasanaethau yn y sector sylfaenol fel bod modd canfod yr afiechydon hyn yn gynnar? Os mai felly y mae, Brif Weinidog, pam yr ydych yn ystyried ailstrwythuro ac ailgyflunio gwasanaethau aciwt yng Nghymru, yn hytrach na dweud wrthym beth yr ydych yn mynd i'w wneud gyda'r gwasanaethau sylfaenol a sut yr ydych yn mynd i ganiatáu i fwy o driniaethau gael eu darparu yn y sector sylfaenol?

Y Prif Weinidog: Mae'n ddrwg gennyf orfod dweud hyn, ond arnaf ofn eich bod wedi drysu braidd. Mae'r arolwg o wasanaethau gofal eilaidd—hynny yw, gwasanaethau ysbytai—yn cael ei gynnal am yr union reswm bod pwyslais cynyddol ar wasanaethau gofal sylfaenol. Gall gwasanaethau gofal sylfaenol wneud llawer mwy yn awr nag y gallent ei wneud 30 neu 40 mlynedd yn ôl. Felly, rhaid ichi ddefnyddio ysbytai cyffredinol dosbarth mewn ffordd wahanol i gysylltu gydag amrywiaeth ehangach o wasanaethau a ddarperir gan nyrsys cymunedol, meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr cymunedol. Dyna'r union reswm pam mae angen arolwg o ofal eilaidd.

Denise Idris Jones: Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno, Brif Weinidog, y dylai dynion hŷn sydd wedi cael llawdriniaeth ar gyfer canser y brostad gael eu trin gydag urddas i osgoi annifyrrwch. Yr wythnos

received a letter from one of my constituents who is 84-years-old. He had received excellent prostate treatment and had been sent home. However, he had a catheter and a drip attached to him, and he was finding this embarrassing. Therefore, we need to look into this, in order to avoid this embarrassment for elderly gentlemen.

The First Minister: It is very difficult to avoid some form of embarrassment when you are talking about prostate or testicular cancer, however grown-up we think we are and however much we remember it is 2006 and not 1956. That is the reason for the particular campaign that Carl mentioned earlier, and that is why it is important that sports stars, because they are role models, try to take some of the stigma out of it. As for the older generation, my grandfather had the same condition, although he did not experience some of the consequences that you are referring to—it is one of my earliest memories of national health service treatment within the realms of my own family. It is important that dignity is an issue. The older generation sometimes cannot cope with being free and easy about it, in the same way that people in their twenties and thirties can, and everybody needs to remember that.

Jonathan Morgan: First Minister, I would agree that raising awareness is important, but access to high-quality treatment as quickly as possible is also important. One of my constituents in South Wales Central has had his case highlighted this afternoon in the *South Wales Echo*. He is suffering from prostate cancer and has been told by his local health board that he will not have access to a new form of radiotherapy, despite the treatment being available in other parts of the UK. What commitment will this Assembly Government give to patients in Wales, including those suffering from prostate cancer, that you will end the postcode lottery and provide equal access to treatment?

The First Minister: It is rather difficult when somebody makes a reference to a particular case. I follow a general practice of not referring to individual cases across the floor of the Assembly. However, obviously, I

diwethaf, cefais lythyr oddi wrth un o'm hetholwyr sy'n 84 oed. Yr oedd wedi derbyn triniaeth prostad ragorol ac wedi cael ei anfon adref. Fodd bynnag, yr oedd ganddo gathetr a diferwr ynghlwm wrtho, ac yr oedd hyn yn peri iddo deimlo'n annifyr. Felly, mae angen inni edrych ar hyn, er mwyn osgoi'r annifyrrwch hwn i ddynion oedrannus.

Y Prif Weinidog: Mae'n anodd iawn osgoi rhyw fath o annifyrrwch pan fyddwn yn sôn am ganser y brostad neu'r gaill, pa mor aeddfed bynnag yr ydym yn credu ein bod a pha faint bynnag a gofiwn mai 2006 ac nid 1956 ydyw. Dyna'r rheswm dros yr ymgyrch arbennig y soniodd Carl amdani yn gynharach, a dyna pam mae'n bwysig bod sér y byd chwaraeon, oherwydd eu bod yn batrymau ymddwyn, yn ceisio dileu rhywfaint ar y gwaradwydd sy'n gysylltiedig â hyn. O ran y genhedlaeth hyn, yr oedd fy nhad-cu yn dioddef gan yr un cyflwr, er na phrofodd rai o'r canlyniadau yr ydych yn cyfeirio atynt—mae hynny'n un o'm hatgofion cynharaf ynghylch triniaeth y gwasanaeth iechyd gwladol yn achos fy nheulu fy hun. Mae'n bwysig bod urddas yn rhywbeth sy'n cael sylw. Weithiau nid yw'r genhedlaeth hyn yn gallu ymdopi â bod mor agored yn eich gylch ag y mae pobl yn eu hugeiniau a'u tridegau'n gallu bod, a dylai pawb gadw hynny mewn cof.

Jonathan Morgan: Brif Weinidog, cytunaf fod codi ymwybyddiaeth yn bwysig, ond mae derbyn triniaeth o safon uchel cyn gynted â phosibl hefyd yn bwysig. Rhoddwyd sylw i achos un o'm hetholwyr yng Nghanol De Cymru yn y *South Wales Echo* y prynhawn yma. Mae'n dioddef gan ganser y brostad a dywedodd ei fwrdd iechyd lleol wrtho na fydd yn derbyn math newydd o radiotherapi, er bod y driniaeth ar gael mewn rhannau eraill o'r DU. Pa ymrwymiad y gall Llywodraeth y Cynulliad ei roi i gleifion yng Nghymru, gan gynnwys rhai sy'n dioddef gan ganser y brostad, y byddwch yn dod â'r loteri cod post i ben ac yn sicrhau bod gan bawb yr un hawl i dderbyn triniaeth?

Y Prif Weinidog: Mae'n anodd braidd pan fydd rhywun yn cyfeirio at achos penodol. Yr wyf yn dilyn yr arfer cyffredinol o beidio â chyfeirio at achosion unigol ar lawr y Cynulliad. Fodd bynnag, yr wyf yn

am well aware that this particular constituent of Jane Hutt's has raised the issue with her at her surgery, and that Jane has taken the steps that you would expect her to take as a constituency Assembly Member for the Vale of Glamorgan—which includes Barry, where this person comes from—with the health department here to see what can be done. I understand that the particular case is being looked at again by Health Commission Wales tomorrow. Further than that, I do not think that I should go on, as it is an individual case.

Jenny Randerson: First Minister, that is not good enough. I appreciate the fact that you do not want to deal with individuals, but let us deal with the general issue. The sort of treatment that Jonathan is referring to is brachytherapy, which is much less intrusive and less radical than traditional prostate cancer treatment, and has fewer side effects. There are 24 centres that provide this throughout England and Scotland, and about half the cancer patients in the USA are treated in this way. However, Health Commission Wales has suspended this treatment in Wales. Will you give us a commitment that you will discuss this issue urgently with the Minister for Health and Social Services, to ensure that patients in Wales, in general, do not receive second-class treatment?

The First Minister: One cannot be much more urgent than saying that it will be dealt with tomorrow. It is not the individual case; it is the whole issue of low-dose brachytherapy, which is a wonder treatment if you catch the case early. The matter will be considered at the HCW meeting tomorrow.

On this individual case, it is a matter for the consultant to make the information available, which I believe is happening. I cannot predict the outcome, and we should not discuss individual cases beyond the broad principles involved. As I say, the principle will be dealt with, I hope—that is what I am told—at the national commissioning advisory board meeting tomorrow, which is 7 June.

ymwybodol bod yr etholwr arbennig hwn o etholaeth Jane Hutt wedi codi'r mater gyda hi yn ei chymhorthfa, a bod Jane wedi cymryd y camau y byddech yn disgwyl iddi eu cymryd fel Aelod Cynulliad dros etholaeth Bro Morgannwg—sy'n cynnwys y Barri, lle y mae'r unigolyn hwn yn byw—gyda'r adran iechyd yma i weld beth y gellir ei wneud. Yr wyf yn deall y bydd Comisiwn Iechyd Cymru'n edrych eto ar yr achos penodol hwn yfory. Heblaw hynny, ni chredaf y dylwn ddweud rhagor, gan fod hwn yn achos unigol.

Jenny Randerson: Brif Weinidog, nid yw hynny'n ddigon da. Yr wyf yn sylweddoli nad ydych am drafod unigolion, ond gadewch inni edrych ar y mater yn gyffredinol. Y math o driniaeth y mae Jonathan yn cyfeirio ato yw brachytherapi, sy'n llawer llai mewnwthiol a radical na'r driniaeth draddodiadol ar gyfer cancer y brostad, gyda llai o sgîl-ffeithiau. Mae 24 o ganolfannau'n darparu'r driniaeth hon ledled Lloegr a'r Alban, ac mae tua hanner y cleifion cancer yn cael eu trin fel hyn yn yr UDA. Fodd bynnag, mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi rhoi'r gorau i'r driniaeth hon yng Nghymru. A wnewch roi ymrwymiad inni y byddwch yn trafod y mater hwn ar frys gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i sicrhau nad yw cleifion yng Nghymru'n cael triniaeth eilradd?

Y Prif Weinidog: Ni all rhywun ddangos mwy o frys na dweud yr ymdrinnir â'r mater yfory. Nid yw'n ymwneud â'r achos unigol; mae'n ymwneud â holl fater brachytherapi dos isel, sy'n driniaeth wyrthiol os ydych yn darganfod y cyflwr yn gynnar. Caiff y mater ei ystyried yng nghyfarfod Comisiwn Iechyd Cymru yfory.

O ran yr achos unigol hwn, mater i'r ymgynghorydd yw sicrhau bod y wybodaeth ar gael, a chredaf fod hynny'n digwydd. Ni allaf ragweld beth fydd y canlyniad, ac ni ddylem fod yn trafod achosion unigol heblaw'r egwyddorion cyffredinol sydd dan sylw. Fel y dywedais, ymdrinnir â'r egwyddor, gobeithio—dyna a ddywedir wrthyf—yng nghyfarfod y bwrdd cynghori cenedlaethol ar gomisiynu yfory, sef 7 Mehefin.

Ynni'r Llanw Tidal Energy

Q4 Brynle Williams: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's commitment to tidal energy in Wales? OAQ1605(FM)

The First Minister: Because of its geographical position, Wales has a high potential for being able to generate electricity from the tides. We have asked the Department of Trade and Industry to be involved in a new study—with which we would be willing to collaborate—into the feasibility of a Severn barrage, halfway between Wales and the west of England. That is a massive scheme, with massive environmental implications—it is no use hiding that—and it is not cheap electricity. However, we are also interested in other technologies that might be feasible from environmental, commercial and engineering perspectives.

Brynle Williams: Three years ago, the DTI's energy White Paper stated:

'It is clear that plans for a Severn barrage would raise strong environmental concerns and we doubt if it would be fruitful to pursue it at this stage.'

What has changed since then to warrant the Welsh Assembly Government's vocal support for this scheme? Do you believe that any benefits from it outweigh any environmental concerns?

The First Minister: There are two points on that. First, the price of oil has risen from \$25 a barrel to \$75 a barrel—that changes the economics of an awful lot of renewable energy. Secondly, on greenhouse gasses, we know that if nothing is done to reduce carbon dioxide emissions worldwide, the environment of areas such as the Severn estuary will change anyway. However, if the catastrophic predictions about a 20 ft sea-level rise, worldwide, come true, and if the Greenland Arctic ice-shelf melts and becomes sea water, instead of being locked in ice, there will be massive changes to the

C4 Brynle Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ynni'r llanw yng Nghymru? OAQ1605(FM)

Y Prif Weinidog: Oherwydd ei safle daearyddol, mae cryn botensial yng Nghymru i gynhyrchu trydan o ynni'r llanw. Yr ydym wedi gofyn i'r Adran Masnach a Diwydiant gymryd rhan mewn astudiaeth newydd—y byddem yn fodlon bod yn rhan ohoni—ynghylch y posibilrwydd o adeiladu morglawdd ar draws aber afon Hafren, hanner ffordd rhwng Cymru a gorllewin Lloegr. Mae hwnnw'n gynllun anferth, gyda goblygiadau amgylcheddol enfawr—ni ellir gwadu hynny—ac nid yw'n drydan rhad. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb mewn technolegau eraill hefyd a all fod yn ddichonol o safbwynt amgylcheddol, masnachol a pheirianyddol.

Brynle Williams: Dair blynedd yn ôl, dywedwyd ym Mhapur Gwyn yr Adran Masnach a Diwydiant ar ynni:

Mae'n amlwg y byddai morglawdd ar draws afon Hafren yn peri pryderon amgylcheddol sylweddol ac yr ydym yn amau a fyddai'n werth dilyn y trywydd hwnnw ar hyn o bryd.

Beth sydd wedi newid ers hynny i haeddu cefnogaeth lafar Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r cynllun hwn? A ydych yn credu bod unrhyw fuddion a fyddai'n deillio ohono'n fwy nag unrhyw bryderon amgylcheddol?

Y Prif Weinidog: Mae dau bwynt yn codi yma. Yn gyntaf, mae pris olew wedi codi o \$25 y gasgennaid i \$75 y gasgennaid—mae hynny'n newid economeg llawer iawn o ynni adnewyddadwy. Yn ail, o ran nwyon tŷ gwydr, gwyddom os na wneir rhywbeth i leihau gollyngiadau carbon deuocsid yn fyd-eang, y bydd amgylchedd manau fel aber afon Hafren yn newid beth bynnag. Fodd bynnag, os gwireddir y proffwydoliaethau dychrynlyd sy'n rhagweld y gallai lefel y môr godi 20 troedfedd, ac os bydd ysgafell iâ Arctig yr Ynys Las yn toddi ac yn troi'n ddŵr heli, yn hytrach na chael ei gloi yn yr

environment. Therefore, it may be incumbent on every country—including Wales, as part of the UK—to make its contribution to reducing carbon dioxide emissions to protect the environment, even though environmental legislation is meant to protect the environment and all species and habitats as they exist today, but which may not exist in 20, 30, 40 or 50 years' time if the dire predictions about global warming turn out to be true.

David Lloyd: Pa arweiniad strategol ydych yn ei roi i ddatblygu morlynnoedd llanw yn y mannau gorau i'w lleoli, fel bae Abertawe, a lleoedd tebyg?

Y Prif Weinidog: Er bod ffræe gydag Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd ynglŷn ag a yw'r system arbennig i ddal ac yna cynhyrchu trydan yn y modd a ddisgrifiwch ym mae Abertawe yn gwneud synnwyr—neu synnwyr masnachol a pheirianyddol—o ran egwyddor, yr ydym yn awyddus i fwrw ymlaen, nid dim ond â morglawdd ar draws môr Hafren, ond â sawl modd arall o ddal dŵr ac yna cynhyrchu trydan wrth i'r llanw fynd allan, ac yn y blaen. Felly, yr ydym yn edrych am gynllun sy'n galluogi cynhyrchu trydan yn y modd hwnnw.

John Griffiths: When you mention other methods, Rhodri, I am sure that you are aware that many environmentalists believe that tidal lagoons would be preferable in the Severn estuary to harness that tremendous rise and fall of the tide. They believe that they offer more potential for energy generation, while at the same time being more environmentally friendly.

The First Minister: It is not an either/or question; we are also anxious to consider possible tidal lagoon schemes. There is enormous potential here. I mentioned earlier that you will not always find yourself in agreement with every tidal lagoon project, and there is a big row going on involving a particular project in the Swansea bay area.

2.30 p.m.

It is simply a difference of view as to whether it is an engineering cul-de-sac, if you like—

iâ, yna gwelwn newidiadau enfawr i'r amgylchedd. Felly, gall fod yn ddyletswydd ar bob gwlad—gan gynnwys Cymru, fel rhan o'r DU—gyfrannu at ostwng gollyngiadau carbon deuocsid i amddiffyn yr amgylchedd, er bod deddfwriaeth amgylcheddol i fod i amddiffyn yr amgylchedd a phob rhywogaeth a chynefin sy'n bodoli heddiw, ond na fydd o bosibl yn bodoli ymhén 20, 30, 40 neu 50 mlynedd os bydd y proffwydoliaethau arswydus ynglŷn â chynhesu byd-eang yn cael eu gwireddu.

David Lloyd: What strategic lead are you giving to develop tidal lagoons in the best places where they can be situated, such as Swansea bay, and similar places?

The First Minister: Although there is a debate going on with the Environment Trust regarding whether the particular system to trap and then produce electricity in the way that you mention in Swansea bay makes sense—or commercial and engineering sense—as a principle, we are eager to continue, not just with a Severn barrage, but with many other means of trapping water and then creating electricity as the tide moves out, and so on. Therefore, we are looking for a scheme that allows electricity to be produced in that way.

John Griffiths: Pan fyddwch yn sôn am ddulliau eraill, Rhodri, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod llawer o amgylcheddwyr yn credu y byddai morlynnoedd llanw yn well yn aber afon Hafren i harneisio'r llanw anferth a geir yno. Maent yn credu y byddent yn cynnig mwy o botensial i gynhyrchu ynni, a'u bod ar yr un pryd yn fwy eco-gyfeillgar.

Y Prif Weinidog: Nid mater un ai/neu ydyw; yr ydym yn awyddus hefyd i ystyried cynlluniau morlynnoedd llanw posibl. Mae potensial enfawr yma. Soniais yn gynharach na fyddwch yn debygol bob amser o gytuno â phob prosiect morlyn llanw, ac mae ffræe fawr ar hyn o bryd ynghylch prosiect neilltuol yn ardal bae Abertawe.

Mater o wahaniaeth barn ydyw pa un a yw'n llwybr nad yw'n arwain i unman o safbwynt

the wrong road to follow—or whether there are far better tidal lagoon projects, such as the particular one in Swansea bay that the Wales Environment Trust has been promoting. That is a straight difference of opinion between engineers about what is the right way forward. We agree with the principle that the right way forward is to look for tidal lagoon projects. They are far easier than a giant barrage and if you could get a lot of the water trapped and electricity generated around the Severn, you could do it gradually rather than with the big bang that the Severn barrage would constitute. However, you may also be able to do it as well as the Severn barrage. Indeed, we may need to if these predictions about the melting of the Greenland Arctic ice sheet turn out to be true.

Mick Bates: It appears as though you support the construction of a Severn barrage, and we are told that this will be a private sector proposal and development. However, I suspect that a great deal of Government money will be involved in any proposed development; feasibility studies, impact assessment and legislation such as compulsory purchase orders will all be paid out of the public purse. What assessment have you made of how much the Severn barrage will cost the public purse?

The First Minister: I do not have any estimates of what it would cost the public purse. I will just rearrange the phrasing of your preamble. I do not support the Severn barrage; I support a feasibility study of the Severn barrage now that the UK Government is in the mood to do feasibility studies about what kind of energy future we need to play our part in resisting global warming and those kinds of environmental catastrophes to which I have already referred. Therefore, the UK Government should not ignore the Severn barrage; it should commit to a feasibility study of it, including the massive environmental implications. That is what we are talking about.

peirianyddol, os mynnwch—y llwybr anghywir i'w ddilyn—ynteu a oes prosiectau molynnoedd llanw llawer gwell, fel yr un neilltuol ym mae Abertawe y mae Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru wedi bod yn ei hyrwyddo. Gwahaniaeth barn syml yw hynny rhwng peirianwyr am y ffordd iawn ymlaen. Yr ydym yn cytuno â'r egwyddor mai'r ffordd iawn ymlaen yw chwilio am brosiectau molynnoedd llanw. Maent yn llawer haws na morglawdd enfawr a phe baech yn gallu sicrhau bod llawer o'r dŵr yn cael ei ddal a bod trydan yn cael ei gynhyrchu o amgylch afon Hafren, gallech wneud hynny'n raddol yn hytrach na chyda'r glec fawr a gâi ei chreu gan forglawdd afon Hafren. Fodd bynnag, efallai y byddai modd gwneud hynny yn ogystal â morglawdd afon Hafren. Yn wir, efallai y bydd angen inni wneud hynny os gwireddir y proffwydoliaethau hyn ynghylch llen iâ Arctig yr Ynys Las yn toddi.

Mick Bates: Mae'n ymddangos fel petaech yn cefnogi codi morglawdd afon Hafren, a dywedir wrthym mai cynnig a datblygiad gan y sector preifat fydd hwn. Fodd bynnag, yr wyf yn amau y bydd llawer iawn o arian y Llywodraeth ynghlwm wrth unrhyw ddatblygiad arfaethedig; allan o'r pwrs cyhoeddus y telir am astudiaethau dichonoldeb, asesiad effaith a deddfwriaeth megis gorchmynion prynu gorfodol. Pa asesiad yr ydych wedi ei wneud o faint y bydd morglawdd afon Hafren yn ei gostio i'r pwrs cyhoeddus?

Y Prif Weinidog: Nid oes gennyf ddim amcangyfrifon o'r hyn y byddai yn ei gostio i'r pwrs cyhoeddus. Hoffwn ad-drefnu geiriad eich rhagymadrodd. Nid wyf yn cefnogi morglawdd afon Hafren; yr wyf yn cefnogi astudiaeth ddichonoldeb o forglawdd afon Hafren gan fod Llywodraeth y DU bellach yn fodlon cynnal astudiaethau dichonoldeb ynghylch pa fath o ddyfodol o ran ynni y mae arnom ei angen er mwyn inni chwarae ein rhan wrth wrthsefyll cynhesu byd-eang a'r mathau hynny o drychinebau amgylcheddol yr wyf wedi cyfeirio atynt eisoes. Felly, ni ddylai Llywodraeth y DU anwybyddu morglawdd afon Hafren; dylai ymrwymo i gynnal astudiaeth ddichonoldeb arno, gan gynnwys y goblygiadau amgylcheddol enfawr. Am hynny yr ydym yn

sôn.

On the amount of public money, that is the same problem that the Government is facing over nuclear energy. In theory, generating electricity is a private sector activity. However, in order to get nuclear energy off the ground, you would have to arrange the market so that nuclear generators, even though they are private, are guaranteed a market, whether through the energy trading scheme, the carbon dioxide trading scheme, or the renewable energy commitment, by which the sellers of electricity must agree that they are buying 10 per cent from renewable sources by 2010, increasing to 20 per cent by 2020. That might have to change from renewable, including nuclear, sources. So, it is that guarantee. It is not really a money contribution; it is a rigging of the market, to put it at its worst contribution.

O ran faint o arian cyhoeddus sydd dan sylw, yr un broblem yw honno â'r un sy'n wynebu'r Llywodraeth o safbwynt ynni niwclear. O ran egwyddor, gweithgarwch y sector preifat yw cynhyrchu trydan. Fodd bynnag, er mwyn gyrru'n cwch i'r dŵr o ran ynni niwclear, byddai'n rhaid ichi drefnu'r farchnad fel bod gan gynhyrchwyr niwclear, er eu bod yn breifat, farchnad sydd wedi ei gwarantu, boed hynny drwy'r cynllun masnachu ynni, y cynllun masnachu carbon deuocsid, neu'r ymrwymiad o ran ynni adnewyddadwy, sy'n golygu bod yn rhaid i werthwyr trydan gytuno eu bod yn prynu 10 y cant o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010, gan gynyddu i 20 y cant erbyn 2020. Efallai y bydd yn rhaid i hynny newid o ffynonellau adnewyddadwy, gan gynnwys niwclear. Felly, dyna'r warant. Nid cyfraniad ar ffurf arian ydyw mewn gwirionedd; rigio'r farchnad a wneir, o roi'r olwg dduaf arno.

Caeau Chwarae Ysgolion School Playing Fields

Q5 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on the provision of school playing fields? OAQ1619(FM)

C5 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu caeau chwarae mewn ysgolion? OAQ1619(FM)

The First Minister: The Education (School Premises) Regulations 1999 require that minimum areas of 'team game playing fields' must be provided for schools with pupils who have attained the age of eight years. The minimum area requirements are calculated by reference to the age and number of pupils at each school.

Y Prif Weinidog: Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgolion) 1999 i 'gaeau chwarae gemau tîm' o arwynebedd lleiaf gael eu darparu ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion sydd wedi cyrraedd wyth oed. Cyfrifir y gofynion o ran yr arwynebedd lleiaf ar sail oed y disgyblion a nifer y disgyblion ym mhob ysgol.

Mark Isherwood: Your Assembly 2003 manifesto states that,

Mark Isherwood: Dywed eich maniffesto ar gyfer y Cynulliad yn 2003,

'Labour wants to see more people of all ages and abilities taking part in sport...We will...open up community use of school playing fields'.

Mae ar Lafur eisiau gweld rhagor o bobl o bob oedran a gallu yn cymryd rhan mewn chwaraeon...Byddwn yn sicrhau bod meysydd chwarae'r ysgolion ar gael i'w defnyddio gan y gymuned.

As the National Playing Fields Association states, school fields are under threat as hard-pressed schools and education authorities seek to turn their valuable land assets into cash, yet there is no statutory protection for playing fields in Wales. Why have no Labour

Fel y dywed Cymdeithas Genedlaethol y Caeau Chwarae, mae caeau ysgolion o dan fygythiad wrth i ysgolion ac awdurdodau addysg sydd o dan bwysau geisio troi eu hasedau tir gwerthfawr yn arian, ond nid oes gwarchodaeth statudol i gaeau chwarae yng

Assembly Members signed the statement of opinion tabled by John Marek, entitled, 'Protecting Playing Fields in Wales'? Are you going to tell me once again, as you do every time on this, that it is a matter for individual Members and that it has nothing to do with the fact that, by coincidence, they all belong to the same party?

The Presiding Officer: Order. The First Minister has no responsibility for what individual Assembly Members do and he need not answer that part of the supplementary.

The First Minister: The other parts of the question are genuinely interesting. There has been correspondence between the two Rhodris, namely myself and Rhodri Edwards of the NPFA Cymru. In the context of your oral Assembly question not reached on 9 May, I explained to him that NPFA appears to have misunderstood the situation and that it is wrong to claim that our target of all schools being fit for purpose by 2010 will not be met because of the disposal of playing fields. That is simply not based on the evidence. There is a genuine misunderstanding from NPFA Cymru and I have attempted to put the other Rhodri straight in my letter of 31 May.

Ann Jones: I was pleased to see the minimum areas for pupils aged eight and over, and it is important that school playing fields are seen as additional open spaces for communities. Therefore, the Bodnant Infants School playing field is under threat of development at the moment from Denbighshire County Council. Would the Government consider adopting minimum areas for schoolchildren under the age of eight, thereby safeguarding the Bodnant infants' playing field?

The First Minister: With the introduction of the foundation phase to cover the age group from three to seven years, what we have in mind—and I know that it is already proceeding, as I have seen it in action in my constituency—is making greater use of the outdoor environment in every respect, such

Nghymru. Pam nad oes dim Aelodau Cynulliad Llafur wedi llofnodi'r datganiad barn a gyflwynwyd gan John Marek, o dan y teitl, 'Amddiffyn Caeau Chwarae yng Nghymru'? A ydych yn mynd i ddweud wrthyf eto fyth, fel yr ydych yn gwneud bob tro ynghylch hyn, mai mater i Aelodau unigol ydyw ac nad oes a wnelo o gwbl â'r ffaith eu bod, drwy gyd-ddigwyddiad, i gyd yn perthyn i'r un blaid?

Y Llywydd: Trefn. Nid oes gan y Prif Weinidog gyfrifoldeb am yr hyn a wna Aelodau Cynulliad unigol ac nid oes angen iddo ateb y rhan honno o'r cwestiwn atodol.

Y Prif Weinidog: Mae rhannau eraill y cwestiwn yn wirioneddol ddiddorol. Bu gohebiaeth rhwng y ddau Rhodri, sef fi a Rhodri Edwards o NPFA Cymru. Yng nghyd-destun eich cwestiwn llafar yn y Cynulliad nas cyrhaeddwyd ar 9 Mai, esboniais wrtho ei bod yn ymddangos bod NPFA wedi camddeall y sefyllfa a'i bod yn anghywir honni na fyddwn yn cyrraedd ein targed y bydd pob ysgol yn addas i'w diben erbyn 2010 am fod caeau chwarae'n cael eu gwerthu. Nid yw hynny wedi cael ei seilio ar dystiolaeth. Mae camddealltwriaeth wirioneddol ar ran NPFA Cymru ac yr wyf wedi ceisio egluro'r sefyllfa fel y mae hi i'r Rhodri arall yn fy llythyr dyddiedig 31 Mai.

Ann Jones: Yr oeddwn yn falch o weld yr arwynebeddau lleiaf i ddisgyblion wyth oed a throsodd, ac mae'n bwysig bod caeau chwarae ysgolion yn cael eu gweld fel mannau agored ychwanegol ar gyfer cymunedau. Felly, mae bygythiad ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Ddinbych y bydd cae chwarae Ysgol Fabanod Bodnant yn cael ei ddatblygu. A wnâi'r Llywodraeth ystyried mabwysiadu arwynebeddau lleiaf ar gyfer plant ysgol o dan wyth oed, gan ddiogelu cae chwarae babanod Bodnant drwy wneud hynny?

Y Prif Weinidog: Yn sgîl cyflwyno'r cyfnod sylfaen i gwmpasu'r grŵp oedran o dair i saith oed, yr hyn sydd gennym mewn golwg—a gwn ei fod eisoes yn mynd rhagddo, gan fy mod wedi ei weld ar waith yn fy etholaeth i—yw gwneud mwy fyth o ddefnydd o'r amgylchedd awyr agored ym

as by organising lessons from Forestry Commission volunteers under the shade of beautiful chestnut trees in the playing fields. That is just as important for that age group as having a football or hockey field, or a field for any other team games or sport. That is how we are proposing to deal with children under the age of eight. Children over the age of eight are more into games like rounders, baseball, cricket and hockey—even football and rugby now and again.

Eleanor Burnham: You refer to evidence, First Minister, but is not the problem that there is a lack of evidence? My understanding is that the Department for Culture, Media and Sport in England has full data on the number of playing fields in England, but that that is not so in Wales. Do you not agree that it is about time that the Assembly Government acquires some data, so that we know what we are talking about, know where all these facilities are, make them more appropriate to local communities, and, if they are being sold off, do something proper about it?

The First Minister: That sort of the-grass-is-greener-on-the-other-side-of-Offa's-Dyke question is one that we frequently get from the Liberal Democrats, and we have already had one from Jenny Randerson. The point that I made about lack of evidence was about a lack of evidence for the allegation being made by NPFA Cymru. It was its allegation that, in some way, we were encouraging schools to dispose of allegedly surplus playing-field areas that had no supporting evidence at all. We are certainly not doing that.

Carl Sargeant: If the Assembly recognises the importance of play in a child's development, will you, like me, support the people of Hope in my constituency of Alyn and Deeside, where the Willow Park play facility is currently under threat from planning permission applications. Will you support the residents, as I do?

The First Minister: It depends on the planning permission application and whether it is for a school playing field. That is not

mhob ffordd, megis drwy drefnu gwersi gan wirfoddolwyr y Comisiwn Coedwigaeth dan gysgod castanwydd hardd yn y caeau chwarae. Mae hynny yr un mor bwysig i'r grŵp oedran hwnnw â bod ganddynt gae pêl-droed neu hoci, neu gae ar gyfer unrhyw gemau neu gamp tîm arall. Dyna sut yr ydym yn bwriadu delio â phlant dan wyth oed. Mae gan blant dros wyth oed fwy o ddi-ddordeb mewn gemau fel rownderi, pêl-fas, criced a hoci—hyd yn oed pêl-droed neu rygbi yn awr ac yn y man.

Eleanor Burnham: Yr ydych yn cyfeirio at dystiolaeth, Brif Weinidog, ond onid y broblem yw bod diffyg dystiolaeth? Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Lloegr ddata llawn ynghylch nifer y caeau chwarae yn Lloegr, ond nid yw hynny'n wir yng Nghymru. Onid ydych yn cytuno ei bod yn hen bryd i Lywodraeth y Cynulliad gael rhywfaint o ddata, fel ein bod yn gwybod am beth yr ydym yn sôn, yn gwybod ym mhle y mae'r holl gyfleusterau hyn, yn eu gwneud yn fwy addas ar gyfer cymunedau lleol, ac, os ydynt yn cael eu gwerthu, ein bod yn gwneud rhywbeth priodol ynghylch hynny?

Y Prif Weinidog: Mae'r math hwnnw o gwestiwn mae-popeth-yn-well-yr-ochr-arall-i-Glawdd-Offa yn un a gawn yn aml gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ac yr ydym eisoes wedi cael un gan Jenny Randerson. Y pwynt a wneuthum ynghylch diffyg dystiolaeth oedd bod diffyg dystiolaeth am yr honiad sy'n cael ei wneud gan NPFA Cymru. Ei honiad oedd ein bod, mewn rhyw ffordd, yn annog ysgolion i waredu caeau chwarae yr honnid nad oes eu hangen heb dystiolaeth yn gefn i hynny o gwbl. Yn sicr nid ydym yn gwneud hynny.

Carl Sargeant: Os yw'r Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd chwarae yn natblygiad plentyn, a wnewch chi, fel fi, gefnogi pobl yr Hob yn fy etholaeth yn Alun a Glannau Dyfrdwy, lle y mae cyfleuster chwarae Willow Park dan fygythiad ar hyn o bryd gan geisiadau cynllunio. A wnewch gefnogi'r trigolion, fel yr wyf fi'n gwneud?

Y Prif Weinidog: Mae'n dibynnu ar y cais cynllunio ac a yw'n gais am gae chwarae ysgol. Nid yw hynny'n glir. Os yw i gael ei

clear. If it is to be referred to the Assembly, I will obviously have to steer clear of giving views in advance, as I tend to do. I know Hope, as I have been there, but I am not aware of the particular field that you are talking about or the nature of the planning permission being applied for. However, for the sake of the healthy future of the nation, we need to get schools open in the evenings and during holidays for them to be fully used for football and other active, physical recreational purposes. Schools should be community resources, not just academic educational resources. We need to ensure that there is room for plenty of walking, team games, mountain biking or whichever sport catches people's imaginations. We will reap major benefits in reduced heart disease from that increase in physical exercise.

gyfeirio at y Cynulliad, mae'n amlwg y bydd yn rhaid imi osgoi mynegi barn ymlaen llaw, fel yr wyf yn tueddu i wneud. Yr wyf yn gyfarwdd â'r Hob, gan fy mod wedi bod yno, ond nid wyf yn ymwybodol o'r cae neilltuol hwn yr ydych yn sôn amdano na natur y caniatâd cynllunio y gwneir cais amdano. Fodd bynnag, er mwyn dyfodol iach y genedl, mae angen inni gael ysgolion i agor fin nos ac yn ystod y gwyliau er mwyn iddynt gael eu defnyddio'n llawn ar gyfer pêl-droed a dibenion eraill o ran adloniant corfforol, egniol. Dylai ysgolion fod yn adnoddau cymunedol, nid adnoddau addysgol academiaidd yn unig. Mae angen inni sicrhau bod lle i ddigon o gerdded, gemau tîm, beicio mynydd neu pa gamp bynnag sy'n cyffroi dychymyg pobl. Byddwn yn elwa'n fawr drwy gael llai o glefyd y galon yn sgîl y cynnydd hwnnw mewn ymarfer corff.

Gofal Iechyd (Canolbarth a Gorllewin Cymru) Healthcare (Mid and West Wales)

Q6 Lisa Francis: Will the First Minister make a statement on the 'Designed to Deliver' proposals for healthcare in Mid and West Wales? OAQ1612(FM)

C6 Lisa Francis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynigion 'Cynllunio i Gyflenwi' ar gyfer gofal iechyd yn y canolbarth a'r gorllewin? OAQ1612(FM)

The First Minister: It is the process through which NHS Wales intends to implement our blueprint for health, as set out in 'Designed for Life'. The consultation continues on the proposals, which have been drawn up by people working in the local health services in the three counties who know the local area really well.

Y Prif Weinidog: Drwy'r broses hon y mae GIG Cymru yn bwriadu rhoi ein glasbrint ar gyfer iechyd, fel y'i nodwyd yn 'Cynllun Oes', ar waith. Mae'r ymgynghori ynghylch y cynigion yn parhau. Fe'u lluniwyd gan bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd lleol yn y tair sir, sy'n adnabod yr ardal leol yn wirioneddol dda.

Lisa Francis: Thank you for that. Given that these proposals were drawn up by people who work in the health service, you will know that they set out the possibility of building a new superhospital somewhere near Carmarthen. That means that hospitals such as Bronglais and Withybush will lose certain facilities, like consultant obstetrics and 24-hour surgery. That means a greater dependence on road ambulance services, and we are looking at possible journeys of up to 90 minutes if those proposals are accepted. The report from the newly resigned chief executive of the Welsh Ambulance Services NHS Trust, Roger Thayne, which we have heard all about today, says that the ambulance service needs renewed

Lisa Francis: Diolch ichi am hynny. O ystyried bod y cynigion hyn wedi cael eu llunio gan bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd, byddwch yn gwybod eu bod wedi nodi'r posibilrwydd o godi uwchysbyty newydd yn rhywle yng nghyffiniau Caerfyrddin. Mae hynny'n golygu y bydd ysbytai fel Bronglais a Llwynhelig yn colli rhai cyfleusterau, fel obstetreg ymgynghorol a llawfeddygaeth 24 awr. Mae hynny'n golygu mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau ambiwlans ar y ffyrdd, ac yr ydym yn edrych ar siwrneiau posibl o hyd at 90 munud os caiff y cynigion hynny eu derbyn. Dywed adroddiad prif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru sydd newydd ymddiswyddo, Roger Thayne, yr

infrastructure, it has inadequate IT facilities and poor vehicles, and it recommends an investment of £35 million to modernise the service to make it safe. In light of that, do you not think that there is a clear necessity for a most urgent review into ambulance services, and do you not think that the proposal of building this superhospital near Carmarthen is an ill-researched plan?

The First Minister: It may be that your research is also a bit ill-researched. I have never considered the Whitland area as being near Carmarthen, which you said twice. I consider it to be about 15 miles west of Carmarthen, roughly halfway to Haverfordwest, which I thought was the basic idea. Perhaps you should go and have another look at your maps.

2.40 p.m.

On the point that you made about the interest that has been excited by this matter, I will say that it is not the only option that has been proffered. Furthermore, we have encouraged the extension of the consultation exercise for a further month so that everyone can participate. It was due to conclude at the end of June, but we have said that the postbox will remain open until the end of July. If the local populace—those who are not in the know, but who have started to get really involved in the process—wants professional assistance in drawing up alternatives, it will be provided. We want to ensure that all possibilities are properly researched, whatever the set of proposals brought before the Minister. If the community health council disagrees with a proposal, it will have to come to the Minister on appeal; if the community health council agrees, then it will not come to the Minister on appeal. However, we want to know that the local population is being carried with the health community—the trusts, the local health boards and the community health councils—with regard to the proposals when they eventually reach a conclusion.

ydym wedi clywed llawer amdano heddiw, fod angen seilwaith o'r newydd ar y gwasanaeth ambiwlans, fod ei gyfleusterau TG yn annigonol a'i gerbydau'n wael, ac mae'n argymhell buddsoddiad o £35 miliwn i foderneiddio'r gwasanaeth i'w wneud yn ddiogel. Yn wyneb hynny, onid ydych yn meddwl bod angen clir i gynnal adolygiad ar fyrder o'r gwasanaethau ambiwlans, ac onid ydych yn meddwl mai cynllun nad ymchwiliwyd yn drylwyr iddo yw'r cynnig i godi'r uwch-ysbyty hwn gerllaw Caerfyrddin?

Y Prif Weinidog: Efallai nad ymchwiliwyd yn drylwyr iawn wrth wneud eich ymchwil chithau ychwaith. Nid wyf erioed wedi tybio bod ardal Hendy-gwyn yn agos at Gaerfyrddin, rhywbeth a ddywedasocho ddwywaith. Yr wyf yn barnu ei fod tua 15 milltir i'r gorllewin o Gaerfyrddin, hanner ffordd yn fras i Hwlfordd, sef yr hyn sydd dan sylw yn y bôn, fe dybiwn. Efallai y dylech fynd i edrych eto ar eich mapiau.

O ran y pwynt a wnaethoch am y diddordeb y mae'r mater hwn wedi ei ennyn, dywedaf nad hyn yw'r unig ddewis sydd wedi cael ei gynnig. Ar ben hynny, yr ydym wedi annog ymestyn yr ymgynghoriad am fis arall er mwyn i bawb allu cymryd rhan. Yr oedd i fod i ddod i ben ddiwedd mis Mehefin, ond yr ydym wedi dweud y bydd y blwch llythyrau'n dal ar agor tan ddiwedd mis Gorffennaf. Os yw'r werin leol—y rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r sefyllfa, ond sydd wedi dechrau ymwneud o ddifrif â'r broses—am gael cymorth proffesiynol wrth lunio cynigion amgen, caiff hynny ei ddarparu. Yr ydym am sicrhau yr ymchwilir yn iawn i bob posibilrwydd, pa set bynnag o gynigion a gyflwynir i'r Gweinidog. Os yw'r cyngor iechyd cymuned yn anghytuno â chynnig, bydd yn rhaid iddo ddod gerbron y Gweinidog ar apêl; os yw'r cyngor iechyd cymuned yn cytuno, yna ni ddaw gerbron y Gweinidog ar apêl. Fodd bynnag, yr ydym am wybod bod y gymuned iechyd—yr ymddiriedolaethau, y byrddau iechyd lleol a'r cynghorau iechyd cymuned—yn cael cefnogaeth gan y boblogaeth leol o ran y cynigion pan ddônt i benderfyniad yn y pen draw.

Helen Mary Jones: I am somewhat reassured by some of the comments that you have just made. I am sure that you will be aware that the public across Mid and West Wales are concerned about the implications of these proposals. May I push you a little further than you have been prepared to go so far, and ask you to give the people of Mid and West Wales, such as the very concerned people of Llanelli who held a big public meeting just a week ago, an assurance that your Government will not impose any one of those models that are on offer at the moment if there is not clear public support for it? It is a simple question: will you give that assurance or not?

The First Minister: Let me put it in my own words, if you do not mind, Helen Mary. The legal position is clearly set out: the community health council will either agree with the propositions when they are finalised or not. You will remember that there was a huge public row in Tenby, but, in the end, the community health council agreed to the proposition, so it has gone ahead and it was never brought to the Minister. There was local agreement with the community health council. If the council disagrees, the Minister, Brian Gibbons, has an appeal function. That is why he has to hold himself back in case he has to exercise his duties as the appellate body when the community health council disagrees. We cannot say what level of public objection community health councils would have to take note of, because they are the bodies that are meant to represent the potential objectors to proposals made by the trusts and boards. That is really the function of the CHCs, and it is not my function. If the community health councils disagree, they can object and the matter will then come to Brian on appeal.

Helen Mary Jones: Yr wyf wedi fy nghalonogi rywfaint gan rai o'r sylwadau yr ydych newydd eu gwneud. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod y cyhoedd ar draws y canolbarth a'r gorllewin yn bryderus am oblygiadau'r cynigion hyn. A gaf eich gwthio fymryn ymhellach nag yr ydych wedi bod yn barod i fynd hyd yma, a gofyn ichi roi i bobl y canolbarth a'r gorllewin, megis pobl hynod o bryderus Llanelli a gynhaliodd gyfarfod cyhoeddus mawr wythnos yn ôl, sicrwydd na fydd eich Llywodraeth yn gorfodi dim un o'r modelau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd os nad oes cefnogaeth gyhoeddus glir iddo? Mae'n gwestiwn syml: a rowch y sicrwydd hwnnw ai peidio?

Y Prif Weinidog: Gadewch imi ei roi yn fy ngeiriau fy hyn, os nad oes ots gennyh, Helen Mary. Mae'r sefyllfa gyfreithiol wedi ei nodi'n glir: bydd y cyngor iechyd cymuned un ai'n cytuno â'r cynigion pan fyddant ar eu gwedd derfynol neu beidio. Fe gofiwch fod cweryl cyhoeddus enfawr wedi digwydd yn Ninbych-y-pysgod, ond, yn y pen draw, cytunodd y cyngor iechyd cymuned â'r cynnig, felly mae wedi mynd rhagddo ac ni ddaeth erioed gerbron y Gweinidog. Yr oeddid yn cytuno â'r cyngor iechyd cymuned yn lleol. Os yw'r cyngor yn anghytuno, mae gan y Gweinidog, Brian Gibbons, swyddogaeth apêl. Dyna pam y mae'n rhaid iddo ddal ei hun yn ôl rhag ofn y bydd yn rhaid iddo arfer ei ddyletswydd fel y corff apeliadol pan fydd y cyngor iechyd cymuned yn anghytuno. Ni allwn ddweud pa lefel o wrthwynebiad cyhoeddus y byddai'n rhaid i'r cynghorau iechyd cymuned gymryd sylw ohoni, oherwydd hwy yw'r cyrff sydd i fod i gynrychioli'r gwrthwynebwyr posibl i gynigion a wneir gan yr ymddiriedolaethau a'r byrddau. Swyddogaeth y CICau yw hynny mewn gwirionedd, nid fy swyddogaeth i. Os yw'r cynghorau iechyd cymuned yn anghytuno, gallant wrthwynebu a bydd y mater yn dod gerbron Brian wedyn ar apêl.

Gwasanaethau Cyhoeddus (Ceredigion) Public Services (Ceredigion)

C7 Elin Jones: A wnaiff y Prif Weinidog nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Ngheredigion?

Q7 Elin Jones: Will the First Minister set out the Welsh Assembly Government's priorities for the delivery of public services in Ceredigion? OAQ1595(FM)

OAQ1595(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi gosod ein blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Ngheredigion yn 'Creu'r Cysylltiadau'. Gallwch weld esiampl o'r camau yr ydym wedi eu cymryd eisoes wrth ystyried deintyddiaeth y GIG yng Ngheredigion. Ym mis Rhagfyr diwethaf, dim ond tua chwarter poblogaeth Ceredigion oedd wedi cofrestru gyda deintydd y GIG ond, heddiw, mae bron dwy ran o dair, sef 64.5 y cant, wedi cofrestru. Dyna gam ymlaen yr wyf yn credu y bydd pawb yn ei groesawu.

Elin Jones: Byddwch yn gwybod mai Ysbyty Bronglais yw'r unig ysbyty cyffredinol llawn yn y gorllewin rhwng yr M4 a'r A55. Mae eich Llywodraeth yn dweud bod angen poblogaeth o 300,000 i gynnal ysbyty cyffredinol llawn ac nad yw Bronglais yn gwasanaethu mwy na 150,000 o bobl. A ydych yn credu ei fod yn iawn y bydd 150,000 o bobl Cymru sy'n byw yng Ngheredigion a'r canolbarth yn wynebu siwrnai o dair awr i'w trosglwyddo o Ysbyty Bronglais i Ysbyty Glangwili? Mae hynny'n golygu siwrnai o dair awr i gyrraedd gwasanaethau llawn mamolaeth, pediatreg, a theatr nos. Mae meddygon yn yr ardal honno eisoes wedi dweud bod tair awr o amser trosglwyddo yn beryglus.

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr ai nynti sydd wedi gosod y ffin o 300,000 fel y lleiafswm poblogaeth sydd ei angen ar gyfer cynnal ysbyty cyffredinol confensiynol. Nid wyf yn dweud nad yw'n ystyried pellter o'r ysbytai eraill o gwbl. Nid wyf yn siŵr a fyddai Huw Lewis yn derbyn bod Merthyr ar yr M4. Yr hyn sy'n bwysig yw'r pellter rhwng ysbytai a sut y gallwch gyflawni'r swyddogaeth o hyfforddi ymgynghorwyr, neu'r meddygon a fydd yn ffurfio'r genhedlaeth nesaf o ymgynghorwyr, mewn ysbytai lle nad yw'r cymysgedd achosion yn ddigon cyson i chi gael yr hyfforddiant. Er hynny, mae mater y pellter o'r ysbyty nesaf yn parhau. Dyna'r ffactorau, yn enwedig pan fydddech yn siarad am ddaearyddiaeth cefn gwlad, fel yn achos Bronglais.

Nick Bourne: The First Minister talked about the legal position, of which we are all

The First Minister: We have set out our priorities for public services in Ceredigion in 'Making the Connections'. You can see an illustration of the steps that we have already taken if you consider NHS dentistry in Ceredigion. Last December, only around a quarter of Ceredigion's population was registered with an NHS dentist; today, almost two thirds, or 64.5 per cent, are registered. That is a step forward that I think that all would welcome.

Elin Jones: You will know that Bronglais Hospital is the only full general hospital in the west between the M4 and the A55. Your Government says that a population of 300,000 is needed to support a full general hospital and that Bronglais does not serve more than 150,000 people. Do you think that it is right that 150,000 of the people of Wales who live in Ceredigion and mid Wales will have to face a three-hour journey to transfer them between Bronglais Hospital and Glangwili Hospital? That means a three-hour journey to access full maternity and paediatric services as well as night-time surgery. Doctors in that area have already said that a three-hour transfer time is dangerous.

The First Minister: I am not sure whether it was us who set that limit of 300,000 as the minimum population required to sustain a conventional general hospital. I am not saying that it does not take into account the distance from other hospitals. I am not sure whether Huw Lewis would accept that Merthyr is on the M4. What is important is the distance between hospitals and how you can achieve the function of training consultants, or the doctors who will form the next generation of consultants, in hospitals where the case mix is not consistent enough for you to have that training. However, there is the matter of the distance from the next hospital. Those are the factors, particularly when you are talking about rural geography, as in the case of Bronglais.

Nick Bourne: Soniodd y Prif Weinidog am y sefyllfa gyfreithiol, yr ydym oll yn

aware. However, is he aware of the strength of opinion throughout west Wales against the proposals in 'Designed to Deliver' as they affect Bronglais and Wthybush in particular? Coming back to the question that he failed to answer earlier, will he give an assurance that, unless there is clear support from the people of west Wales, who are angry about the proposals in 'Designed to Deliver'—because they are not designed to deliver; they are designed to deny services to the people of west Wales—he will ensure that his Government will turn down the proposals in this document?

The First Minister: You are now assuming that the community health council will object because of that strength of opinion. It is for the community health council to decide: that is why we have community health councils. They were abolished in England. We kept them in Wales, and we kept their legal position as the body that can object and therefore trigger the appellate function of the Minister. I referred earlier to the Tenby case, which was pretty much the same, only on a smaller scale. We were just talking about south Pembrokeshire there, and we were only talking about a 'cottage hospital', but the feelings were strong. However, the tide turned, and the CHC did not, in the end, object, so the Minister did not have a function. You are now talking about something across three counties, and that is a much bigger issue. We are aware of the huge attendance at the public meetings, but it is ultimately up to the CHC to discharge its proper function. That is the only way that the system can work. If it objects, then the matter comes before the Minister. If the CHCs agree, we do not have a role, to be honest with you, in either the upgrading or downgrading of individual hospitals or the establishing of new hospitals of the kind that Lisa Francis was talking about. That is the way that the system works, if the local community, including the CHCs, can reach an agreement. It is the role of the CHCs to measure what the public is looking for and whether the public is able to go along with the proposal. I do not think that you can go ahead if you do not have the public with you. Sometimes, however, the public mood can change, as happened in the case of Tenby.

ymwybodol ohoni. Fodd bynnag, a yw'n ymwybodol o gryfder y farn ledled y gorllewin yn erbyn y cynigion yn 'Designed to Deliver' fel y maent yn effeithio ar ysbytai Bronglais a Llwynhelyg yn benodol? Gan ddod yn ôl at y cwestiwn y methodd â'i ateb yn gynharach, a wnaiff roi sicrwydd, os na cheir cefnogaeth bendant gan bobl y gorllewin, sydd yn ddiog ynghylch y cynigion yn 'Designed to Deliver'—am na fyddant yn mynd â'r maen i'r wal; eu hamcan yw amddifadu pobl y gorllewin o wasanaethau—y bydd yn sicrhau bod ei Lywodraeth yn gwrthod y cynigion yn y ddogfen hon?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn cymryd yn awr y bydd y cyngor iechyd cymuned yn gwrthwynebu oherwydd cryfder y farn honno. Lle'r cyngor iechyd cymuned yw penderfynu: dyna pam y mae gennym gynghorau iechyd cymuned. Fe'u diddymwyd yn Lloegr. Fe'u cadwasom yng Nghymru, a chadw eu statws cyfreithiol fel y corff a all wrthwynebu ac felly sbarduno swyddogaeth apeliadol y Gweinidog. Cyfeiriais yn gynharach at yr achos yn Ninbych-y-pysgod, a oedd yn eithaf tebyg, er ei fod ar raddfa lai. Dim ond de sir Benfro a oedd dan sylw yn yr achos hwnnw, a dim ond 'ysbyty bwthyn', ond yr oedd y teimladau'n gryf. Er hynny, cafwyd newid meddwl ac, yn y diwedd, ni wrthwynebodd y cyngor iechyd cymuned, felly nid oedd swyddogaeth i'r Gweinidog. Yr ydych yn sôn yn awr am rywbeth sydd yn cwmpasu tair sir, ac mae hynny'n fater mwy o lawer. Yr ydym yn ymwybodol o'r niferoedd mawr sydd yn dod i'r cyfarfodydd cyhoeddus, ond lle'r cyngor iechyd cymuned yn y diwedd yw cyflawni ei briod swyddogaeth. Dim ond felly y gall y system weithio. Os bydd yn gwrthwynebu, daw'r mater gerbron y Gweinidog. Os bydd y cynghorau iechyd cymuned yn cytuno, ni fydd rôl i ni, a dweud y gwir, o ran uwchraddio neu israddio ysbytai penodol neu sefydlu ysbytai newydd o'r math yr oedd Lisa Francis yn sôn amdano. Felly y mae'r system yn gweithio, os gall y gymuned leol, gan gynnwys y cynghorau iechyd cymuned, ddod i gytundeb. Rôl y cynghorau iechyd cymuned yw canfod yr hyn y mae'r cyhoedd am ei gael ac a yw'r cyhoedd yn gallu cydfynd â'r cynnig. Nid wyf yn credu y gallwch fwrw ati os nad yw'r cyhoedd o'ch plaid. Weithiau, fodd bynnag, gall agwedd y

cyhoedd newid, fel y gwnaeth yn achos Dinbych-y-pysgod.

Tamsin Dunwoody: Do you agree that it is interesting that the Tories and Plaid Cymru have expressed an interest in Withybush hospital, which is in my constituency? It was extremely helpful that over 2,500 people attended the public consultation meetings held by the CHC and the project board. Not one of the opposition members here today was present at any of those meetings. However, Christine Gwyther and I were, and we spoke at every single one. First Minister, would you agree that the CHC is taking exactly the right action by calling together a stakeholder group to discuss progress on 'Designed to Deliver' and the way in which we carry it forward? However, that cannot happen until the consultation period has finished.

The First Minister: You are absolutely right, and you have a role to discharge as the constituency AM, as does Christine and others who have expressed a view today. It is one of the biggest issues to hit west Wales in a long time; there is no question about that. You rarely hear of public meetings being attended in the numbers that we are talking about in this case: over 2,500, and I heard of 1,100 attending at one meeting. There is no doubt about that. However, it is for the CHC and the health community, once they complete their consultation after the next seven weeks, to consider the right way forward and whether they think they can carry the public with them, or not. We know of Tenby as a small example where there was a late change in the public mood. That may not happen on this occasion; I cannot predict that. What we have done is to ensure that people have an extra month to participate in the consultation exercise, and we have ensured that non-professional people who take a strong interest in this will get the professional support that they need to work up their alternative proposals.

Tamsin Dunwoody: A ydych yn cytuno ei bod yn ddiddorol bod y Torïaid a Phlaid Cymru wedi mynegi diddordeb yn ysbyty Llwynhelyg, sydd yn fy etholaeth i? Bu o gymorth mawr bod mwy na 2,500 o bobl yn bresennol yn y cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd gan y cyngor iechyd cymuned a bwrdd y prosiect. Ni fu'r un o aelodau'r gwrthbleidiau sydd yma heddiw'n bresennol yn yr un o'r cyfarfodydd hynny. Fodd bynnag, bu Christine Gwyther a minnau yno, a siaradasom ym mhob un o'r cyfarfodydd. Brif Weinidog, a gytunech fod y cyngor iechyd cymuned yn gweithredu'n union fel y dylai wrth gynnull grŵp o randdeiliaid i drafod y cynnydd o ran 'Designed to Deliver' a'r modd y gallwn fwrw ymlaen â hynny? Fodd bynnag, ni all hynny ddigwydd tan ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn llygad eich lle, ac mae gennych rôl i'w chyflawni fel AC yr etholaeth, yn yr un modd â Christine ac eraill sydd wedi mynegi barn heddiw. Mae hyn yn un o'r materion pwysicaf sydd wedi codi yn y gorllewin ers tro byd; nid oes dwywaith am hynny. Anaml y clywch am gynifer yn dod i gyfarfodydd cyhoeddus ag a welir yn yr achos hwn: dros 2,500, a chlywais fod 1,100 wedi dod i un cyfarfod. Nid oes dwywaith am hynny. Fodd bynnag, lle'r cyngor iechyd cymuned a'r rhai sydd yn gweithio ym maes iechyd, wedi iddynt orffen eu hymgynghoriad ymhen saith wythnos, yw ystyried i ba gyfeiriad y dylid mynd ac a ydynt yn credu y gallant sicrhau cefnogaeth y cyhoedd ai peidio. Gwyddom am ysbyty Dinbych-y-pysgod fel enghraifft fach o achos lle'r oedd y cyhoedd wedi newid ei feddwl yn hwyr yn y dydd. Efallai na fydd hynny'n digwydd y tro hwn; ni allaf broffwydo hynny. Yr hyn a wnaethom oedd sicrhau bod mis ychwanegol gan bobl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ac yr ydym wedi sicrhau y bydd rhai nad ydynt yn weithwyr proffesiynol sydd yn ymddiddori'n fawr yn hyn yn cael y cymorth proffesiynol y mae arnynt ei angen i baratoi cynigion gwahanol.

Hybu Iechyd yn y Gweithle The Promotion of Health in the Workplace

Q8 Janice Gregory: Will the First Minister make a statement on the promotion of health in the workplace? OAQ1616(FM)

The First Minister: While occupational health is not a devolved function, corporate health matters are very much part of health improvement, and is devolved. It is encouraging to be able to quote the Health and Safety Commissioner, Margaret Burns, who recently said that, while Scotland had long led the way in the UK in workplace health and wellbeing schemes, Wales has now leapfrogged to the front.

C8 Janice Gregory: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hybu iechyd yn y gweithle? OAQ1616(FM)

Y Prif Weinidog: Er nad yw iechyd galwedigaethol yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli, mae materion sydd yn ymwneud ag iechyd corfforaethol yn agwedd bwysig iawn ar wella iechyd, ac mae hynny wedi'i ddatganoli. Calonogol yw gallu dyfynnu geiriau'r Comisiynydd Iechyd a Diogelwch, Margaret Burns, a ddywedodd yn ddiweddar, er bod yr Alban wedi arwain y ffordd ers amser maith yn y DU mewn cynlluniau iechyd a lles yn y gweithle, fod Cymru wedi mynd ar y blaen erbyn hyn.

2.50 p.m.

Janice Gregory: Thank you, First Minister; that is encouraging. However, a recent survey by the Samaritans stated that almost four in 10 workers in Wales call in sick because they feel stressed and unable to cope with work. This has major consequences for the health of the nation and also has an impact on productivity. Research by the Shaw Trust has concluded that stress and other common mental health problems cost UK businesses £9 billion a year in lost time. Given these statistics, do you agree that government and employers need to do more to tackle the causes of stress, for example, through the promotion of a better work-life balance? Do you also agree that there needs to be more workplace education and training on how to spot the signs of stress?

The First Minister: I agree, but not in terms of all stress. I think that a modicum of stress is good for you, but an excess of stress is very bad for you and the management of getting the right amount of stress into your life is part of what can make any successful career last a little longer than it otherwise might. If all stress was bad for you, no politician would last beyond the age of 35.

Janice Gregory: Diolch i chi, Brif Weinidog; mae hynny'n galonogol. Fodd bynnag, mewn arolwg diweddar gan y Samariaid, nodwyd bod bron pedwar o bob 10 o weithwyr yng Nghymru'n aros o'u gwaith oherwydd salwch am eu bod yn teimlo eu bod dan straen a hwythau'n methu ag ymdopi â'u gwaith. Mae hynny'n cael effaith fawr ar iechyd y genedl ac mae'n effeithio ar gynhyrchiant hefyd. Mewn ymchwil gan Ymddiriedolaeth Shaw, daethpwyd i'r casgliad bod straen a phroblemau iechyd meddwl cyffredin eraill yn costio £9 biliwn y flwyddyn i fusnesau'r DU oherwydd yr amser a gollir. O ystyried yr ystadegau hynny, a ydych yn cytuno bod angen i lywodraeth a chyflogwyr wneud mwy i fynd i'r afael ag achosion straen, er enghraifft, drwy hyrwyddo gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith? A ydych hefyd yn cytuno bod angen mwy o addysg a hyfforddiant yn y gweithle ynghylch sut i sylwi ar arwyddion straen?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno, ond nid o ran pob math o straen. Yr wyf yn credu bod ychydig o straen yn lles ichi, ond mae gormod o straen yn gwneud drwg mawr ichi ac, os llwyddwch i gael y graddau priodol o straen yn eich bywyd, mae hynny'n un modd i beri bod gyrfa lwyddiannus yn gallu para ychydig yn hwy nag y byddai'n gwneud fel arall. Pe byddai pob math o straen yn gwneud

The important point is that some employers in Wales—Admiral Insurance is the example that springs to mind—have said that getting the right work-life balance is very important to successfully building up the company. That particular company now employs 2,000 people after just 13 years of existence and makes a big issue of work-life balance. Many other employers regard it as sissy, namby-pamby nonsense, which is regrettable.

Jocelyn Davies: Your own survey of NHS staff, published last March, found that 39 per cent of the staff suffered stress at work. Many were faced with the prospect of physical violence, and 40 per cent were thinking of leaving. Do you agree that urgent steps must be taken to improve the safety of the workplace for NHS staff, otherwise trusts may run the risk of facing litigation in the future? What is the Assembly Government doing to relieve the stress that will lead to health professionals leaving the service?

The First Minister: All trusts and local health boards have targets set for them in 'Designed for Life' to achieve a gold or platinum level corporate health standard by 2008. However, that does not answer the question in the way that you originally put it, which is, in a way, more important. It is not about those cold words as set out in policy jargon; it is really about the nasty incidents that happen when drunken people abuse accident and emergency staff on a Friday or Saturday night in almost any hospital that you could name. It is also about drug addicts sometimes demanding a supply of something on a GP's premises. All of that is completely unacceptable, and it must be driven out of the system.

Laura Anne Jones: It is important that we promote a health at work agenda. An increase in fitness and exercise would not only benefit

drwg ichi, ni fyddai'r un gwleidydd yn dal ati ar ôl iddo gyrraedd 35 oed. Y pwynt pwysig yw bod rhai cyflogwyr yng Nghymru—Admiral Insurance yw'r enghraifft yr wyf yn meddwl amdani'n syth—wedi dweud ei bod yn bwysig iawn sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng bywyd a gwaith er mwyn datblygu'r cwmni'n llwyddiannus. Mae'r cwmni hwnnw bellach yn cyflogi 2,000 o bobl ar ôl bod mewn bodolaeth am ddim ond 13 blynedd ac mae'n rhoi pwys mawr ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae llawer o gyflogwyr eraill yn credu mai nonsens babiliaidd ydyw, ac mae hynny'n destun gofid.

Jocelyn Davies: Yn eich arolwg eich hun o staff y GIG, a gyhoeddwyd fis Mawrth diwethaf, cafwyd bod 39 y cant o'r staff yn dioddef straen yn y gweithle. Yr oedd llawer ohonynt yn wynebu'r posibilrwydd o drais corfforol, ac yr oedd 40 y cant ohonynt yn ystyried gadael. A ydych yn cytuno bod rhaid cymryd camau ar fyrder i wella diogelwch y gweithle i staff y GIG oherwydd, fel arall, gallai ymddiriedolaethau fod mewn perygl o wynebu achosion cyfreithiol yn y dyfodol? Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i leddfu'r straen a fydd yn peri i weithwyr iechyd proffesiynol adael y gwasanaeth?

Y Prif Weinidog: Gosodwyd targedau ar gyfer yr holl ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol yn 'Cynllun Oes' er mwyn cyrraedd safon iechyd corfforaethol aur neu blatinwm erbyn 2008. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ateb y cwestiwn fel y'i cyflewyr gennych yn wreiddiol, sydd, ar un ystyr, yn bwysicach. Nid yw'n ymwneud â'r geiriau dideimlad hynny fel y'u ceir yn jargon y polisïau; mae'n ymwneud, mewn gwirionedd, â'r digwyddiadau cas sy'n digwydd pan fydd meddwon yn cam-drin staff yr unedau damweiniau ac achosion brys ar nos Wener neu nos Sadwrn mewn unrhyw ysbyty y gallech ei enwi bron. Mae hefyd yn ymwneud â rhai sydd yn gaeth i gyffuriau sydd weithiau'n mynnu cael cyflenwad o rywbeth yn adeilad meddyg teulu. Mae hynny i gyd yn gwbl annerbyniol, a rhaid cael gwared â hynny o'r system.

Laura Anne Jones: Mae'n bwysig inni hybu agenda iechyd yn y gweithle. Byddai mwy o ffitrwydd ac ymarfer yn llesol i iechyd

the health of employees and employers, but it would also improve concentration levels and, therefore, work output. On that note, should not the Assembly lead by example by increasing our fitness facilities in this building and establishing a gym here, as has long been called for by my colleagues?

The First Minister: Had you participated as a party in the design of the new building, no doubt you could have persuaded people that we should have a swimming pool or a gym here. However, you did not participate and there is no use complaining now. If you want to stand in the middle of Queen Street saying that there should be a swimming pool in the National Assembly for Wales building, and that that is now official Conservative party policy, that is fine. It will make for a very interesting headline in the *South Wales Argus* tomorrow.

gweithwyr a chyflogwyr, a byddai hefyd yn gwella lefelau canolbwyntio ac, felly, faint o waith a wneir. Ar y nodyn hwnnw, oni ddylai'r Cynulliad osod esiampl drwy ddarparu mwy o gyfleusterau ffitrwydd yn yr adeilad hwn a sefydlu campfa yn y fan hon, fel y mae fy nghyd-Aelodau wedi gofyn ers amser maith?

Y Prif Weinidog: Pe byddech wedi cymryd rhan fel plaid yn y gwaith o gynllunio'r adeilad newydd, mae'n sicr y byddech wedi gallu darbwyllo pobl y dylem gael pwll nofio neu gampfa yma. Fodd bynnag, ni chymerasoch ran ac nid oes diben ichi gwyno'n awr. Os ydych am sefyll ar ganol Heol y Frenhines a dweud y dylid cael pwll nofio yn adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod hynny bellach yn bolisi swyddogol gan y Blaid Geidwadol, iawn. Gwnaiff bennawd diddorol iawn yn y *South Wales Argus* yfory.

Adroddiad Estyn am y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth The Estyn Report on the Music Development Fund

Q9 Eleanor Burnham: Will the First Minister make a statement on the recent Estyn report on the music development fund? OAQ1607(FM)

The First Minister: The Estyn report was commissioned by us and confirms our view that the music development fund was a successful initiative upon which local education authorities can build. We have written to all authorities to highlight the key messages in the report, as music services remain, in principle, the responsibility of local education authorities.

Eleanor Burnham: The local education authorities need more funding, and we all agree that one of the biggest advantages of the music development fund was that it was ring-fenced money. There is much documented evidence to assert that music-making is very beneficial for both the educational and personal development of young people. What is the Labour Assembly Government doing to ensure that school pupils, particularly disadvantaged school pupils, continue to benefit from this wonderful fund and its consequences for their

C9 Eleanor Burnham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adroddiad diweddar Estyn am y gronfa datblygu cerddoriaeth? OAQ1607(FM)

Y Prif Weinidog: Comisiynwyd adroddiad Estyn gennym ni ac mae'n cadarnhau ein barn bod y gronfa datblygu cerddoriaeth yn gynllun llwyddiannus y gall awdurdodau addysg lleol adeiladu ar ei sail. Yr ydym wedi ysgrifennu at yr holl awdurdodau i dynnu sylw at y prif negeseuon yn yr adroddiad, gan fod gwasanaethau cerddoriaeth yn parhau'n gyfrifoldeb i awdurdodau addysg lleol, mewn egwyddor.

Eleanor Burnham: Mae ar yr awdurdodau addysg lleol angen mwy o gyllid, ac yr ydym oll yn cytuno mai un o brif fanteision y gronfa datblygu cerddoriaeth oedd ei fod yn arian a oedd wedi'i neilltuo. Mae llawer o dystiolaeth ar glawr sydd yn dal bod chwarae cerddoriaeth yn llesol iawn i ddatblygiad addysgol a phersonol pobl ifanc. Beth y mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn ei wneud i sicrhau y bydd disgyblion ysgol, a rhai difreintiedig yn enwedig, yn dal i gael budd o'r gronfa wych hon a'r hyn y byddant yn ei ddysgu o ganlyniad iddi.

learning?

The First Minister: That is why we have written to draw it to the attention of the education cabinet members of the 22 local authorities and to make it clear how much additional resource their local authority got by way of the transfer into the revenue support grant of the money that was previously allocated through the music development fund over the six years of its existence.

Furthermore, as regards disadvantaged pupils in particular, Edwina Hart has set up a scheme in Communities First areas that does some of the job that was previously done by the music development fund, though not necessarily within the school framework. You are perfectly right that the development of musical skills—and not just in the school setting, but also in the community setting—is of enormous importance. It is as important as sport in the development of the well-rounded citizen of the Wales of the future.

Y Prif Weinidog: Dyna pam yr ydym wedi ysgrifennu i'w dwyn i sylw'r aelodau cabinet dros addysg yn y 22 awdurdod lleol ac i egluro faint o adnoddau ychwanegol a gafodd eu hawdurdod lleol drwy drosglwyddo i'r grant cynnal refeniw yr arian a oedd wedi'i ddyrannu o'r blaen drwy'r gronfa datblygu cerddoriaeth dros y chwe blynedd y bu mewn bodolaeth.

Yn ogystal â hynny, gyda golwg ar ddisgyblion difreintiedig yn benodol, mae Edwina Hart wedi sefydlu cynllun mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sydd yn cyflawni rhywfaint o'r gwaith a wneid o'r blaen drwy'r gronfa datblygu cerddoriaeth, er nad o fewn fframwaith yr ysgol o reidrwydd. Yr ydych yn berffaith gywir wrth ddweud ei bod yn bwysig dros ben meithrin doniau cerddorol—yn y gymuned yn ogystal ag yn yr ysgol. Mae cyn bwysiced â chwaraeon wrth ddatblygu dinasyddion cytbwys yng Nghymru'r dyfodol.

Cyflogau yn y Sector Addysg Uwch Pay in the Higher Education Sector

Q10 Peter Black: Will the First Minister make a statement on the recent Estyn—sorry, that is the wrong question.

Will the First Minister make a statement on pay in the higher education sector?
OAQ1610(FM)

The First Minister: You had a lapse of concentration there that was very interesting, Peter.

During her recent meetings with all parties in the dispute, Jane Davidson told all sides that, while pay is a matter for the institutions and their employees and representative organisations, we are concerned to see a speedy resolution to the dispute and that the needs of the final-year students of 2006 should be prioritised. We are encouraged that the Trades Union Congress is facilitating a meeting between the parties today at 4.30 p.m..

C10 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr adroddiad diweddar gan Estyn—mae'n ddrwg gennyf, y cwestiwn anghywir oedd hwnnw.

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflogau yn y sector addysg uwch?
OAQ1610(FM)

Y Prif Weinidog: Yr oedd eich gallu i ganolbwyntio wedi pallu am eiliad ac yr oedd hynny'n ddiddorol iawn, Peter.

Yn ystod ei chyfarfodydd diweddar â phawb sydd a wnelont â'r anghydfod, dywedodd Jane Davidson wrth bob ochr ein bod yn awyddus i weld datrys yr anghydfod yn fuan, er mai mater i'r sefydliadau a'u gweithwyr a'u cyrff cynrychioladol yw cyflogau, ac y dylid rhoi blaenoriaeth i anghenion myfyrwyr sydd ar eu blwyddyn olaf yn 2006. Mae'n galonid i ni fod Cyngres yr Undebau Llafur yn hwyluso cyfarfod rhwng y partion heddiw am 4.30 p.m..

Peter Black: Thank you for that reply. Even Liberal Democrats can lose concentration occasionally.

I understand that we may well have a resolution to this dispute and that this is a UK issue rather than a Welsh Assembly Government issue. However, what work has your Assembly Government done with the various Welsh higher education institutions to try to protect students from the effects of the strike and to ensure that no student will be disadvantaged as a result of it?

The First Minister: As I mentioned, Jane Davidson has been having meetings at a Welsh level with all the parties concerned and has emphasised that they need to keep at the front of their minds how they would like it if it were their son or daughter who was taking their final degree examinations this year, as it is they who might be adversely affected if we do not get a resolution.

You are right that the mood music prior to the meeting at 4.30 p.m. this afternoon, convened by the Trades Union Congress, is hopeful. One must not anticipate the conclusions of that, because the Advisory, Conciliation and Arbitration Service meeting broke down not that long ago, but let us hope that that will not happen at this TUC meeting. It is important that we reflect on the implications of everything that happens in this dispute: the longer that it remains unresolved, the more the final-year students this year will be disadvantaged.

Peter Black: Diolch i chi am yr ateb hwnnw. Mae hyd yn oed Democratiaid Rhyddfrydol yn colli'r gallu i ganolbwyntio weithiau.

Yr wyf yn deall ei bod yn bosibl iawn y bydd yr anghydfod hwn yn cael ei ddatrys ac mai mater i'r DU yw hwn yn hytrach nag i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er hynny, pa waith y mae eich Llywodraeth chi yn y Cynulliad wedi'i wneud gyda'r gwahanol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i geisio amddiffyn myfyrwyr rhag effeithiau'r streic ac i sicrhau na fydd yr un myfyriwr dan anfantais o ganlyniad iddi?

Y Prif Weinidog: Fel y dywedais, mae Jane Davidson wedi cynnal cyfarfodydd ar lefel Cymru gyda'r holl bartïon sydd yn gysylltiedig ac mae wedi pwysleisio bod angen iddynt gadw mewn cof sut y byddent hwy'n teimlo pe byddai mab neu ferch iddynt hwy'n sefyll ei arholiadau gradd terfynol eleni, gan mai hwy a allai gael cam os na chaiff hyn ei ddatrys.

Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod natur y siarad cyn y cyfarfod am 4.30 p.m. y prynhawn yma, a gynullwyd gan Gyngres yr Undebau Llafur, yn addawol. Rhaid i rywun beidio ag achub y blaen ar ei ganlyniadau, gan fod cyfarfod y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu wedi methu yn eithaf diweddar, ond gadewch inni obeithio na fydd hynny'n digwydd yn y cyfarfod hwn dan adain Cyngres yr Undebau Llafur. Mae'n bwysig inni ystyried goblygiadau pob dim sydd yn digwydd yn yr anghydfod hwn: po hwyaf yr aiff heb ei ddatrys, mwyaf fydd yr anfantais i fyfyrwyr y flwyddyn olaf eleni.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Y Gwasanaeth Ambiwllans The Ambulance Service

Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the ambulance service in Wales? EAQ0873(HSS)

Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru? EAQ0873(HSS)

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): I am aware of the public concern about recent developments in the ambulance service. A new acting chief executive has recently been appointed and he will present a modernisation plan to the trust board in the next month.

Helen Mary Jones: You will be aware that the outgoing chief executive, who had only been in post for two months, has described the situation in the service as 'dangerous'. He has said that £35 million is needed to rectify the position and that he was asked to prioritise a plan to clear the deficit over plans to improve clinical and response performance. Do you acknowledge that Mr Thayne's comments raise concerns that need addressing? Will you make Mr Thayne's report to you public and available, certainly to the Health and Social Services Committee and, preferably, to the whole of the Assembly, so that we can see his concerns in full and scrutinise your response to them? What steps will you take to ensure that, from now on, priority within the ambulance service focuses on improving clinical and response times, if necessary over and above addressing the deficit?

Other representatives of medical professions, as you know, have said that Mr Thayne's comments came as no surprise to them. Do you dispute the view that there are serious difficulties in the ambulance service? If you accept that there are difficulties, what steps will you take to address them?

Will you work with your colleague, the Business Minister, to schedule a full debate on this issue? It is a serious matter of public concern and reflects anecdotal evidence that I am sure that many Assembly Members will have heard of long waits for ambulances and serious concerns about the service. Will you schedule a full debate so that we can scrutinise you properly on this issue, or will you hide behind short statements as you tend to do?

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Yr wyf yn ymwybodol o bryder y cyhoedd ynghylch datblygiadau diweddar yn y gwasanaeth ambiwlans. Mae prif weithredwr dros dro newydd wedi'i benodi'n ddiweddar a bydd yn cyflwyno cynllun moderneiddio i fwrdd yr ymddiriedolaeth y mis nesaf.

Helen Mary Jones: Byddwch yn ymwybodol bod y prif weithredwr sydd yn gadael, na fu yn ei swydd ond am ddau fis, wedi dweud bod y sefyllfa yn y gwasanaeth yn un 'beryglus'. Dywedodd fod angen £35 miliwn i adfer y sefyllfa, ac yn ei ôl ef gofynnwyd iddo roi blaenoriaeth i gynllun i glirio'r diffyg o flaen cynlluniau i wella'r perfformiad clinigol a'r perfformiad wrth ymateb i alwadau. A ydych yn cydnabod bod sylwadau Mr Thayne yn tynnu sylw at bryderon y mae'n rhaid ymateb iddynt? A wnewch gyhoeddi'r adroddiad a roddodd Mr Thayne i chi a sicrhau ei fod ar gael, yn sicr i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac, os oes modd, i'r Cynulliad cyfan, fel y gallwn weld ei holl bryderon a chraffu ar eich ymateb iddynt? Pa gamau a gymerwch i sicrhau, o hyn allan, y rhoddir blaenoriaeth yn y gwasanaeth ambiwlans i wella'r perfformiad clinigol ac amseroedd ymateb, cyn rhoi sylw i'r diffyg, os oes angen?

Fel y gwyddoch, mae cynrychiolwyr eraill i broffesiynau meddygol wedi dweud na pharodd sylwadau Mr Thayne syndod iddynt. A ydych yn gwrthod y farn bod anawsterau difrifol yn y gwasanaeth ambiwlans? Os ydych yn derbyn bod anawsterau, pa gamau a gymerwch i roi sylw iddynt?

A wnewch weithio gyda'ch cyd-Weinidog, y Trefnydd, i drefnu amser ar gyfer dadl lawn ar y mater hwn? Mae'n fater difrifol sydd o bwys i'r cyhoedd ac mae'n adlewyrchu tystiolaeth anecdotaidd yr wyf yn siŵr y bydd llawer o Aelodau'r Cynulliad wedi'i chlywed ynghylch gorfod aros yn hir am ambiwlans a phryderon dwys am y gwasanaeth. A wnewch drefnu dadl lawn fel y gallwn eich holi'n fanwl yn y modd priodol ar y mater hwn, neu a wnewch guddio y tu ôl i ddatganiadau byr fel yr ydych yn tueddu i wneud?

Brian Gibbons: You were not doing too badly until the very end, although there were factual inaccuracies in what you said. Roger Thayne has never presented any report to me. You may be referring to the report that he submitted to the ambulance trust board and that is an issue for it, unless, unlike two weeks ago, you suggest that I, as Minister, should take over the operational control of the trust.

3.00 p.m.

Two weeks ago, in other health contexts, you said that that would not be appropriate; so, unless you suggest this week that I should take over operational control of the ambulance trust board, I will not be specifically accountable for the report that went to the trust.

It is equally true—again, unless it is not Plaid Cymru’s position—that all NHS organisations must work within the resources available to them. Unless it is your position that trusts do not need to work within the resource constraints available to them, then the ambulance service, like every other organisation, must work within such resource constraints. We have put clear targets to the ambulance service, which we expect it to implement. The appointment of the new acting chief executive, Dr Anton Van Dellen, who has widespread experience of working in Staffordshire NHS Ambulance Trust, one of the best performing trusts, will be a benefit to us in Wales. We are committed to working with Dr Van Dellen in outlining the capital programme necessary to elevate the Welsh ambulance trust to a world-class standard; whether that takes £35 million, £30 million or £25 million is a discussion that needs to take place. However, we are committed to working with the Welsh ambulance trust, recognising that capital investment is a key part of allowing the ambulance service to improve.

Jonathan Morgan: Roger Thayne suggested

Brian Gibbons: Gwnaethoch yn eithaf da tan y diwedd un, er bod camgymeriadau ffeithiol yn yr hyn a ddywedasoch. Nid yw Roger Thayne erioed wedi cyflwyno adroddiad i mi. Efallai eich bod yn cyfeirio at yr adroddiad a gyflwynodd i fwrdd yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac mae hynny’n fater i’r bwrdd, oni bai eich bod, yn wahanol i’r hyn a ddigwyddodd bythefnos yn ôl, yn awgrymu y dylwn i, fel Gweinidog, gymryd rheolaeth weithredol dros yr ymddiriedolaeth.

Bythefnos yn ôl, mewn cyd-destunau iechyd eraill, dywedasoch na fyddai hynny’n briodol; felly, oni bai eich bod yn awgrymu yr wythnos hon y dylwn gymryd rheolaeth weithredol dros fwrdd yr ymddiriedolaeth ambiwlans, ni fyddaf yn atebol yn benodol am yr adroddiad a aeth i’r ymddiriedolaeth.

Mae yr un mor wir—eto, oni bai nad hynny yw safbwynt Plaid Cymru—fod yn rhaid i holl sefydliadau’r GIG weithio o fewn yr adnoddau sydd ar gael ar eu cyfer. Oni bai mai eich safbwynt yw nad oes angen i ymddiriedolaethau weithio o fewn y cyfyngiadau ar adnoddau sydd ar gael iddynt, yna mae’n rhaid i’r gwasanaeth ambiwlans, fel pob sefydliad arall, weithio o fewn cyfyngiadau o’r fath ar adnoddau. Yr ydym wedi rhoi targedau clir i’r gwasanaeth ambiwlans, y disgwyliwn iddynt eu rhoi ar waith. Bydd penodi’r prif weithredwr dros dro newydd, Dr Anton Van Dellen, y mae ganddo brofiad eang o weithio gydag Ymddiriedolaeth Ambiwllans y GIG yn Swydd Stafford, un o’r ymddiriedolaethau sy’n perfformio orau, o fudd i ni yng Nghymru. Yr ydym wedi ymrwymo i weithio gyda Dr Van Dellen i amlinellu’r rhaglen gyfalaf sy’n angenrheidiol i droi ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru yn ymddiriedolaeth o safon gyda’r gorau yn y byd; mae angen cael trafodaeth ynghylch a fydd angen £35 miliwn, £30 miliwn neu £25 miliwn i wneud hynny. Fodd bynnag, yr ydym wedi ymrwymo i weithio gydag ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru, gan gydnabod bod buddsoddiad cyfalaf yn rhan allweddol o alluogi’r gwasanaeth ambiwlans i wella.

Jonathan Morgan: Awgrymodd Roger

that the operation of the ambulance service in Wales meant that patients' lives were being put at risk. Do you accept that criticism, because it is a very stark warning from someone who has a tremendous amount of experience of working in the ambulance service? We should take that warning seriously. Will you, as an Assembly Government, commission an urgent review into how the ambulance service is structured and how it is financed and managed in Wales? There is clearly a problem with the system as it is currently operating. It is not good enough for us to sit here in a complacent fashion and pretend that there are no problems. Will you commission an urgent review?

Brian Gibbons: There is no complacency in my view in terms of the ambulance trust's performance. If that message is going out from here to the country, let me make it clear that that is not the case. The ambulance service has seen a 40 per cent increase in emergency calls over the last five or six years. The number of emergency calls dealt with within eight minutes has increased quite dramatically. However, that level of performance is not what we want to achieve. Given that the acting chief executive will present a new modernisation plan to the ambulance trust within a month, developing a new strategy would seem to be an unnecessary duplication and would not be a vote of confidence in the acting chief executive. Your proposal would create confusion and duplication rather than provide the vision and sense of purpose needed to drive the ambulance service forward.

Jenny Randerson: Your lack of a sense of urgency astounds me. Forgive me if I did not hear you properly, but I thought that you said that the report from Roger Thayne that was referred to was not a matter for you and was an issue for the ambulance trust board. I can hardly believe that I heard you say that such a serious report to the ambulance trust board is not an issue for you or for us here. If it is not an issue for you and us, what are we doing here? The fact that we are an elected body representing the people of Wales should

Thayne fod gweithrediad y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru'n golygu bod bywydau cleifion yn cael eu rhoi yn y fantol. A ydych yn derbyn y feirniadaeth honno, oherwydd y mae'n rhybudd difrifol gan rywun sydd wedi cael profiad enfawr o weithio yn y gwasanaeth ambiwlans? Dylem gymryd y rhybudd hwnnw o ddifrif. A wnewch chi, fel Llywodraeth y Cynulliad, gomisiynu adolygiad brys ynghylch sut y strwythurir y gwasanaeth ambiwlans a sut y mae'n cael ei gyllido a'i reoli yng Nghymru? Mae'n amlwg bod problem gyda'r system fel ag y mae ar hyn o bryd. Nid yw'n ddigon da inni eistedd yma yn hunanfodlon a chymryd arnom nad oes problemau. A wnewch gomisiynu adolygiad brys?

Brian Gibbons: Nid oes dim hunanfodlonrwydd yn fy marn i o ran perfformiad yr ymddiriedolaeth ambiwlans. Os yw'r neges honno'n cael ei throsglwyddo i'r wlad o'r fan hon, gadewch imi ddweud yn glir nad felly y mae hi. Mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi gweld cynnydd o 40 y cant mewn galwadau brys dros y pum neu chwe blynedd diwethaf. Mae nifer y galwadau brys sy'n cael sylw o fewn wyth munud wedi cynyddu'n eithaf dramatig. Fodd bynnag, nid y lefel honno o berfformiad yw'r hyn yr ydym am ei gyflawni. O wybod y bydd y prif weithredwr dros dro'n cyflwyno cynllun moderneiddio newydd i'r ymddiriedolaeth ambiwlans o fewn mis, ymddengys y byddai datblygu strategaeth newydd yn ddyblygu dianghenraid ac ni fyddai ychwaith yn bleidlais o hyder yn y prif weithredwr dros dro. Byddai eich cynnig yn creu dryswch a dyblygu yn hytrach na darparu'r weledigaeth a'r ymdeimlad o bwrpas y mae angen eu cael er mwyn peri bod y gwasanaeth ambiwlans yn mynd yn ei flaen.

Jenny Randerson: Mae'r diffyg ymdeimlad o frys gennych yn fy syfrdanu. Maddeuwch i mi os na chlywais yn iawn yr hyn a ddywedasoch, ond yr oeddwn yn credu ichi ddweud nad oedd yr adroddiad gan Roger Thayne y cyfeiriwyd ato yn fater i chi a'i fod yn fater i fwrdd yr ymddiriedolaeth ambiwlans. Prin y gallaf gredu imi eich clywed yn dweud nad yw adroddiad difrifol o'r fath i fwrdd yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn fater i chi nac i ni yma. Os nad yw'n fater i chi a ni, beth yr ydym yn ei

make the difference to the quality of healthcare in Wales. It should come as no surprise to any of us that Roger Thayne thinks that the ambulance service is in a mess. He actually said that the situation would get worse and not better, because, if you looked, as I am sure that you will have done, at the ambulance response time statistics published last week, you would know that they paint a very gloomy picture of a failing service.

Roger Thayne had a reputation of being a troubleshooter and someone who could sort things out. It is a matter of extreme concern for all of us that, after only two months in the job, he has said that he has absolutely no confidence in the Welsh Assembly Government's willingness to invest in and improve the system. There is a difference between working within your resources and planning investment for modernisation—investment that will cost money. Will you recognise the need for modernisation in the ambulance service, and the need for money to be made available?

Will you, at least, give a commitment this afternoon that, having considered that report—which I am sure you will be able to obtain one way or another, as it appears to be publicly available—you will consider a review and that you will give us the opportunity to have a full debate on the issue of whether there should be a review of the ambulance service? In light of such a condemnatory report from an acting chief executive such as Roger Thayne, it is time for you to respond with urgency; it is no time to say 'things will improve'.

Brian Gibbons: What I said to Helen Mary was that Roger Thayne's report was not presented to me, which was her point. The report was presented to the board of the ambulance trust. The primary responsibility for implementing the report lies with the ambulance trust board rather than with me. Hopefully, you will agree with that, unless you believe that my duty is to directly manage the ambulance service. If you do not

wneud yma? Dylai'r ffaith ein bod yn gorff etholedig sy'n cynrychioli pobl Cymru wneud y gwahaniaeth i ansawdd gofal iechyd yng Nghymru. Ni ddylai synnu neb yma fod Roger Thayne yn meddwl ei bod yn draed moch ar y gwasanaeth ambiwlans. Yn wir dywedodd y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu ac nid yn gwella, oherwydd, petaech yn edrych, ac yr wyf yn sicr y byddwch wedi gwneud hynny, ar ystadegau amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, byddech yn gweld eu bod yn rhoi darlun du iawn o wasanaeth sy'n methu.

Yr oedd gan Roger Thayne enw fel cywirwr diffygion a rhywun a allai roi trefn ar broblemau. Mae'n peri pryder mawr inni i gyd ei fod, ar ôl dau fis yn unig yn y gwaith, wedi dweud nad oes ganddo ddim hyder o gwbl ym mharodrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i fuddsoddi yn y system a'i gwella. Mae gwahaniaeth rhwng gweithio o fewn eich adnoddau a chynllunio buddsoddiad ar gyfer moderneiddio—buddsoddiad a fydd yn costio arian. A wnewch gydnabod bod angen moderneiddio'r gwasanaeth ambiwlans, a bod angen darparu arian ar gyfer hynny?

A wnewch, o leiaf, roi ymrwymiad y prynhawn yma y byddwch, ar ôl ystyried yr adroddiad hwnnw—y gallwch yr wyf yn sicr gael copi ohono rywsut neu'i gilydd, gan ei fod, yn ôl pob golwg, ar gael i'r cyhoedd—yn ystyried cynnal adolygiad ac y byddwch yn rhoi cyfle inni gael dadl lawn ar y cwestiwn a ddylid cael adolygiad o'r gwasanaeth ambiwlans ai peidio? Yng ngoleuni adroddiad mor gondemniol gan brif weithredwr dros dro megis Roger Thayne, mae'r amser wedi dod ichi ymateb ar frys; nid dyma'r amser i ddweud y bydd pethau'n gwella.

Brian Gibbons: Yr hyn a ddywedais wrth Helen Mary oedd na chyflwynwyd adroddiad Roger Thayne i mi, sef ei phwynt hi. Cyflwynwyd yr adroddiad i fwrdd yr ymddiriedolaeth ambiwlans. Bwrdd yr ymddiriedolaeth ambiwlans sy'n bennaf cyfrifol am weithredu'r adroddiad yn hytrach na fi. Gobeithio y byddwch yn cytuno â hynny, oni chredwch mai fy nyletswydd i yw rheoli'r gwasanaeth ambiwlans yn

believe that, then the correct procedure has been followed—Roger Thayne presented his report to the ambulance board, which is obliged to take on board and try to implement its recommendations.

As I said, we realise that modernising the ambulance service will require capital investment, and we are willing to discuss the scale of that investment with the new acting chief executive. The approach to this is not dilatory; there is a real sense of urgency. We have been working with the trust management to get Roger Thayne to produce his report. When the chief executive was unable to carry on with his duties, due to illness, we recruited the best that we could get. Roger Thayne offered to come here to work in Wales. When he was not in a position to continue with his job, we appointed Dr Anton van Dellen, who has extensive experience with Staffordshire NHS Ambulance Trust.

A wide range of changes are currently taking place in the ambulance service. New bilateral contracts are being arranged with local health boards in terms of improving local services; global positioning systems are being introduced into ambulances; new mechanical ventilation has been introduced into the ambulance service; NHS staff are being trained on thrombolysis on ambulances; new skills are being acquired by ambulance staff on a day-to-day basis. So, an extensive range of work is ongoing within the ambulance service because of the urgent necessity to improve the performance of that service.

However, we also need to recognise the pressure under which the ambulance service is operating. Three years ago, the ambulance service responded to around 28,500 calls within eight minutes; the statistical report for this March notes that this figure has risen to just under 40,000 calls. People working for the ambulance service have improved their performance in many ways, but we need to recognise that, in the changing context in which the ambulance service is operating, we need the modernisation project that will be

uniongyrchol. Os nad ydych yn credu hynny, yna mae'r drefn gywir wedi'i dilyn—cyflwynodd Roger Thayne ei adroddiad i'r bwrdd ambiwlans, ac mae'n ddyletswydd ar y bwrdd dderbyn ei argymhellion a cheisio'u gweithredu.

Fel y dywedais, yr ydym yn sylweddoli y bydd y gwaith o foderneiddio'r gwasanaeth ambiwlans yn peri bod angen buddsoddiad cyfalaf, ac yr ydym yn barod i drafod maint y buddsoddiad hwnnw gyda'r prif weithredwr dros dro newydd. Nid yw'r ymateb i hyn yn araf; mae gwir ymdeimlad o frys. Yr ydym wedi bod yn gweithio gyda rheolwyr yr ymddiriedolaeth i gael Roger Thayne i lunio'i adroddiad. Pan nad oedd y prif weithredwr yn gallu parhau â'i ddyletswyddau, oherwydd salwch, cafodd yr un gorau y gallem ei gael ei recriwtio gennym. Cynigiodd Roger Thayne ddod yma i weithio yng Nghymru. Pan nad oedd yn gallu parhau â'i waith, penodasom Dr Anton Van Dellen, sydd â phrofiad eang gydag Ymddiriedolaeth Ambiwllans GIG Swydd Stafford.

Mae ystod eang o newidiadau'n digwydd ar hyn o bryd yn y gwasanaeth ambiwlans. Mae contractau dwyochrog newydd yn cael eu trefnu gyda byrddau iechyd lleol o ran gwella gwasanaethau lleol; mae systemau lleoli bydeang yn cael eu gosod mewn ambiwlansys; mae awyru mecanyddol newydd wedi'i gyflwyno i'r gwasanaeth ambiwlans; mae staff y GIG yn cael eu hyfforddi ynghylch thrombolysis ar ambiwlansys; mae sgiliau newydd yn cael eu dysgu gan staff ambiwlansys yn feunyddiol. Felly, mae llawer iawn o waith yn digwydd o fewn y gwasanaeth ambiwlans oherwydd y rheidrydd ar frys i wella perfformiad y gwasanaeth hwnnw.

Fodd bynnag, mae angen inni hefyd gydnabod y pwysau sydd ar y gwasanaeth ambiwlans. Dair blynedd yn ôl, yr oedd y gwasanaeth ambiwlans yn ymateb i tua 28,500 o alwadau o fewn wyth munud; mae'r adroddiad ystadegol ar gyfer mis Mawrth eleni'n nodi bod y ffigur hwn wedi codi i ychydig o dan 40,000 o alwadau. Mae'r bobl sy'n gweithio i'r gwasanaeth ambiwlans wedi gwella'u perfformiad mewn sawl ffordd, ond mae angen inni gydnabod, yn y cyd-destun o newid y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn

presented to the board in the next month, and which you have suggested.

Glyn Davies: Last summer, I spent a day with Roger Thayne in Staffordshire because of the wonderful results that he had achieved there. I was hugely impressed, and I was pleased to see him appointed in Wales. I share a lot of other Members' disappointment that he has not stayed here long.

3.10 p.m.

However, I want to ask you about the funding position. I do not often say to the Government that it should spend more money on something, and I accept your strictures about financial discipline, but every report that I have seen about the ambulance service, over a long period, has talked about substantial long-term underfunding. That seems to be the central part of Roger Thayne's report to his board. Do you accept that? You must accept that there is long-term underfunding, so is that one of the priorities that you will look at?

Brian Gibbons: In my meeting with Roger Thayne a few weeks after he was appointed, he said that the ambulance service did need to modernise. However, delivering that would require capital investment. As I indicated, we are in discussions with the ambulance service on a capital investment programme over a number of years. Roger Thayne told me at this meeting, soon after he was appointed, that he felt that the key to the process was not necessarily more revenue spend, in the way that you are suggesting, Glyn. He suggested that there needed to be a modernisation agenda in the process by which the ambulance service was operating. He told me at that meeting that he felt that, if the capital investment was there, he would be able to deliver the rest.

There is no doubt that the challenge facing the ambulance service is not something that will be sorted out in two or three weeks; it is a two or three-year job. Roger Thayne felt that he could not commit himself to a project

gweithredu o'i fewn, fod arnom angen y prosiect moderneiddio a gyflwynir i'r bwrdd y mis nesaf, ac a awgrymwyd gennych chi.

Glyn Davies: Y haf diwethaf, treuliais ddiwrnod gyda Roger Thayne yn Swydd Stafford oherwydd y canlyniadau gwych yr oedd wedi eu cyflawni yno. Gwnaethpwyd argraff fawr arnaf, ac yr oeddwn yn falch iddo gael ei benodi yng Nghymru. Yr wyf yn rhannu siom llawer o Aelodau eraill nad yw wedi aros yn hir yma.

Fodd bynnag, hoffwn ofyn ichi am y sefyllfa o ran cyllid. Ni fyddaf yn dweud yn aml wrth y Llywodraeth y dylai wario mwy o arian ar rywbeth, a derbynias eich beirniadaeth ynghylch disgyblaeth ariannol, ond mae pob adroddiad yr wyf wedi'i weld am y gwasanaeth ambiwlans, dros gyfnod maith, wedi sôn am dangyllido hirdymor sylweddol. Mae'n ymddangos mai hynny yw rhan ganolog adroddiad Roger Thayne i'w fwrdd. A ydych yn derbyn hynny? Rhaid ichi dderbyn bod tangyllido hirdymor, ac felly a yw hynny'n un o'r blaenoriaethau y byddwch yn ei ystyried?

Brian Gibbons: Yn fy nghyfarfod gyda Roger Thayne ychydig wythnosau ar ôl iddo gael ei benodi, dywedodd fod angen i'r gwasanaeth ambiwlans foderneiddio. Fodd bynnag, i wneud hynny byddai angen buddsoddiad cyfalaf. Fel y nodais, yr ydym yn cynnal trafodaethau gyda'r gwasanaeth ambiwlans ar raglen o fuddsoddi cyfalaf dros nifer o flynyddoedd. Dywedodd Roger Thayne wrthyf yn y cyfarfod hwn, yn fuan ar ôl iddo gael ei benodi, ei fod yn teimlo nad mwy o wariant refeniw o anghenraid oedd yr allwedd i'r broses, yn y modd yr ydych chi'n ei awgrymu, Glyn. Awgrymodd fod angen cael agenda o foderneiddio yn y broses a ddefnyddir gan y gwasanaeth ambiwlans i weithredu. Dywedodd wrthyf yn y cyfarfod hwnnw, petai'r buddsoddiad cyfalaf yno, y teimlai y gallai gyflawni'r gweddill.

Mae'n sicr nad yw'r her sy'n wynebu'r gwasanaeth ambiwlans yn rhywbeth y gellir ei ddatrys mewn pythefnos neu dair wythnos; mae'n waith dwy neu dair blynedd. Teimlai Roger Thayne na allai ymrwymo i brosiect a

that he thought was going to run for two or three years, given the length of the challenge and the personal circumstances in which he found himself.

fyddai yn ei farn ef yn para am ddwy neu dair blynedd, o wybod am faint yr her a'r amgylchiadau personol y canfu ei hun ynddynt.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I have two changes to report to this week's business. Following this statement, Edwina Hart will make a statement on police restructuring, and tomorrow I will propose a procedural motion to bring forward the no named day motion to amend Standing Orders in relation to the shadow commission. Business for the next three weeks is as set out in the draft statement, which is available to Members on the Chamberweb. Following this morning's Business Committee meeting, it has been determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration: the Bee Diseases and Pests Control (Wales) Order 2006, the Plant Health (Export Certification) (Wales) Regulations 2006, the Tir Gofal (Wales) (Amendment) Regulations 2006, the Sea Fishing (Northern Hake Stock) (Wales) Order 2006, the Private and Voluntary Health Care and Miscellaneous (Wales) (Amendment) Regulations 2006, the Local Safeguarding Children Boards (Wales) Regulations 2006, the Housing (Approval of Codes of Management Practice) (Student Accommodation) (Wales) Order 2006, the Houses in Multiple Occupation (Specified Educational Establishments) (Wales) Regulations 2006, the Higher Education Act 2004 (Commencement No.2 and Transitional Provision) (Wales) (Amendment) Order 2006, and the Ceramic Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2006.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiad i'r datganiad busnes drafft? Gwelaf fod o leiaf 10 gwrthwynebiad, felly galwaf ar y Trefnydd i gynnig y datganiad busnes yn ffurfiol.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

the National Assembly for Wales adopts the

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae gennyf ddau newid i'w cyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Yn dilyn y datganiad hwn, bydd Edwina Hart yn gwneud datganiad am ailstrwythuro'r heddlu, ac yfory bydd cynnig trefniadol yn cael ei gynnig gennyf i ddwyn ymlaen y cynnig heb ddyddiad trafod er mwyn newid y Rheolau Sefydlog ynglŷn â'r comisiwn cysgodol. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i gwelir yn y datganiad drafft, sydd ar gael i'r Aelodau ar we'r Siambr. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynwyd nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth at bwyllgor pwnc i'w hystyried ymhellach: Gorchymyn Rheoli Plâu a Chlefydau Gwenyn (Cymru) 2006, Rheoliadau Iechyd Planhigion (Tystysgrif Allforio) (Cymru) 2006, Rheoliadau Tir Gofal (Cymru) (Diwygio) 2006, Gorchymyn Pysgota Môr (Stoc Cegddu'r Gogledd) (Cymru) 2006, Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol ac Amrywiol (Cymru) (Diwygio) 2006, Rheoliadau Byrddau Lleol Diogelu Plant (Cymru) 2006, Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer ar gyfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) (Cymru) 2006, Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) 2006, Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006, a Rheoliadau Nwyddau Ceramig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2006.

The Presiding Officer: Are there any objections to the draft business statement? I see that there are at least 10 objections, so I ask that the Minister formally propose the business statement

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn y

business statement.

Helen Mary Jones: The Business Minister will be aware that we made several requests to her in this morning's Business Committee meeting. We are disappointed that she has not accepted them. Our decision to oppose the business statement today is based on the refusal to grant at least a proper statement, when what is needed is a full debate, on the state of the Welsh ambulance service. I will not repeat the remarks that I have already made but this situation is amounting to a crisis. People are concerned and we are deeply disappointed that the Minister for Health and Social Services seems to want to distance himself from the whole process, as if it was nothing to do with him. We are disappointed that the Government will not allow this, which is one of the most urgent matters in Wales, to be debated here today.

Lisa Francis: I am grateful that the Minister for Social Justice and Regeneration has agreed to make a statement on the police mergers, which is something that we would have asked for. However, like Helen Mary Jones, we have to vote against the business statement today on the grounds that you will not give us a debate on ambulance services, particularly in light of the report that we have heard so much about today. Our group believes that it is important that such a debate takes place. We must have public confidence in our ambulance service and we ask you to think again about that. However, we are glad that the urgent question was accepted.

We are grateful for the written statement on the situation regarding the health worker who contracted hepatitis C in Gwynedd, and the effect that that is having on patients. We have not seen that yet—I understand that it is to be issued later this afternoon. However, I hope that it addresses some of the many points that have been made to me by constituents about the confusing nature of the information that has been given out, which has caused much anxiety.

Peter Black: Like the other two speakers, the Welsh Liberal Democrats feel strongly that

datganiad busnes.

Helen Mary Jones: Bydd y Trefnydd yn ymwybodol ein bod wedi cyflwyno sawl cais iddi yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma. Yr ydym yn siomedig nad yw wedi'u derbyn. Mae ein penderfyniad i wrthwynebu'r datganiad busnes heddiw yn seiliedig ar y ffaith bod cael datganiad priodol o leiaf wedi'i wrthod, a hynny pan fo angen cynnal dadl lawn, ar gyflwr gwasanaeth ambiwlans Cymru. Nid ailadroddaf y sylwadau yr wyf eisoes wedi'u gwneud ond mae'r sefyllfa hon yn troi'n argyfwng. Mae pobl yn bryderus ac yr ydym yn hynod o siomedig bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel petai am ymbellhau oddi wrth yr holl broses, fel pe na bai a wnelo ddim ag ef. Yr ydym yn siomedig na fydd y Llywodraeth yn caniatáu cynnal dadl ar hyn, sef un o'r materion y mae mwyaf o frys yn ei gylch yng Nghymru, yma heddiw.

Lisa Francis: Yr wyf yn ddiolchgar bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi cytuno i wneud datganiad am uno'r heddluoedd, sy'n rhywbeth y byddem wedi gofyn amdano. Ond, fel Helen Mary Jones, bydd yn rhaid inni bleidleisio yn erbyn y datganiad busnes heddiw oherwydd nad ydych am roi dadl inni ar y gwasanaeth ambiwlans, yn arbennig yng ngoleuni'r adroddiad yr ydym wedi clywed cymaint amdano heddiw. Cred ein grŵp ei bod yn bwysig bod dadl o'r fath yn cael ei chynnal. Mae'n rhaid i'r cyhoedd fod â hyder yn ein gwasanaeth ambiwlans a gofynnwn ichi feddwl eto am hynny. Serch hynny, yr ydym yn falch bod y cwestiwn brys wedi'i dderbyn.

Yr ydym yn ddiolchgar am y datganiad ysgrifenedig am y sefyllfa yng nghyswllt y gweithiwr iechyd o Wunedd sydd wedi cael hepatitis C, a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar gleifion. Nid ydym wedi ei weld eto—deallaf y bydd yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen y prynhawn yma. Fodd bynnag, gobeithio ei fod yn ateb rhai o'r pwyntiau niferus a wnaed imi gan fy etholwyr ynghylch natur ddryslyd y wybodaeth a ryddhawyd, sydd wedi achosi cymaint o bryder.

Peter Black: Fel y ddau siaradwr blaenorol, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n

we need to have a full debate on the ambulance service. Although the urgent question was useful in terms of us being able to air some of those issues, it cannot do full justice to the extent of the problems that were highlighted today and yesterday. I feel strongly, Minister, that we should have that debate, and I ask you to accede to that request.

Jane Hutt: The Minister for Health and Social Services answered the urgent question on the ambulance service fully this afternoon. There will also be an opportunity to discuss this in the Health and Social Services Committee. However, I am sure that the Minister will consider when and whether it would be appropriate to debate this issue in Plenary in future. Listening to the news this morning, I was conscious of a positive caller to *Good Morning Wales*, who spoke of his positive experience of a speedy response time with the ambulance service, which enabled him to save his life. We must put this in context, in terms of speedy responses and the pressures that the Minister for Health and Social Services said that the ambulance service is under. However, as I have said, we will come back to this matter, and I am sure that we will debate it in Plenary in future.

Thank you, Lisa—we honoured the commitment that we made before the recess on the police restructuring statement, which the Minister for Social Justice and Regeneration will make following the business statement. The written statement on the hepatitis C issue in north Wales is on its way.

teimlo'n gryf fod angen inni gael dadl lawn am y gwasanaeth ambiwlans. Er bod y cwestiwn brys yn ddefnyddiol o ran ein bod wedi gallu gwyntyllu rhai o'r materion hynny, ni all wneud cyfiawnder llawn â maint y problemau y soniwyd amdanynt heddiw a ddoe. Teimlaf yn gryf, Weinidog, y dylem gael y ddadl honno, a gofynnaf ichi gydsynio â'r cais hwnnw.

Jane Hutt: Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ateb y cwestiwn brys am y gwasanaeth ambiwlans yn llawn y prynhawn yma. Bydd cyfle i drafod hyn hefyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, teimlaf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ystyried pryd y dylid trafod y mater hwn ac a fyddai'n briodol gwneud hynny mewn Cyfarfod Llawn yn y dyfodol. Wrth wrando ar y newyddion y bore yma, daliwyd fy sylw gan alwr cadarnhaol ei agwedd a gysylltodd â *Good Morning Wales* i siarad am ei brofiad cadarnhaol o amser ymateb sydyn y gwasanaeth ambiwlans, a achubodd ei fywyd. Rhaid inni roi hyn yn ei gyd-destun, o ran ymatebion sydyn a'r pwysau sydd ar y gwasanaeth ambiwlans yn ôl y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, fel y dywedais, down yn ôl at y mater hwn, ac yr wyf yn siŵr y byddwn yn cynnal dadl arno mewn Cyfarfod Llawn yn y dyfodol.

Diolch Lisa—bu inni gyflawni'r ymrwymiad a wnaethom cyn y toriad ynghylch y datganiad am ad-drefnu'r heddlu a wneir gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithas ac Adfywio wedi'r datganiad busnes. Mae'r datganiad ysgrifenedig am broblem yr hepatitis C yn y gogledd ar ei ffordd.

*O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 25.
For 28, Abstain 0, Against 25.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa

Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Datganiad am Uno'r Heddluoedd Statement on the Police Merger

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): Since the UK Government announced an intention to act on Her Majesty's Inspectorate of Constabulary's report, 'Closing the Gap', and thereafter to amalgamate the four police forces in Wales, I have made regular reports to the Assembly in the form of written and oral statements.

Members will know from my written statement on 11 May that I had spoken to Liam Byrne soon after his new Home Office appointment to ensure that he was aware of the issues in relation to police restructuring in Wales. You are no doubt aware that further changes were made to the Home Office ministerial line-up two weeks later, and that Tony McNulty is now the Home Office Minister with responsibility for policing issues. I therefore spoke to Tony McNulty just after his appointment, and, as a result of that discussion, he agreed to an early meeting to hear at first hand our concerns about the police restructuring process in Wales. This meeting took place last Thursday at the Home Office, and the chief constables of the four forces in Wales also attended.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Ers i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei bod yn bwriadu gweithredu ar yr adroddiad gan Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi, sef 'Closing the Gap', ac yna uno'r pedwar heddlu yng Nghymru, yr wyf wedi rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Cynulliad ar ffurf datganiadau ysgrifenedig a llafar.

Bydd yr Aelodau'n gwybod yn sgîl fy natganiad ysgrifenedig ar 11 Mai fy mod wedi siarad â Liam Byrne yn fuan ar ôl ei benodiad i'r Swyddfa Gartref i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r materion yng nghyswllt ad-drefnu'r heddlu yng Nghymru. Diau y byddwch yn gwybod bod newidiadau pellach wedi eu gwneud o ran Gweinidogion y Swyddfa Gartref bythefnos yn ddiweddarach, ac mai Tony McNulty bellach yw'r Gweinidog yn y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â'r heddlu. Felly, cefais air â Tony McNulty yn fuan ar ôl ei benodi, ac, o ganlyniad i'r drafodaeth honno, cytunodd i gael cyfarfod yn fuan i glywed yn uniongyrchol beth yw ein pryderon am broses ad-drefnu'r heddlu yng Nghymru. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ddydd Iau diwethaf yn y Swyddfa Gartref, ac yr oedd prif gwnstabiliaid pedwar heddlu Cymru

yno.

Tony McNulty listened carefully to the points put forward by me and the chief constables. I expressed the Assembly Government's dissatisfaction, and that of the chairs of the police authorities in Wales, with the way in which this process has been handled so far. I reinforced the importance of resolving the financial issues urgently, in terms of the initial set-up costs and the council tax precepts. I reminded the Minister that it is our firm view, and that of the Assembly as a whole, that the costs of restructuring should not fall on the Assembly's budget, or on Welsh council tax payers, but must be met by the Home Office. Finally, I pressed him again for the timetable to be reconsidered.

The chief constables took the opportunity to express their frustration with the process so far, and drew the Minister's attention to the outstanding correspondence that rests with the Home Office, which sets out their concerns in some detail.

The Minister expressed his commitment to engage personally in the process from now on, and said that he recognises the need for financial, governance and timing issues to be resolved satisfactorily. As an ex-local authority member, he clearly understands the complexities surrounding the funding of police, and the precept issues, and his knowledge in this area will be helpful in resolving these matters.

Understandably, the Minister was unable to resolve any specific issues at the meeting, but he referred us to the comments that the new Home Secretary had made to the recent conference of the Association of Chief Police Officers. At the conference, John Reid signalled that he wanted to take some time to consider the issues surrounding the restructuring process in England and Wales, including the current timetable. However, the Home Secretary has made it clear that he supports advice from Her Majesty's Inspectorate of Constabulary on the need to restructure. I know that you share the frustration that key issues have still not been resolved, and with regard to the way in which

Gwrandawodd Tony McNulty'n ofalus ar y pwyntiau a wnaed gennyf fi a'r prif gwnstabiliaid. Lleisiais anfonlonrwydd Llywodraeth y Cynulliad, ac anfonlonrwydd cadeiryddion awdurdodau'r heddlu yng Nghymru, ar y modd y deliwyd â'r broses hon hyd yma. Pwysleisiais eto pa mor bwysig yw datrys y materion ariannol ar fyrder, o ran y costau sefydlu dechreuol a'r praeseptau treth gyngor. Atgoffais y Gweinidog ein bod yn bendant o'r farn, a'r Cynulliad cyfan hefyd, na ddylai costau'r ad-drefnu gael eu talu gan gyllideb y Cynulliad, nac ychwaith gan dalwyr y dreth gyngor yng Nghymru, ond mai'r Swyddfa Gartref a ddylai dalu amdanynt. Yn olaf, pwysais arno drachefn i ailystyried yr amserlen.

Achubodd y prif gwnstabiliaid ar y cyfle i fynegi eu rhwystredigaeth gyda'r broses hyd yma, a thynnwyd sylw'r Gweinidog at yr ohebiaeth a anfonwyd at y Swyddfa Gartref sydd heb ei hateb, sy'n nodi eu pryderon yn fwy manwl.

Dywedodd y Gweinidog ei fod yn ymrwymedig i ymgysylltu'n bersonol â'r broses o hyn ymlaen, a dywedodd ei fod yn cydnabod bod angen i'r materion ariannol a llywodraethu a'r amserlen gael eu datrys yn foddhaol. Fel cyn aelod o awdurdod lleol, mae'n amlwg yn deall beth yw'r cymhlethdodau yng nghyswllt cyllido'r heddlu, a'r materion yn ymwneud â'r praesept, a bydd ei wybodaeth am y maes hwn yn gymorth i ddatrys y materion hyn.

Mae'n ddealladwy na allai'r Gweinidog ddatrys materion penodol yn y cyfarfod, ond cyfeiriodd at y sylwadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cartref newydd yng nghynhadledd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn ddiweddar. Yn y gynhadledd, soniodd John Reid ei fod am gymryd amser i ystyried y materion yng nghyswllt y broses ad-drefnu yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys yr amserlen bresennol. Fodd bynnag, dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref yn glir ei fod yn cytuno ag Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi fod angen ad-drefnu. Gwn eich bod yn rhannu'r rhwystredigaeth bod materion allweddol yn dal i fod heb eu datrys, a chydâ'r modd y deliwyd â'r broses

the process has been handled so far. However, we need to allow the new Home Secretary and the Minister with responsibility for the police some breathing space to take stock of the situation and reach conclusions on the way forward. Certainly, the chief constables welcomed Mr McNulty's personal commitment to engage closely with the process, and I am hopeful that last week's meeting will have laid the foundations for a more productive relationship with the Home Office on this issue in the future. One tangible signal of the greater personal engagement was that Tony McNulty has already agreed to come to Wales for a further meeting with me and the four chairs of the police authorities in Wales, which has been organised for early July. I know that the chairs will welcome the opportunity to put their point of view to the new Minister in person, and to hear at first hand the conclusions that he will have hopefully reached on certain issues by that time. I will continue to keep you informed of any developments.

Leanne Wood: I welcome the fact that the new Home Office Minister with responsibility for the police appears to be more ready to listen to the Assembly. However, from my own personal experience of corresponding with him, Tony McNulty's previous performance in the immigration department leaves a lot to be desired. We should not get our hopes up too high. As I said, the new information is positive, but we in Plaid Cymru will continue to oppose these irrational restructuring plans, unless the questions about funding and the local policing services that are delivered to communities on the ground, and the questions arising from the council tax precept, are resolved quickly. If you are yet to receive guarantees on those matters, Minister, will you give us some idea as to when we can expect them?

Edwina Hart: I thank you for those comments, because the concerns that you expressed about the council tax, issues around the precept equalisation, and so on, are common concerns across the Chamber. In my dealings with the Home Office, I have always made it clear that these are not just

hyd yma. Fodd bynnag, mae angen inni roi amser i'r Ysgrifennydd Cartref newydd ac i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am yr heddlu gael eu gwynt atynt er mwyn pwysu a mesur y sefyllfa a phenderfynu sut i fwrw ymlaen. Yn sicr, mae'r prif gwnstabiliaid wedi croesawu ymrwymiad personol Mr McNulty i ymwneud yn agos â'r broses, a gobeithio bod y cyfarfod yr wythnos diwethaf wedi gosod y sylfeini ar gyfer perthynas fwy adeiladol â'r Swyddfa Gartref ar y mater hwn yn y dyfodol. Un arwydd amlwg o'r ymwneud personol agosach hwnnw yw bod Tony McNulty wedi cytuno i ddod i Gymru i gynnal cyfarfod pellach gyda mi a phedwar cadeirydd awdurdodau'r heddlu yng Nghymru, sydd wedi'i drefnu ar gyfer dechrau Gorffennaf. Gwn y bydd y cadeiryddion yn croesawu'r cyfle i gyflwyno eu barn i'r Gweinidog newydd yn bersonol, ac i glywed o lygad y ffynnon beth yw'r casgliadau y bydd, gobeithio, wedi eu llunio ar rai materion erbyn hynny. Byddaf yn parhau i roi gwybod ichi am unrhyw ddatblygiadau.

Leanne Wood: Croesawaf y ffaith bod y Gweinidog newydd sy'n gyfrifol am yr heddlu yn y Swyddfa Gartref i bob golwg yn fwy parod i wrando ar y Cynulliad. Fodd bynnag, yn ôl fy mhrofiad personol o ohebu gydag ef, yr oedd perfformiad blaenorol Tony McNulty yn yr adran mewnfudo ymhell o fod yn foddhaol. Ni ddylem godi'n gobeithion yn ormodol. Fel y dywedais, mae'r wybodaeth newydd yn gadarnhaol, ond byddwn ni ym Mhlaid Cymru yn parhau i wrthwynebu'r cynlluniau ad-drefnu afresymol hyn os na fydd cwestiynau am sut i'w cyllido ac ynghylch y gwasanaethau heddlu lleol a ddarperir ar gyfer cymunedau lleol, a'r cwestiynau yng nghyswllt praesept y dreth gyngor, yn cael eu hateb yn fuan. Os nad ydych eto wedi derbyn sicrwydd pendant ar y materion hyn, Weinidog, oni allwch roi rhywfaint o syniad inni ynghylch pryd y gallwn ddisgwyl hynny?

Edwina Hart: Diolch ichi am y sylwadau hynny, oherwydd y mae'r pryderon a fynegwyd gennych ynghylch y dreth gyngor, cyfartalu'r praesept, ac yn y blaen, yn bryderon sy'n gyffredin ar draws y Siambr. Wrth ddelio â'r Swyddfa Gartref, yr wyf bob amser wedi dweud yn ddigon clir nad barn

the views of the Assembly Government, but the Assembly as a whole. I have indicated to Tony McNulty that we want answers quickly on some of these issues, or at least positive discussions towards getting answers. I did have a feel from this meeting that we had a Minister whom we could deal with, and who understood the issues, particularly those around precepts, local government funding, and so on. I am hopeful that the Home Office will come to some initial conclusions about issues around the timetable, on which it is under much pressure, and the indications from John Reid's statement to ACPO are that that is the case. I am also hopeful that I will be in a position, by the time I meet with Tony McNulty and the chairs of the police authorities, to get some clarity on some of these issues. It was enormously refreshing to have a Government Minister in the Home Office who was so pleased to come to Wales to meet the chairs of the police authorities. That is progress, because there is no doubt that the police authorities and the chief constables have all felt aggrieved about the way in which they have been treated in many ways by the Home Office. However, the way in which we were treated, in terms of discussions, was very good, and I hope that that will continue.

Mark Isherwood: We welcome Tony McNulty's announcement that he may delay the merger of the four police forces and his pledge for a more hands-on approach, working with you and the four chief constables. We thank you for securing this meeting with him and for raising the key financial issues, particularly the initial set-up costs and the council tax precepts. We also thank you for your statement that costs should not fall on the Assembly's budget or on Welsh council tax payers, and for the pressure that you have applied for the timetable to be reconsidered. We also welcome your announcement that Mr McNulty has agreed to visit Wales to meet with you and the chief constables. However, following the Social Justice and Regeneration Committee meeting a few weeks ago, at which we took evidence from the chief constables, the police authorities and the

Llywodraeth y Cynulliad yn unig yw hyn, ond barn y Cynulliad cyfan. Awgrymais wrth Tony McNulty fod arnom eisiau atebion sydyn i rai o'r materion hyn, neu o leiaf drafodaethau cadarnhaol er mwyn cael atebion. Cefais deimlad yn sgîl y cyfarfod hwn fod gennym Weinidog y gallem ddelio ag ef, a oedd yn deall y problemau, yn enwedig rhai yng nghyswllt praeseptau, cyllid llywodraeth leol, ac yn y blaen. Gobeithio y bydd y Swyddfa Gartref yn llunio rhyw fath o gasgliadau dechreuol yng nghyswllt y problemau gyda'r amserlen, y mae o dan gryn bwysau yn ei chylch, a bydd yn gwneud hynny yn ôl yr hyn a awgrymir gan ddatganiad John Reid i Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Yr wyf hefyd yn ffyddiog, erbyn imi gyfarfod â Tony McNulty a chadeiryddion awdurdodau'r heddlu, y byddaf yn gallu deall rhai o'r materion hyn yn fwy eglur. Yr oedd yn eithriadol braf cael un o Weinidogion y Llywodraeth yn y Swyddfa Gartref a oedd mor falch o ddod i Gymru i gwrdd â chadeiryddion awdurdodau'r heddlu. Mae hynny'n gam ymlaen, oherwydd nid oes dim amheuaeth nad yw awdurdodau'r heddlu a'r prif gwnstabiliaid i gyd wedi teimlo'n flin iawn ynghylch y modd y cawsant eu trin mewn llawer o ffyrdd gan y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, o ran y trafodaethau, cawsom ein trin yn dda iawn a gobeithio y bydd hynny'n parhau.

Mark Isherwood: Yr ydym yn croesawu cyhoeddiad Tony McNulty y bydd efallai'n gohirio uno'r pedwar heddlu a'i addewid i ymwneud mwy â'r mater, drwy weithio gyda chi a'r pedwar prif gwnstabl. Diolchwn ichi am sicrhau'r cyfarfod hwn gydag ef ac am godi'r materion ariannol hollbwysig, yn enwedig y costau sefydlu dechreuol a phraeseptau'r dreth gyngor. Diolchwn ichi hefyd am eich datganiad na ddylai'r costau gael eu talu gan gyllideb y Cynulliad na chan dalwyr y dreth gyngor yng Nghymru, ac am y pwysau a roesoch arno i ailystyried yr amserlen. Yr ydym hefyd yn croesawu eich cyhoeddiad bod Mr McNulty wedi cytuno i ymweld â Chymru i gwrdd â chi a'r prif gwnstabiliaid. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio rai wythnosau'n ôl, lle y clywsom dystiolaeth gan y prif gwnstabiliaid, awdurdodau'r heddlu a Chymdeithas

Welsh Local Government Association, a number of questions are still outstanding. The police authorities stated that they believed that the Home Office has thus far given them contradictory advice, illustrating a lack of understanding and ability to make decisions within a very challenging timeframe, and what they called a 'dire financial situation'. The chief constables' spokesman on this occasion, Richard Brunstrom, stated that promises had been made to the public that had not been financed. The Welsh Local Government Association spokesman stated:

'I am watching a bacon sandwich fly past the window'.

Moving on to the specifics, what are your feelings about the concern that operational support for restructuring will be withdrawn by the chief constables unless the matter is resolved by 1 June? How much of this meeting was driven by their deadline? The letter that they produced after their meeting in the Assembly a few weeks ago raised what they were saying in particular, namely that it was a doomed plan without sustainable financing or a realistic timescale. To what extent will their deadline of 1 April 2008 be addressed, or are you still waiting to ascertain that?

They stated that they had yet to meet anyone from the Home Office who had any understanding of the implications on council tax payers in Wales. Have you received assurances that there will now be experts in place who will understand those implications? Paul Goggins, the previous Home Office Minister, stated categorically that once the extra money provided by the UK Government had gone, the money for the mergers would have to be found locally and the extra sum for policing would be added to the council tax. All witnesses agreed that the issue was fundamentally one of finance and that there would be a £79 million deficit by 2012-13, adding that that was by no means a worst-case scenario and that we could see the deficit rising to £100 million. To what extent do your concerns about up-front costs and the council tax address that? Can you assure us that, in addition to those points, you will be

Llywodraeth Leol Cymru, mae nifer o gwestiynau sydd heb eu hateb o hyd. Dywedodd awdurdodau'r heddlu eu bod yn credu bod y Swyddfa Gartref wedi rhoi cyngor croes iddynt hyd yma, sy'n dangos diffyg dealltwriaeth ac nad yw'n gallu gwneud penderfyniadau o fewn amserlen bur dynn, a'r hyn y cyfeiriwyd ati fel 'sefyllfa ariannol enbyd'. Dywedodd llefarydd ar ran y prif gwnstabiliaid y tro hwnnw, Richard Brunstrom, fod addewidion wedi eu gwneud i'r cyhoedd ond nad oedd cyllid ar eu cyfer. Dywedodd y llefarydd ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

Yr wyf yn edrych ar frechdan bacwn yn hedfan heibio i'r ffenestr.

Gan symud at y glo mân, beth yw eich teimladau am y pryder y bydd cymorth gweithredol i'r ad-drefnu yn cael ei dynnu'n ôl gan y prif gwnstabiliaid oni bai fod y mater yn cael ei ddatrys erbyn 1 Mehefin? Faint o'r cyfarfod hwn a oedd wedi'i sbarduno gan eu dyddiad terfynol hwy? Yr oedd y llythyr a gynhyrchwyd ganddynt yn dilyn eu cyfarfod yn y Cynulliad rai wythnosau'n ôl yn codi'r hyn yr oeddent yn ei ddweud yn benodol, sef ei fod yn gynllun nad oedd dim gobaith iddo, ac nad oedd cyllid cynaliadwy nac amserlen realistig. I ba raddau y gwneir ymdrech i roi sylw i'w dyddiad terfynol, sef 1 Ebrill 2008, neu a ydych yn dal i aros am gadarnhad o hynny?

Dywedasant nad ydynt byth wedi cyfarfod â neb o'r Swyddfa Gartref a oedd ag unrhyw ddealltwriaeth o'r goblygiadau i dalwyr y dreth gyngor yng Nghymru. A gawsoch eich sicrhau y bydd arbenigwyr ar gael erbyn hyn a fydd yn deall y goblygiadau hynny? Dywedodd Paul Goggins, y Gweinidog blaenorol yn y Swyddfa Gartref, yn hollol bendant, pan fydd yr arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU wedi mynd, y byddai'n rhaid dod o hyd i'r arian ar gyfer uno yn lleol ac y byddai'r arian pellach i dalu am blismona yn cael ei ychwanegu at y dreth gyngor. Cytunai'r tystion i gyd mai cyllid oedd y broblem yn y bôn ac y byddai diffyg o £79 miliwn erbyn 2012-13, gan ychwanegu nad y senario waethaf o bellffordd oedd hynny a'i bod yn bosibl i'r diffyg godi i £100 miliwn. I ba raddau y mae eich pryderon ynghylch costau sefydlu a'r dreth gyngor yn cynnwys hynny? A allwch ein sicrhau y

addressing these ongoing revenue and occasional capital costs that were identified to the committee?

They stated that they could not plug the financial gap without affecting operational facility and—

The Presiding Officer: Order. This is not a debate; it is a statement.

Mark Isherwood: I am trying to raise the question—

The Presiding Officer: I would like some questions, and then the Minister might be able to answer them.

Mark Isherwood: Shall I cease?

The Presiding Officer: No, if you have some questions, I would be glad to hear them.

Mark Isherwood: How will you address the concerns raised by the chief constables that, under the proposed all-Wales system, they might lose a grant from London that they would otherwise have received? How will the regional, cultural and geographical differences that were identified by the experts be addressed, in the sense that they all recognise that policing in Wales must be regional? What considerations have you had about that? Finally, how would you address the points made by the WLGA and the police authorities that, if satisfaction was not received, they would consider a judicial review, and the fact that even the chief constables stated that they had, in extremis, other alternatives?

Edwina Hart: The Member has shown the value of committees having discussions and preparing reports on these issues, because the committee is preparing a report on its concerns about the police reorganisation, and all these points will be made clear in that report, to which I will respond in some way. However, the primary responsibility for responding will lie with the Home Office, which has the responsibility for policing. As I

byddwch, yn ychwanegol at y pwyntiau hynny, yn trafod y costau refeniw parhaus a'r costau cyfalaf achlysurol y clywodd y pwyllgor amdanynt?

Maent wedi dweud na allent gau'r bwlch ariannol heb effeithio ar y gallu i weithredu a—

Y Llywydd: Trefn. Nid trafodaeth yw hyn; datganiad ydyw.

Mark Isherwood: Yr wyf yn ceisio codi'r cwestiwn—

Y Llywydd: Hoffwn glywed rhai cwestiynau, ac yna efallai y bydd y Gweinidog yn gallu eu hateb.

Mark Isherwood: A ddylwn roi'r gorau iddi?

Y Llywydd: Na ddylech, os oes gennych gwestiynau, byddwn yn falch o'u clywed.

Mark Isherwood: Sut y byddwch yn ateb y pryderon a godwyd gan y prif gwnstabiliaid, sef, o dan y system arfaethedig ar gyfer Cymru gyfan, y gallent gollu grant gan Lundain y byddent fel arall wedi'i dderbyn? Sut y bydd y gwahaniaethau rhanbarthol, diwylliannol a daearyddol y cyfeiriwyd atynt gan yr arbenigwyr yn derbyn sylw, o ran eu bod i gyd yn cydnabod bod yn rhaid i blismona yng Nghymru fod yn rhanbarthol? Pa ystyriaeth a roddwyd gennych i hynny? Yn olaf, sut y byddech yn ateb y pwyntiau a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau'r heddlu, sef, os na fydd y materion hyn yn cael eu datrys yn foddhaol, y byddent yn ystyried adolygiad barnwrol, a'r ffaith bod hyd yn oed y prif gwnstabiliaid wedi dweud bod ganddynt ddewisiadau eraill, pe bai'n mynd i'r pen?

Edwina Hart: Mae'r Aelod wedi dangos pa mor werthfawr yw bod pwyllgorau'n trafod ac yn paratoi adroddiadau am y materion hyn, oherwydd y mae'r pwyllgor yn paratoi adroddiad ar ei bryderon ynghylch ad-drefnu'r heddlu, a bydd y pwyntiau hyn i gyd yn cael eu nodi'n glir yn hwnnw, a byddaf finnau'n ymateb iddo mewn rhyw fodd. Fodd bynnag, gan y Swyddfa Gartref, sy'n gyfrifol am blismona, y bydd y prif gyfrifoldeb i

indicated to Leanne, the concerns that you have expressed, and those of the chief constables and the WLGA, are also my concerns, and the concerns of the Government. We will continue to pursue them with the Westminster Government.

It is important for us to recognise that we also have, in some ways, a variation of concerns. Welsh local government is obviously concerned about the implications of the precept in terms of the council tax and so on, and the whole equalisation issue, and so are the police authorities. We are concerned with ensuring that the standard of policing that we have in Wales is maintained if there are any changes. The chiefs are concerned about having sufficient money, following any reorganisation, for their operational requirements in order to keep the standard of policing up in Wales. All these issues will pan out when we have further discussions with the Home Office. There will also be further discussions with the police authority chairs, as I have indicated. It was clear to me that the chief constables were satisfied with the initial meeting, that they felt that they could make progress, and that they would be making further observations. I will follow up this meeting with a detailed folder of the information that went to previous Ministers to inform the new Minister, together with some key points and some of the issues that you have raised with me today. This is, therefore, very much an ongoing dialogue, and it is important to recognise that we must have cool heads on this, to try to get to a situation with which we will all be satisfied.

Mick Bates: Thank you for your statement and for your advice about having cool heads. However, cool heads were not the order of the day when our four chief constables put to the Home Office that the time given for this restructuring was insufficient.

3.30 p.m.

My first question, in view of comments made by the new Minister in the Home Office, is: in the meeting, did you feel that you were dealing with an organisation that was fit for purpose? Secondly, you have told us that a

ymateb. Fel y dywedais wrth Leanne, mae'r pryderon a leisiwyd gennych, a rhai'r prif gwnstabiliaid a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, hefyd yn bryderon gennyf finnau, ac yn bryderon gan y Llywodraeth. Byddwn yn parhau i geisio cael Llywodraeth San Steffan i roi sylw iddynt.

Mae'n bwysig inni gydnabod bod gennym, mewn rhai ffyrdd, amryw o wahanol bryderon. Yn amlwg, mae llywodraeth leol yng Nghymru yn poeni am oblygiadau'r praesept o ran y dreth gyngor ac yn y blaen, a'r holl fater o ran cyfartalu, ac felly hefyd awdurdodau'r heddlu. Yr ydym yn poeni am sicrhau bod safon y plismona yma yng Nghymru yn cael ei chynnal os bydd unrhyw newidiadau. Mae'r prif swyddogion yn poeni a fydd ganddynt ddigon o arian, yn dilyn unrhyw ad-drefnu, ar gyfer eu gofynion gweithredol er mwyn cynnal safon y plismona yng Nghymru. Bydd yr holl faterion hyn yn glir pan gynhaliwn drafodaethau pellach gyda'r Swyddfa Gartref. Cynhelir trafodaethau pellach hefyd gyda chadeiryddion awdurdodau'r heddlu, fel y crybwyllais. Yr oedd yn glir i mi fod y prif gwnstabiliaid yn fodlon gyda'r cyfarfod cyntaf, a'u bod yn teimlo bod cynnydd yn bosibl, a'u bod am gyflwyno sylwadau pellach. Yn dilyn y cyfarfod hwn, byddaf yn paratoi ffolder manwl o'r wybodaeth a roddwyd i Weinidogion blaenorol i'w roi i'r Gweinidog newydd, ynghyd â rhai pwyntiau allweddol a rhai o'r materion yr ydych wedi eu codi gyda mi heddiw. Felly, mae'r ddeialog yn sicr o barhau, ac mae'n bwysig cydnabod bod yn rhaid inni beidio â chynhyrfu ynghylch hyn, a cheisio cyrraedd sefyllfa y bydd pawb yn fodlon arni.

Mick Bates: Diolch ichi am eich datganiad ac am eich cyngor i bwylllo. Fodd bynnag, ni welsom fawr o bwyll pan ddywedodd y pedwar prif gwnstabl wrth y Swyddfa Gartref fod yr amser ar gyfer yr ailstrwythuro hwn yn annigonol.

Fy nghwestiwn cyntaf, yng ngoleuni sylwadau a wnaed gan y Gweinidog newydd yn y Swyddfa Gartref, yw: a oeddech yn teimlo, yn y cyfarfod, eich bod yn delio â sefydliad a oedd yn addas i'w ddiben? Yn ail,

detailed financial proposal will be given to the new Minister. However, I am somewhat surprised that he is not already in possession of the detailed financial statements that we have had for some months. I draw your particular attention to the statement on council tax equalisation. Only the Friday before last, at a presentation by Gwent Police, it was surprised to learn that we are still talking about an annual deficit in excess of £27 million on council tax alone. I am somewhat surprised that these details have not already been discussed.

Thirdly, we have been looking at the timetable, but no-one seems to be clear about it at the moment. Although I know that you have given us assurances in your statement that good communication systems are now in place and that the partnership is working, I wonder whether you will bring this timetable before us before it is decided upon. Given our experience of the initial statement and the haste with which this matter has been conducted, I am sure that many of us suspect that we may be excluded at the end, despite your valiant efforts, with your cool head, to ensure that Wales's best interests are protected.

Edwina Hart: I would love to comment on the structures of the UK Government, but I would not take it too kindly if it was to comment on the structures of the Welsh Assembly Government, so I will bite my lip on this occasion regarding any comments on the Home Office. I think that we can say that the Home Office has been through a period of great distress and turmoil in recent months, which has been quite obvious from the newspapers. However, we have to deal with what we have to deal with and, on a political level, I feel that the meeting was constructive, as did the four chief constables.

I am conscious of the fact that information has gone to the Home Office from various parties across Wales. We have fed in information as have the chiefs. I was indicating in my response to Mark that I want to ensure that the new Minister has a full list of the correspondence that has come from us on all the various points, so I will put it into a

yr ydych wedi dweud wrthym y rhoddir cynnig ariannol manwl i'r Gweinidog newydd. Fodd bynnag, yr wyf yn synnu braidd nad yw'r datganiadau ariannol manwl sydd gennym ni ers rhai misoedd ganddo eisoes. Tynnaf eich sylw yn arbennig at y datganiad am gyfartalu'r dreth gyngor. Wythnos i ddydd Gwener diwethaf, mewn cyflwyniad gan Heddlu Gwent, yr oedd yn synnu o ddeall ein bod yn dal i sôn am ddiffyg blynyddol o fwy na £27 miliwn ar y dreth gyngor yn unig. Yr wyf yn synnu braidd na thrafodwyd y manylion hyn eisoes.

Yn drydydd, yr ydym wedi bod yn edrych ar yr amserlen, ond nid oes neb fel petaent yn glir ynghylch hynny ar hyn o bryd. Er y gwn eich bod wedi rhoi sicrwydd i ni yn eich datganiad fod systemau cyfathrebu da bellach ar waith a bod y bartneriaeth yn gweithio, tybed a fyddwch yn dwyn yr amserlen hon ger ein bron cyn penderfynu arni? O gofio ein profiad gyda'r datganiad cyntaf, a'r brys a ddangoswyd wrth drin y mater hwn, yr wyf yn sicr bod llawer ohonom yn amau mai cael ein cau allan fydd ein hanes yn y diwedd, er gwaethaf eich ymdrechion glew, gyda'ch tymer bwylllog, i sicrhau y gwarchodir buddiannau Cymru.

Edwina Hart: Byddwn wrth fy modd yn gwneud sylwadau am strwythurau Llywodraeth y DU, ond ni fyddwn yn falch iawn petai hithau'n gwneud sylwadau am strwythurau Llywodraeth Cynulliad Cymru, felly brathu fy nhafod a wnaif y tro hwn o ran unrhyw sylwadau am y Swyddfa Gartref. Yr wyf yn meddwl y gallwn ddweud bod y Swyddfa Gartref wedi bod drwy gyfnod o gryn loes a chythrwfl dros y misoedd a aeth heibio, ac mae hynny wedi bod yn berffaith amlwg oddi wrth y papurau newydd. Fodd bynnag, rhaid inni ddelio â'r hyn sydd gennym, ac ar lefel wleidyddol, teimlaf i'r cyfarfod fod yn un adeiladol; dyna hefyd oedd teimlad y pedwar prif gwnstabl.

Yr wyf yn ymwybodol o'r ffaith bod gwybodaeth wedi mynd i'r Swyddfa Gartref gan wahanol gyrff ledled Cymru. Yr ydym ni a'r penaethiaid wedi cyflwyno gwybodaeth. Dweud yr oeddwn wrth ateb Mark fy mod am ofalu bod gan y Gweinidog newydd restr lawn o'r ohebiaeth a ddaeth gennym ni ar yr holl amryfal bwyntiau, felly byddaf yn ei rhoi

certain easy-reading format so that he is fully briefed on our point of view before he comes to meet the police authority chairs. I think that that is the courteous way of dealing with this matter, with a new Minister coming in.

The timetable is not mine—it was outlined by the Home Office. I can only make the necessary representations on behalf of the Welsh Assembly Government and, as always on this matter, on behalf of the National Assembly, and I will continue to do so. I will have further opportunities to engage in discussion when the Minister comes to visit in July. It is important that the committee keeps up its good work and that its report is produced on time, as that will help in our discussions with the Home Office.

The Home Office has the primary responsibility for policing. We have a role because we are interested in the finances and the way in which the money comes to us in the police formula. We are the two interested parties, but our concern is also for the taxpayers in Wales and for the service provision, which will have a knock-on effect on a lot of Assembly Government work in other areas. I can assure you that my not being able to answer your questions, Mick, is not satisfactory and I appreciate that. I am trying to maintain a balance, get the information flow going, keep the discussion going, and keep the Assembly firmly in play in these discussions.

Ieuan Wyn Jones: While I can understand, to a certain extent, the reluctance of the Minister to comment on the recent troubles in the Home Office, I want to know how confident she is that a department described by the Home Secretary as ‘dysfunctional’ and ‘not fit for purpose’ should be in charge of Welsh police restructuring.

Edwina Hart: I think that the Home Secretary’s words in describing his new department stand for themselves. I can say only that I hope that the new Minister for Policing, Security and Community Safety, whom I have met and with whom I had a

ar fformat hawdd ei ddarllen fel bod ganddo wybodaeth lawn am ein safbwynt cyn iddo ddod i gyfarfod â chadeiryddion yr awdurdodau heddlu. Tybiaf mai hynny yw’r ffordd gwrtais o ddelio â’r mater hwn, wrth i Weinidog newydd ddod i’w swydd.

Nid fy amserlen i ydyw—fe’i hamlinellwyd gan y Swyddfa Gartref. Y cyfan y gallaf i wneud yw cyflwyno’r sylwadau angenrheidiol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ac, fel bob amser yn y mater hwn, ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, a byddaf yn parhau i wneud hynny. Caf gyfleoedd eraill i drafod pan fydd y weinidog yn ymweld ym mis Gorffennaf. Mae’n bwysig i’r pwyllgor ddal ati â’i waith da a bod ei adroddiad yn cael ei gynhyrchu mewn da bryd, gan y bydd hynny o gymorth yn ein trafodaethau gyda’r Swyddfa Gartref.

Gan y Swyddfa Gartref y mae’r prif gyfrifoldeb dros blismona. Mae gennym ni rôl am fod gennym ddiddordeb yn y cyllid a’r modd y daw’r arian inni yn fformiwlâr heddlu. Ni yw’r ddwy ochr sydd â buddiant, ond yr ydym hefyd yn ymboeni am y trethdalwyr yng Nghymru ac ynghylch darparu’r gwasanaeth, a fydd yn cael effaith yn ei dro ar lawer o waith Llywodraeth y Cynulliad mewn meysydd eraill. Gallaf eich sicrhau nad yw’r ffaith fy mod yn methu ag ateb eich cwestiynau, Mick, yn foddhaol, ac yr wyf yn sylweddoli hynny. Yr wyf yn ceisio cadw cydbwysedd, peri bod gwybodaeth ar gael, dal i drafod, a sicrhau bod y Cynulliad yn bendant yn rhan o’r trafodaethau hyn.

Ieuan Wyn Jones: Er y gallaf, i ryw raddau, ddeall amharodrwydd y Gweinidog i wneud sylwadau am drafferthion diweddar y Swyddfa Gartref, carwn wybod pa mor hyderus yw hi ynghylch bod adran a ddisgrifiwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref fel un ‘gamweithredol’ a ‘heb fod yn addas i’r diben’ yn gofalu am ailstrwythuro heddluoedd Cymru.

Edwina Hart: Credaf fod geiriau’r Ysgrifennydd Cartref wrth ddisgrifio ei adran newydd yn cyfleu’r hyn y maent i fod i’w gyfleu. Y cyfan a ddywedaf yw fy mod yn gobeithio y gall y Gweinidog newydd dros Blismona, Diogelwch a Diogelwch

constructive dialogue, will be able to take this agenda forward satisfactorily. I am not saying that we will have all our own way on this matter, or that everyone will be happy at the end of the day, but we do want a transparent and open process and the necessary guarantees on money and structures.

Nick Bourne: As the Minister is aware, I have been keen throughout to lend her support, as has my party. That continues to be our position and I am grateful that she has made this statement.

The Minister has always been open in this process, and I appreciate that this matter is not currently devolved. Points that were reasonably made by the leader of the opposition left the First Minister seeming to think that this was akin to asking for a free Wales army and navy—I find that quite extraordinary. The Home Office's handling of this matter can only strengthen the calls for devolution and the transfer of this particular function.

However, moving onto the substance of the statement, it is certainly true to say that there has been distress and turmoil in the Home Office, and the Minister glided over that quite sensibly. However, in a positive way, Peter Hain has issued statements on this issue at Cabinet level, and the Minister has made statements, but I do not think that we have heard a statement from the First Minister on this key issue for Wales. Would it not strengthen your hand—and that of us all in wanting this finance issue to be resolved, on which we stand united—if the three of you were to adopt a joint approach, perhaps with our support, as I would be only too pleased to attend any meeting with Tony McNulty, John Reid or whoever to make clear that there is a united approach on this issue? I am sure that other opposition leaders would respond positively to that. We have a united interest in this, as we do on the financial issue and in terms of getting some delay in this at the very least. If this does strengthen your hand, it is a positive proposal, which I hope the First Minister is listening to. This is such an important issue that we must have an all-

Cymunedol, yr wyf wedi cyfarfod ag ef a chael deialog adeiladol gydag ef, fwrw ymlaen yn foddhaol â'r agenda hon. Nid dweud yr wyf y cawn ein ffordd ein hunain yn gyfan gwbl yn hyn o beth, nac y bydd pawb yn hapus yn y pen draw, ond yr ydym am gael proses dryloyw ac agored a'r gwarantau angenrheidiol ynghylch arian a strwythurau.

Nick Bourne: Fel y gŵyr y Gweinidog, yr wyf wedi bod yn awyddus drwy'r amser i'w chefnogi; felly hefyd fy mhlaidd. Dyna ein safbwynt o hyd ac yr wyf yn ddiolchgar ei bod wedi gwneud y datganiad hwn.

Mae'r Gweinidog yn wastad wedi bod yn agored yn y broses hon, a sylweddolaf nad yw'r mater hwn wedi ei ddatganoli ar hyn o bryd. Yr oedd pwyntiau a wnaed yn rhesymol gan arweinydd yr wrthblaid yn peri bod y Prif Weinidog fel petai'n meddwl bod hyn yn gyfystyr â gofyn am fyddin a llynges i Gymru rydd—i mi, mae hynny'n hollol anhygoel. Ni all y modd y mae'r Swyddfa Gartref wedi ymdrin â'r mater hwn wneud dim ond cryfhau'r galwadau am ddatganoli a throsglwyddo'r swyddogaeth arbennig hon.

Fodd bynnag, o droi at sylwedd y datganiad, yn sicr mae'n wir dweud bod loes a chythrwfl wedi bod yn y Swyddfa Gartref, a bu'r Gweinidog yn gall wrth sgleftrio dros hynny. Fodd bynnag, a bod yn gadarnhaol, cyhoeddodd Peter Hain ddatganiadau am y mater hwn ar lefel Cabinet, a gwnaeth y Gweinidog ddatganiadau, ond nid wyf yn credu inni glywed datganiad gan y Prif Weinidog ar y mater allweddol hwn i Gymru. Oni fyddai'n cryfhau eich dadl—a dadl pawb ohonom sydd am i fater yr arian gael ei ddatrys, pwnc yr ydym yn unedig arno—pe gallech eich tri fabwysiadu dull o ymdrin â hyn ar y cyd, efallai gyda'n cefnogaeth ni, gan y byddwn i'n fodlon iawn dod i unrhyw gyfarfod gyda Tony McNulty, John Reid neu pwy bynnag y bo er mwyn gwneud yn glir ein bod yn unedig yn hyn o beth? Yr wyf yn siŵr y byddai arweinwyr y gwrthbleidiau eraill yn ymateb yn gadarnhaol i hynny. Mae gennym ddiddordeb ar y cyd yn hyn, fel sydd gennym yn y mater ariannol ac o ran sicrhau rhywfaint o oedi ar y mater o leiaf. Os yw hyn yn cryfhau eich dadl, mae'n gynnig cadarnhaol, a gobeithio bod y Prif Weinidog

Assembly approach.

yn gwranddo arno. Mae hyn yn bwnc mor bwysig fel bod yn rhaid i'r Cynulliad cyfan siarad ag un llais.

Edwina Hart: I thank you for your comments on taking an all-Assembly approach. I will certainly consider your offer, which, I am sure, is also made on behalf of the other party leaders, to ensure that there is unity of approach on some of the issues of police reorganisation. The First Minister fully supports the action that I am taking; I discuss this matter with him regularly, and he is fully behind the line that we have taken on all the issues of police reorganisation.

Edwina Hart: Diolch am eich sylwadau ynghylch gweithredu fel Cynulliad cyfan. Byddaf yn sicr yn ystyried eich cynnig sydd, yr wyf yn sicr, yn cael ei wneud ar ran arweinwyr y pleidiau eraill hefyd, i ofalu ein bod yn siarad ag un llais ar rai o'r materion ynglŷn ag ad-drefnu'r heddlu. Mae'r Prif Weinidog yn cefnogi'n llawn y camau a gymeraf; byddaf yn trafod y mater hwn gydag ef yn rheolaidd, ac mae'n llwyr gefnogol i'r agwedd a gymerwyd gennym ar bob pwnc yn ymwneud ag ad-drefnu'r heddlu.

You made the point about the Secretary of State for Wales, but, of course, the Wales Office is simply a conduit for these matters. It can put forward the views of the Home Office as well as those of the chief constables and the police authorities. It does not have any locus in the policy agenda here, though it is welcome to hear Peter Hain now saying what the Assembly said some time ago with regard to the issue of where the costs should lie. That has been helpful.

Fe wnaethoch y pwynt am Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ond wrth gwrs, cyfrwng yn unig i gyfleu'r materion hyn yw Swyddfa Cymru. Gall gyflwyno barn y Swyddfa Gartref yn ogystal â barn y prif gwnstabiaild a'r awdurdodau heddlu. Nid oes iddi ddim lle yn yr agenda bolisi yma, er mai da yw clywed Peter Hain bellach yn dweud yr hyn a ddywedodd y Cynulliad beth amser yn ôl ynghylch pwy a ddylai ysgwyddo'r costau. Bu hynny o gymorth.

**Cymeradwyo Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi
Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006
Approval of the Registration of Fish Buyers and Sellers and Designation of Fish
Auction Sites (Wales) Regulations 2006**

Motion (NDM3067): to propose that

Cynnig (NDM3067): cynnig bod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

considers the principle of the Registration of Fish Buyers and Sellers and Designation of Fish Auction Sites (Wales) Regulations 2006, a copy of which was laid in the Table Office on 4 May 2006.

yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mai 2006.

Amendment 1 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 1 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

expresses concern that purchasers of direct sale fish (including hotels and restaurants) from vessels of less than 10m will have to submit sales notes for all purchases and believes that this onerous practice will discourage such businesses from directly

yn mynegi pryder y bydd yn rhaid i'r rhai sy'n prynu pysgod yn uniongyrchol (gan gynnwys gwestai a bwytai) o gychod dan 10m o hyd gyflwyno nodiadau gwerthiant ar gyfer pob pryniant, ac yn credu y bydd yr arfer llafurus hwn yn darbwylo busnesau o'r fath i

buying supplies in the future.

beidio â phrynu cyflenwadau uniongyrchol yn y dyfodol.

Amendment 2 in the name of Lisa Francis.
Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 2 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

expresses concern that purchasers of direct sale fish from vessels under 10m will not be able to determine any accurate way of providing sales notes to fisheries departments as there is no statutory requirement for vessels of under 10m to submit landing data and the patterns of fishing are so diverse and unpredictable.

yn mynegi pryder na fydd y rhai sy'n prynu pysgod yn uniongyrchol o gychod 10m o hyd yn gallu canfod unrhyw ffordd ddilys o ddarparu nodiadau gwerthiant i adrannau pysgodfeydd gan nad oes unrhyw ofyniad statudol ar gychod dan 10m o hyd i gyflwyno data glanio a bod patrymau pysgota mor amrywiol ac anodd eu rhagweld.

Amendment 3 in the name of Lisa Francis.
Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 3 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

expresses concern that purchasers of direct sale fish (including hotels and restaurants) will be required to register and will incur costs relating to the completion of paperwork which currently cannot be assessed.

yn mynegi pryder y bydd yn rhaid i'r rhai sy'n prynu pysgod yn uniongyrchol (gan gynnwys gwestai a bwytai) gofrestru, a thalu'r costau sy'n ymwneud â chwblhau gwaith papur na ellir ei asesu ar hyn o bryd.

Amendment 4 in the name of Lisa Francis.
Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 4 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

expresses concern that purchasers of direct sale fish from vessels of under 10m who have not been able to provide appropriate information to fisheries departments regarding their purchases could face fines of up to £50,000.

yn mynegi pryder y gallai'r rhai sy'n prynu pysgod yn uniongyrchol o gychod dan 10m o hyd ac yn methu â rhoi'r wybodaeth briodol i adrannau pysgodfeydd wynebu dirwyon o hyd at £50,000.

Motion (NDM3068): to propose that

Cynnig (NDM3067): cynnig bod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office on 16 May 2006 in relation to the draft the Registration of Fish Buyers and Sellers and Designation of Fish Auction Sites (Wales) Regulations 2006; and

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006; a

2. approves that the draft the Registration of Fish Buyers and Sellers and Designation of Fish Auction Sites (Wales) Regulations 2006 be made in accordance with:

2. yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) the draft laid in the Table Office on 4 May 2006;

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mai 2006; a

b) the memorandum of corrections laid in the Table Office on 16 May 2006; and

b) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2006; ac

c) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 9 May 2006.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3, a 4 i NDM3067 yn enw Lisa Francis.

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I propose that

the National Assembly for Wales:

considers the principle of the Registration of Fish Buyers and Sellers and Designation of Fish Auction Sites (Wales) Regulations 2006, a copy of which was laid in the Table Office on 4 May 2006. (NDM3067)

I propose that

the National Assembly for Wales:

Mae swyddfeydd post yn eithriadol o bwysig yn gymdeithasol i gymunedau lleol mewn ardaloedd gwledig a threfol ac yn ardaloedd y Cymoedd yng Nghymru. Maent yn gweithredu fel canolbwynt a darparant wasanaethau gwerthfawr i lawer o bobl, yn enwedig yr henoed, aelodau mwyaf bregus y gymdeithas a'r rhai sy'n ei chael yn anodd codi allan, boed hynny am resymau'n ymwneud ag iechyd neu oherwydd diffyg cludiant. Mae swyddfeydd post yn bwysig iawn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

Post offices are currently facing grave financial pressures, and their long-term future is uncertain. The Post Office has lost the television licence contract and faces losing a great deal of business once the post office card account ceases in 2010. Furthermore, the UK Government's plans to open passport offices will take yet more business away from our beloved post offices. It appears that the Post Office is slowly but surely being deprived of its functions and business which make it a viable concern. One might say that the Government is imposing death by 1,000 cuts.

Ar hyn o bryd, mae swyddfeydd post yn wynebu pwysau ariannol dybryd, ac mae eu dyfodol hirdymor yn ansicr. Mae Swyddfa'r Post wedi colli'r contract trwyddedau teledu ac mae'n wynebu colli llawer iawn o fusnes wedi i gyfrif cerdyn swyddfa'r post ddod i ben yn 2010. At hynny, bydd cynlluniau Llywodraeth y DU i agor swyddfeydd paspartau yn mynd â mwy fyth o fusnes oddi ar ein swyddfeydd post annwyl. Mae'n ymddangos bod Swyddfa'r Post yn araf deg a fesul tipyn yn cael ei hamddifadu o'i swyddogaethau a'i busnes sy'n ei gwneud yn fusnes dichonadwy. Gellid dweud bod y Llywodraeth yn peri iddi farw drwy 1,000 o doriadau.

4.00 p.m.

The post office card account is important for a number of reasons. It enables those without a bank account to withdraw benefits and pensions in a convenient manner. It also represents a significant chunk of post offices' business. At a time when many post offices in Wales are struggling, more closures will be inevitable if this contract is lost.

It is well worth remembering that every £1 spent on a post office card account contributes £3 to the economy of our rural communities. It is a low-cost way of helping to sustain areas which have already lost many services. As I have often said before, the Assembly Government has a duty to sustainable development. What could be more sustainable than retaining, rather than losing, post offices?

The National Federation of SubPostmasters opposes the ending of the card account and has stated that, if it does cease in 2010, it will threaten 'the viability of thousands of post offices'. I hope that you all have your posters on display—as does the Assembly post office.

Age Concern has put on record its opposition to the ending of the post office card account. The ending of the card account is even opposed by many Labour MPs. Kate Hoey's early day motion has gained the support of 332 MPs—well over half of those eligible to sign—and Kate Hoey says:

'Now, more than ever, Government needs to take notice of what is happening to the nation's dearly loved network of post offices. There is universal support for viable and sustainable post offices. Removing services and forcing people to go elsewhere flies in the face of previous commitments from Government, and will destroy the network'.

Our motion was designed to try to get the widest possible support in the Chamber, which is why we also tabled two

Mae cyfrif cerdyn swyddfa'r post yn bwysig am nifer o resymau. Mae'n galluogi pobl nad oes ganddynt gyfrif banc i godi budd-daliadau a phensiynau mewn modd cyfleus. Mae hefyd yn rhan sylweddol o fusnes y swyddfeydd post. Ar adeg pan fo llawer o swyddfeydd post yng Nghymru mewn trafferthion, bydd rhagor yn siŵr o gau os collir y contract hwn.

Mae'n werth cofio bod pob £1 a werir ar gyfrif cerdyn swyddfa'r post yn cyfrannu £3 at economi ein cymunedau gwledig. Mae'n ddull cost isel o helpu i gynnal ardaloedd sydd eisoes wedi colli llawer o wasanaethau. Fel y dywedais sawl gwaith o'r blaen, mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad sicrhau datblygu cynaliadwy. Beth allai fod yn fwy cynaliadwy na chadw swyddfeydd post, yn hytrach na'u colli?

Mae Ffederasiwn Cenedlaethol yr Isbostfeistri yn erbyn rhoi terfyn ar gyfrif y cerdyn ac mae wedi datgan, os rhoddir terfyn arno yn 2010, y bydd hynny'n bygwth 'dichonoldeb miloedd o swyddfeydd post'. Gobeithiaf eich bod i gyd yn dangos eich posterï—fel y mae swyddfa bost y Cynulliad yn gwneud.

Mae Age Concern wedi nodi ei wrthwynebiad i derfynu cyfrif cerdyn swyddfa'r post. Mae hyd yn oed llawer o Aelodau Seneddol Llafur yn erbyn terfynu cyfrif y cerdyn. Mae 332 o Aelodau Seneddol yn cefnogi cynnig cynnar-yn-y-dydd Kate Hoey—tipyn mwy na hanner y rhai sy'n gymwys i arwyddo—a dywed Kate Hoey:

Yn awr, yn fwy nag erioed o'r blaen, mae angen i'r Llywodraeth sylwi ar yr hyn sy'n digwydd i'r rhwydwaith swyddfeydd post sydd mor annwyl gan y genedl. Mae cefnogaeth gyffredinol i swyddfeydd post dichonadwy a chynaliadwy. Mae diddymu gwasanaethau a gorfodi pobl i fynd i rywle arall yn groes i ymrwymïadau blaenorol o eiddo'r Llywodraeth, a bydd yn dinistrio'r rhwydwaith.

Lluniwyd ein cynnig er mwyn ennyn y gefnogaeth ehangaf posibl yn y Siambr, a dyna pam y bu inni gyflwyno dau welliant

amendments. Our first amendment instructs the Welsh Assembly Government to lobby the Westminster Government to retain the post office account. We urge the Assembly Government to put on record its support for the continuation of the card account, or, if it does not support its continuation, to say so clearly so that everyone knows what it thinks.

Our second amendment regrets the lack of joined-up thinking within the Westminster Government that has resulted in the reduction of the number of local post offices in rural, urban and Valleys communities in Wales. It seems a crazy situation that one UK Government department is subsidising the post office network and trying to achieve a viable future for it while other departments take business and functions away from it. It makes you wonder what the Government is doing when it comes to joined-up thinking.

Jeff Cuthbert *rose*—

Mick Bates: I will not give way.

Jeff Cuthbert: Twice rejected.

Mick Bates: Do not worry, Jeff; you will have an opportunity in a minute.

In Wales, the post office development fund set up by the partnership Government assisted 106 post offices between 2002 and 2004 to remain open. We wish to see that fund return.

I urge the Welsh Assembly Government to give post offices and postmasters across Wales hope and confidence for a viable, sustainable future, to reopen the post office development fund and to aggressively lobby the UK Government to retain the card account.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiad y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 1: cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

hefyd. Mae ein gwelliant cyntaf yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i lobio Llywodraeth San Steffan i gadw cyfrif swyddfa'r post. Yr ydym yn annog Llywodraeth y Cynulliad i fynegi ei chefnogaeth i gadw cyfrif y cerdyn, neu, os nad yw'n cefnogi ei gadw, i ddweud hynny'n glir fel y bydd pawb yn gwybod beth y mae'n ei feddwl.

Mae ein hail welliant yn gresynu at y diffyg o ran meddwl yn gydlynol yn Llywodraeth San Steffan sydd wedi arwain at leihau nifer y swyddfeydd post lleol yng nghymunedau gwledig a threfol Cymru ac yn y Cymoedd. Mae'n ymddangos yn sefyllfa orffwyll bod un adran o Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi cymhorthdal i rwydwaith y swyddfeydd post ac yn ceisio sicrhau dyfodol dichonadwy iddo tra bo adrannau eraill yn dwyn busnes a swyddogaethau oddi arno. Mae'n peri i rywun feddwl tybed beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud o ran meddwl yn gydlynol.

Jeff Cuthbert *a gododd*—

Mick Bates: Nid ildiaf.

Jeff Cuthbert: Fe'm gwrthodwyd ddwywaith.

Mick Bates: Na phoener, Jeff; cewch gyfle mewn munud.

Yng Nghymru, bu i'r gronfa datblygu swyddfeydd post a sefydlwyd gan y Llywodraeth bartneriaeth gynorthwyo 106 o swyddfeydd post i aros ar agor rhwng 2002 a 2004. Hoffem weld y gronfa honno'n dychwelyd.

Anogaf Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi gobaith a hyder i swyddfeydd post a phostfeistri ledled Cymru am ddyfodol dichonadwy, cynaliadwy, i ailagor y gronfa datblygu swyddfeydd post a mynd ati i lobio Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn daer dros gadw cyfrif y cerdyn.

Ieuan Wyn Jones: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 1: insert as new point 1 and renumber subsequent points accordingly:

yn cydnabod y swyddogaeth hollbwysig y mae swyddfeydd post yn ei chwarae yn ein cymunedau.

recognises the vital role post offices play in our communities.

Cynigiaf welliant 7. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 7. Add a new point at the end of the motion:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd ati ar unwaith i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gadw cyfrif cerdyn swyddfa'r post y tu hwnt i 2010.

calls on the Welsh Assembly Government to put immediate pressure on the UK Government to retain the post office card account beyond the 2010 deadline.

Yr wyf yn falch o'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon, gan fy mod wedi cael cyfle i gyflwyno dadl fer ar y mater ychydig wythnosau yn ôl. Gwn fod diddordeb mawr ar draws y Cynulliad ynglŷn â dyfodol swyddfeydd post ym mhob rhan o Gymru.

I am pleased to have the opportunity to contribute to this debate as I had an opportunity to present a short debate on the issue a few weeks ago. I know that there is great interest in the Assembly in the future of post offices in all parts of Wales.

Mae gwelliant cyntaf Plaid Cymru yn cydnabod pwysigrwydd rôl swyddfeydd post yn ein cymunedau. Pwysleisiaf bwysigrwydd y gosodiad hwnnw. Mae'n hawdd anghofio'r gwaith pwysig y mae swyddfeydd post yn ei wneud mewn cymunedau gwledig a threfol. Mewn nifer o ardaloedd gwledig erbyn hyn, y swyddfa bost yw'r unig wasanaeth sydd ar gael; mae'r banciau i gyd wedi diflannu, ac mae'r gwasanaethau eraill i gyd wedi mynd, a dim ond y swyddfa bost sydd ar ôl. Am ba hyd y byddant yn gallu aros, gyda'r bygythiad mawr sy'n eu hwynebu?

The first Plaid Cymru amendment acknowledges the importance of the role of post offices in our communities. I emphasise the importance of that statement. It is easy to forget the important work that post offices do in rural and urban communities. In many rural areas now, the post office is the only service available; the banks have all gone, and the other services have all gone, and only the post office is left. How long will it be able to remain, with the huge threat that faces it?

Yr oeddwn wedi synnu braidd nad oedd y cynnig gwreiddiol yn sôn am gadw cerdyn cyfrif swyddfa'r post wedi 2010, er fy mod yn cydnabod bellach bod gwelliant gan y Democratiaid Rhyddfrydol eu hunain i sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae'n bwysig ein bod yn pwysleisio heddiw bwysigrwydd cadw'r cerdyn hwnnw ar ôl 2010.

I was rather surprised that the original motion did not refer to retaining the post office card account after 2010, although I acknowledge now that there is an amendment now from the Liberal Democrats themselves to ensure that that happens. It is important that we emphasise today the importance of retaining that card after 2010.

It is vital that the Assembly is united in the purpose of retaining the post office card account. It is crucial that that happens, because many of our post offices, particularly in rural areas, but also in many urban areas, depend on the income stream that the card provides. The Department for Work and Pensions is considering all sorts of schemes to assist in the future, but the reality is that the only certain income stream that will maintain that network is if people are allowed to use the post office to collect their pensions and benefits. That does not mean that we

Mae'n hanfodol bod y Cynulliad yn unedig o ran y nod o gadw cyfrif cerdyn swyddfa'r post. Mae'n hanfodol sicrhau hynny, oherwydd bod llawer o'n swyddfeydd post, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig, ond hefyd mewn llawer o ardaloedd trefol, yn dibynnu ar yr incwm a geir drwy'r cerdyn. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n ystyried pob mathau o gynlluniau i'w cynorthwyo at y dyfodol, ond y gwir yw mai'r unig ffynhonnell incwm sicr a wnaiff gynnal y rhwydwaith yw caniatáu i bobl ddefnyddio'r swyddfa bost i gasglu eu pensiynau a'u budd-

should forget what is happening here—this is a Labour Government that is deciding to close our post offices. I find it galling that, on the one hand, Labour MPs are voting through proposals that will close our post offices, and yet, on the other hand, they are being called the saviours of the post offices in their communities. That kind of hypocrisy is abhorrent to many of us. We want MPs to vote against their own Government if they believe that the post offices are important. That is the kind of support that we want for our post offices.

Finally, I will mention two other matters that are crucial to this debate—and I understand the constraints on time. First, I urge all Assembly Members to write to the Department for Work and Pensions on retaining the post office card account—that is the strongest message that you can give—as well as voting for these amendments today, and making it clear that the post office card account must be retained. Secondly, to come back to this community provision, many of our communities will depend on the Assembly to support them in their campaign. Rather than doing something that delays it once again, which I am afraid is what the Labour Government amendment does, we want a united front—save our post office card account.

Mark Isherwood: I propose the following amendments in the name of Lisa Francis. Amendment 2: In point 2, after ‘postmasters’ insert: ‘and postmistresses’.

I propose amendment 4. Add a new point at the end of the motion:

recognises the important role of post offices in sustaining communities both urban and rural and in providing an essential service to people throughout Wales, particularly the elderly and vulnerable.

I declare that my wife works in a sub-post office in Pontybodkin, Flintshire.

I do not know how Labour Members,

daliadau. Nid yw hynny'n golygu y dylem anghofio'r hyn sy'n digwydd yn hyn o beth—dyma i chi Lywodraeth Lafur sy'n penderfynu cau ein swyddfeydd post. Mae'n fy nghythraddo, ar y naill law, fod Aelodau Seneddol Llafur yn pleidleisio dros gynigion i gau ein swyddfeydd post, ond eto, ar y llaw arall, fe'u gelwir yn waredwyr y swyddfeydd post yn eu cymunedau. Mae'r fath ragrith yn atgas gan lawer ohonom. Yr ydym am i Aelodau Seneddol bleidleisio yn erbyn eu Llywodraeth eu hunain os ydynt yn credu bod y swyddfeydd post yn bwysig. Dyna'r math o gefnogaeth y mae arnom ei eisiau i'n swyddfeydd post.

Yn olaf, crybwyllaf ddau fater arall sy'n hanfodol i'r ddadl hon—ac yr wyf yn deall y cyfyngiadau o ran amser. Yn gyntaf, anogaf bob Aelod Cynulliad i ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch cadw cyfrif cerdyn swyddfa'r post—dyna'r neges gryfaf y gallwch ei rhoi—yn ogystal â phleidleisio dros y gwelliannau hyn heddiw, a'i gwneud yn glir bod rhaid cadw cyfrif cerdyn swyddfa'r post. Yn ail, o droi at y ddarpariaeth gymunedol unwaith yn rhagor, bydd llawer o'n cymunedau'n dibynnu ar y Cynulliad i'w cefnogi yn eu hymgyrch. Yn hytrach na gwneud rhywbeth a fydd yn ei ohirio unwaith eto, sef yr hyn y mae gwelliant y Llywodraeth Lafur yn ei wneud mae arnaf ofn, yr ydym am sicrhau ffrynt unedig—rhaid achub cyfrif cerdyn swyddfa'r post.

Mark Isherwood: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Lisa Francis. Gwelliant 2: Ym mhwynt 2, ar ôl ‘postfeistri’ ychwanegu ‘a phostfeistresi’.

Cynigiau welliant 4. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cydnabod swyddogaeth bwysig swyddfeydd post o ran cynnal cymunedau trefol a gwledig a darparu gwasanaeth hanfodol i bobl ledled Cymru, yn arbennig yr henoed a phobl sy'n agored i niwed.

Datganaf fod fy ngwraig yn gweithio mewn is-swyddfa bost ym Mhontybodcyn, sir y Fflint.

Ni wn sut y gall Aelodau Llafur, sy'n

cynically campaigning against post office closures in their own constituencies, can look themselves in the mirror. We must remind people that the UK Labour Government is the majority shareholder in the Royal Mail group. Speaking in the 2003 Westminster Hall debate on post office closures in Wales, the then shadow Secretary of State for Wales, Bill Wiggin, asked why the Post Office, which was making a profit of £50 million a year, has, since 1997, moved towards this closure programme. He added that the Government's move to the direct payments of benefits and pensions, and an automated credit-transfer policy, was resulting in the loss of £400 million to a total Post Office income. The Government's threat to the financial viability of our post offices has been backed up with failing and unhelpful subsidy programmes. It is providing £150 million a year, but the Post Office is losing £400 million a year. The payment of pensions and benefits is a necessary Post Office function, making up 40 per cent of branch income, but the Government has taken that away. Its response to the large income gap is insufficient, and it has a minimal impact on Post Office regeneration and survival, hence the recovery programme and the cuts imposed. That is why post offices are closing.

The £150-million-a-year social network payment ends in 2008. We are told that what happens after that is currently under review, but it is feared that the subsidy will be reduced at the direction of the Department of Trade and Industry.

4.10 p.m.

The Welsh post office development fund had made £4.1 million of grant support available to 106 post offices in Wales when the fund closed in July 2004. The Minister, Edwina Hart, has stated that the fund will not be reopened for applicants until the UK Government and Post Office Ltd have clarified the long-term future of rural post offices. The risk is that this could be too little, too late, with post offices in Wales

ymgyrchu'n sinigaidd yn erbyn cau swyddfeydd post yn eu hetholaethau eu hunain, edrych arnynt eu hunain yn y drych. Mae'n rhaid inni atgoffa pobl mai Llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yw cyfranddeiliad mwyafrifiol grŵp y Post Brenhinol. Pan siaradodd yn Neuadd San Steffan yn 2003 mewn dadl ynghylch cau swyddfeydd post yng Nghymru, gofynnodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru'r wrthblaid y pryd hynny, Bill Wiggin, pam mae Swyddfa'r Post, a oedd yn gwneud elw o £50 miliwn y flwyddyn, wedi symud tuag at y rhaglen gau hon ers 1997. Ychwanegodd fod penderfyniad y Llywodraeth i dalu budd-daliadau a phensiynau'n uniongyrchol, a pholisi trosglwyddo credyd yn awtomatig, yn achosi i Swyddfa'r Post golli £400 miliwn o incwm. Ategwyd bygythiad y Llywodraeth i ddichonoldeb ariannol ein swyddfeydd post gan raglenni o gymorthdaliadau diffygiol a di-fudd. Mae'n darparu £150 miliwn y flwyddyn, ond mae Swyddfa'r Post yn colli £400 miliwn y flwyddyn. Mae talu pensiynau a budd-daliadau'n un o swyddogaethau angenrheidiol Swyddfa'r Post, sy'n rhoi 40 y cant o incwm y canghennau, ond mae'r Llywodraeth wedi dwyn hynny oddi arnynt. Mae ei hymateb i'r bwlch incwm anferth yn annigonol, ac ychydig iawn o effaith a gaiff ar adfywio Swyddfa'r Post a'i goroesiad, gan esgor ar y rhaglen adfer a'r toriadau sydd wedi eu gorfodi. Dyna pam y mae swyddfeydd post yn cau.

Bydd taliad y rhwydwaith cymdeithasol o £150 miliwn y flwyddyn yn dod i ben yn 2008. Dywedir bod yr hyn sy'n digwydd wedi hynny'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, ond ofnir y caiff y cymhorthdal ei leihau yn ôl cyfarwyddyd yr Adran Masnach a Diwydiant.

Yr oedd cronfa datblygu swyddfeydd post Cymru wedi darparu gwerth £4.1 miliwn o grantiau i 106 o swyddfeydd post Cymru pan gaeodd y gronfa ym mis Gorffennaf 2004. Dywedodd y Gweinidog, Edwina Hart, na chaiff y gronfa ei hailagor ar gyfer ymgeiswyr nes y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Swyddfa'r Post Cyf wedi egluro beth yw dyfodol hirdymor swyddfeydd post gwledig. Y perygl yw y

suffering death by 1,000 cuts. However, although reopening this fund would be welcome, this alone would be insufficient.

In July 2000, research found that if a typical post office closed, even in small communities of 500 to 1,000 people, the community would incur a cost of £50,000 a year through loss of business and increased travel costs. In 2010, the post office card direct payment account will be withdrawn. More than 4.5 million people across the UK have been using it since it was offered in 2003 as an alternative to benefit books. After 31 July this year, post offices will stop selling and renewing TV licences, although nearly 5 million people across the UK obtain their TV licences from the post offices. Since 1999, 298 post offices, including sub-post offices, have closed in Wales and 128 rural Welsh post offices have been lost in the last five years. We must take urgent action to retain a rural network and that will require action at both UK Government and devolved Government level.

However, as I have said, as a Government-owned company, the Royal Mail is carrying out the instructions of the Labour Government. Our urban and rural post offices have always provided a social network, but until this Labour Government blundered in, this was supported by the commercial viability of post offices up and down the land.

Turning to the amendments, I hope that all Members will support amendment 2, as all Assembly Members are committed to mainstreaming equal opportunities. Equally, no Assembly Member with a conscience could fail to support amendment 4, which recognises the important role of post offices in sustaining communities and providing an essential service to people throughout Wales, particularly the elderly and the vulnerable.

gallai hyn fod yn rhy ychydig ac yn rhy hwyr, ac y bydd swyddfeydd post yng Nghymru'n wynebu cael eu difa drwy 1,000 o doriadau. Fodd bynnag, er y byddai'n dda o beth ailagor y gronfa hon, ni fyddai hyn yn ddo'i hun yn ddigon.

Ym mis Gorffennaf 2000, darganfuwyd drwy ymchwil, petai swyddfa bost gyffredin yn cau, a hynny hyd yn oed mewn cymunedau bach o 500 i 1,000 o bobl, y byddai hynny'n golygu cost o £50,000 y flwyddyn i'r gymuned drwy golli busnes a'r cynnydd yn y costau teithio. Yn 2010, caiff cyfrif taliadau uniongyrchol cerdyn swyddfa'r post ei ddi-ddymu. Bu mwy na 4.5 miliwn o bobl ledled y Deyrnas Unedig yn ei ddefnyddio ers iddo gael ei gynnig yn 2003 yn ddewis yn lle llyfrau budd-daliadau. Ar ôl 31 Gorffennaf eleni, bydd swyddfeydd post yn rhoi'r gorau i werthu ac adnewyddu trwyddedau teledu, er bod bron 5 miliwn o bobl ar draws y Deyrnas Unedig yn codi eu trwyddedau teledu mewn swyddfeydd post. Ers 1999, mae 298 o swyddfeydd post, gan gynnwys is-swyddfeydd post, wedi cau yng Nghymru a chollwyd 128 o swyddfeydd post gwledig Cymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'n rhaid inni weithredu ar fyrder i gadw rhwydwaith gwledig ac i wneud hynny bydd angen gweithredu ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig a lefel Llywodraeth ddatganoledig.

Fodd bynnag, fel y dywedais, fel cwmni sy'n eiddo i'r Llywodraeth, mae'r Post Brenhinol yn cyflawni gorchmynion y Llywodraeth Lafur. Mae ein swyddfeydd post trefol a gwledig wastad wedi darparu rhwydwaith cymdeithasol, ond hyd nes i'r Llywodraeth Lafur hon ddod i rym i fwnglera, câi hyn ei gynnal gan ddichonoldeb masnachol swyddfeydd post ar hyd a lled y wlad.

Gan droi at y gwelliannau, gobeithiaf y bydd pob Aelod yn cefnogi gwelliant 2, gan fod holl Aelodau'r Cynulliad wedi ymrwymo i brif ffrydio cyfle cyfartal. Yn yr un modd, ni allai'r un Aelod Cynulliad sydd â chydwybod beidio â chefnogi gwelliant 4, sy'n cydnabod rôl bwysig swyddfeydd post o ran cynnal cymunedau a darparu gwasanaeth hanfodol i bobl ledled Cymru, yn enwedig i'r henoed a phobl sy'n agored i niwed.

At this point, I refer to the Sustainable Communities Bill going through Westminster, which would empower local people to improve their local communities. The Bill is cross-party and would enable principal authorities to reverse the process of what is being called 'a ghost town Britain', a reference to the fact that over the last decade, Britain has lost, among other things, a fifth of its post office network. The Bill requires the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs and the National Assembly for Wales, in conjunction with local authorities and communities, to draw up and implement strategies to promote local services and local economic activity, measures for protecting the environment and social justice and greater political involvement.

With reference to the withdrawal of the post office card account, I refer to a letter, as I have done previously, which I received from a sub-postmistress in Lixwm in Flintshire. She says that many of her customers do not drive and that the bus service is not good enough to allow time to shop, let alone time to visit the bank. Most card account customers pay their rent, council tax, electricity, phone and other bills in the post office free of charge and buy saving stamps for television licence fees and other bills. She says that she is a pensioner and a post office card account holder who would find it difficult to pay her bills if her card account was abolished, as would her customers who would worry about having to change the way in which they manage their money and bills. She concluded her letter by asking everyone to show their support for post offices and whether it is the Government's intention to close all small post offices.

Catherine Thomas: Like many Members, I talk regularly with sub-postmasters in my constituency and have held a number of meetings over recent months to discuss their concerns, of which there are many. The concerns expressed by sub-postmasters are reflected in the questions and debates in the Chamber in recent months, and there has been cross-party consensus on a number of issues, as I am sure Mick would agree. For example, we all agree on the crucial role that

Yn awr, cyfeiriai at Fesur Cymunedau Cynaliadwy sy'n mynd drwy San Steffan, a fyddai'n grymuso pobl leol i wella eu cymunedau lleol. Mae'n fesur trawsbleidiol a byddai'n galluogi prif awdurdodau i wyrddroi'r broses a elwir yn 'Brydain y trefi anghyfannedd', sef cyfeiriad at y ffaith bod Prydain, yn ystod y degawd diwethaf, wedi colli, ymhlith pethau eraill, un rhan o bump o'i rhwydwaith swyddfeydd post. Mae'r Mesur yn mynnu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ar y cyd â'r awdurdodau lleol a'r cymunedau, lunio a gweithredu strategaethau er mwyn hybu gwasanaethau lleol a gweithgareddau economaidd lleol, mesurau ar gyfer diogelu'r amgylchedd a chyfiawnder cymdeithasol a mwy o gyfranogiad gwleidyddol.

Gan gyfeirio at ddiddymu cyfrif cerdyn swyddfa'r post, cyfeiriai at lythyr, fel y gwneuthum o'r blaen, a gefais oddi wrth is-bostfeistres yn Licswm yn sir y Fflint. Dywed nad yw llawer o'i chwsmeriaid yn gyrru ac nad yw'r gwasanaeth bysiau'n ddigon da i ganiatáu amser ar gyfer siopa, heb sôn am fynd i'r banc. Mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid cyfrif y cerdyn yn talu eu rhent, y dreth gyngor, biliau trydan, ffôn a biliau eraill am ddim ac yn prynu stampiau cynilion ar gyfer ffioedd y drwydded deledu a biliau eraill. Dywed ei bod yn bensynwraig ac yn ddeiliad cerdyn cyfrif swyddfa'r post a fyddai'n ei chael yn anodd talu ei biliau pe câi cyfrif ei cherdyn ei ddiddymu, ac felly hefyd ei chwsmeriaid a fyddai'n poeni am orfod newid y ffordd y byddant yn ymdrin â'u harian a'u biliau. Gorffennodd ei llythyr drwy ofyn i bawb ddangos eu cefnogaeth i swyddfeydd post ac a yw'r Llywodraeth yn bwriadu cau pob swyddfa bost fach.

Catherine Thomas: Fel llawer o'r Aelodau, byddaf yn aml yn siarad gydag is-bostfeistri yn fy etholaeth ac yr wyf wedi cynnal nifer o gyfarfodydd yn ystod y misoedd diwethaf i drafod eu pryderon, sy'n niferus. Adlewyrchir y pryderon a fynegir gan is-bostfeistri yn y cwestiynau a'r dadleuon a glywyd yn y Siambr yn ystod y misoedd diwethaf, a chafwyd consensws trawsbleidiol ynghylch nifer o faterion, ac yr wyf yn siŵr y byddai Mick yn cytuno. Er enghraifft, yr

post offices fulfil within our respective communities. We all agree that, for many individuals, their sub-post office is very often a lifeline, especially for older people, the disabled and lone parents. For older people especially, it is a point of contact with others and a place that can provide support and free advice on a whole range of issues. This was particularly evident during the introduction of the post office card account. I am sure that Members will recall that this proved a very stressful transition for many people, particularly in relation to securing the card in the first place because of the various stages involved.

Nevertheless, many individuals opened post office card accounts, and that is now a key service that sub-post offices provide, which is crucial, as has already been said, to their business and viability. For this reason, I believe that everything must be done to keep this service. However, I do not think that we can look at this service in isolation. Post offices have already lost some key services, such as the television licence payment, and, in Carmarthenshire, a decision has been made to stop the payment of the council tax through post offices at the start of the next financial year. I am working jointly on a campaign with sub-post offices in my own constituency to see if it is possible to reverse the decision, given the impact that it will have on the viability of post offices.

Owen John Thomas: Will you give way?

Catherine Thomas: Yes, certainly.

Owen John Thomas: Do you find it rather paradoxical that your party, which is sharing power in Carmarthen, is operating this to stop people from going to their post offices, and that the Government in London, which is run by your party, is also shutting post offices? Does this not make you feel rather hypocritical?

Catherine Thomas: No, it does not. I would suggest that you do your homework before intervening because—

ydyd oll yn cytuno ynghylch y rôl bwysig y mae swyddfeydd post yn ei chyflawni yng nghymunedau pob un ohonom. Yr ydyd oll yn cytuno, i lawer o unigolion, fod eu his-swyddfa bost yn achubiaeth yn aml iawn, yn enwedig i bobl hŷn, pobl anabl a rhieni senl. I bobl hŷn yn arbennig, mae'n bwynt cyswllt gydag eraill ac yn lle a all gynnig cymorth a chynghor am ddim ynghylch amrywiol faterion. Yr oedd hyn yn amlwg iawn pan gyflwynwyd cyfrif cerdyn swyddfa'r post. Yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cofio bod hwn wedi bod yn gyfnod o newid dirdynnol i lawer o bobl, yn enwedig o ran cael y cerdyn yn y lle cyntaf oherwydd yr holl gamau a oedd yn glŷn â'r peth.

Fodd bynnag, agorodd llawer o bobl gyfrif cerdyn swyddfa'r post, a bellach mae'n rhan allweddol o wasanaeth yr is-swyddfeydd post, sy'n hanfodol, fel y dywedwyd eisoes, i'w busnes a'u dichonoldeb. Am y rheswm hwn, credaf fod yn rhaid gwneud popeth i gadw'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, ni chredaf y gallwn edrych ar y gwasanaeth hwn ar ei ben ei hun. Mae swyddfeydd post eisoes wedi colli rhai gwasanaethau allweddol, fel talu am y drwydded deledu, ac, yn sir Gaerfyrddin, mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud i roi'r gorau i dalu'r dreth gyngor drwy swyddfeydd post ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Yr wyf yn cydweithio ar ymgyrch gyda'r is-swyddfeydd post yn fy etholaeth i weld a yw'n bosibl gwyrddroi'r penderfyniad, o ystyried yr effaith a gaiff ar hyfywdra swyddfeydd post.

Owen John Thomas: A wnewch ildio?

Catherine Thomas: Gwnaf, wrth gwrs.

Owen John Thomas: A ydych yn meddwl ei fod yn dipyn o baradoes bod eich plaid chi, sy'n rhannu grym yng Nghaerfyrddin, yn rhoi hyn ar waith i atal pobl rhag mynd i'w swyddfeydd post, a bod y Llywodraeth yn Llundain, sy'n cael ei rhedeg gan eich plaid chi, hefyd yn cau swyddfeydd post? Onid yw hyn yn gwneud ichi deimlo braidd yn rhagrithiol?

Catherine Thomas: Nac ydyw. Byddwn yn awgrymu eich bod yn gwneud eich gwaith cartref cyn ymyrryd oherwydd—

Owen John Thomas: But you are—

Catherine Thomas: I wish to answer your question. The decision by Carmarthenshire County Council was backed across the parties. Therefore, perhaps you need to go back and speak to some of the Plaid Cymru councillors there. I can give you the list if you like.

It is only when you consider the combined impact of the loss of these services that you can begin to appreciate why sub-post offices are concerned and anxious about their future viability. A number of the post offices that I know of have been recipients of the post office development fund and are very concerned. Although the fund has certainly enabled them to refurbish their buildings, to provide disabled access and, to some extent, to diversify, receipt of the fund does not guarantee a problem-free existence for these post offices. I meet postmasters and postmistresses who have accessed this funding, and some are still unsure about their future long-term viability. This is why the Minister's stance is right; we have to wait for the findings of the review, which is being undertaken by central Government, before any decision is taken in relation to the post office development fund.

The Deputy Presiding Officer: Order. You have run out of time.

Catherine Thomas: May I finish my contribution?

The Deputy Presiding Officer: You can finish with one sentence.

Catherine Thomas: This Government is committed to the future of post offices, and I am proud of what the Welsh Assembly Government is doing. It is behaving in a responsible way, and it will be unwise at this stage to throw public money at a business when businesses in my own constituency at this stage would not want to take the funding because they know—

The Deputy Presiding Officer: Order. You are abusing my indulgence. I call on the

Owen John Thomas: Ond yr ydych chi—

Catherine Thomas: Yr wyf am ateb eich cwestiwn. Cefnogwyd penderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin ar draws y pleidiau. Felly, efallai fod angen i chi fynd yn ôl a siarad â rhai o'r cynghorwyr Plaid Cymru yno. Gallaf roi'r rhestr ichi os dymunwch.

Dim ond pan ystyriwch effaith gyfun colli'r gwasanaethau hyn y gallwch ddechrau gwerthfawrogi pam mae is-swyddfeydd post yn poeni ac yn pryderu am eu dichonoldeb i'r dyfodol. Mae nifer o swyddfeydd post y gwn amdanynt wedi derbyn grant drwy'r gronfa datblygu swyddfeydd post ac maent yn bryderus iawn. Er bod y gronfa yn sicr wedi eu galluogi i adnewyddu eu hadeiladau, i ddarparu mynediad i'r anabl ac, i ryw raddau, i arallgyfeirio, nid yw derbyn grant gan y gronfa yn gwarantu y bydd y swyddfeydd post hyn heb broblemau. Yr wyf yn cwrdd â phostfeistri a phostfeistresi sydd wedi manteisio ar y cyllid hwn, ac mae rhai ohonynt yn dal yn ansicr am eu hyfywedd hirdymor yn y dyfodol. Dyna pam y mae safiad y Gweinidog yn iawn; rhaid inni aros am ganfyddiadau'r adolygiad, sy'n cael ei gynnal gan y Llywodraeth ganolog, cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r gronfa datblygu swyddfeydd post.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'r amser sydd gennych wedi dod i ben.

Catherine Thomas: A gaf orffen fy nghyfraniad?

Y Dirprwy Lywydd: Cewch orffen gydag un frawddeg.

Catherine Thomas: Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i ddyfodol swyddfeydd post, ac yr wyf yn falch o'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud. Mae'n ymddwyn mewn ffordd gyfrifol, ac ar hyn o bryd bydd yn annoeth taflu arian cyhoeddus at fusnes pan na fyddai busnesau yn fy etholaeth ar hyn o bryd am gymryd y cyllid gan eu bod yn gwybod—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Yr ydych yn manteisio ar fy ngoddefgarwch. Galwaf ar y

Minister for Social Justice and Regeneration to move the amendment in the name of Jane Hutt.

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): I propose the following amendment in the name of Jane Hutt. Amendment 3: delete point 3 and replace with:

calls on the Welsh Assembly Government to report back on the re-opening of the post office development fund:

a) in the light of the UK Government's decisions about the future of social network funding, and

b) in advance of the abolition of the post office card account.

Leanne Wood: We have debated the issue of post offices many times in the Assembly over recent months. The problems that communities are facing because of New Labour's post office closure programme were brought about by a vote in Parliament. Let us not forget those Labour Members of Parliament in Wales who voted for the network reinvention programme. Those MPs voted to close post offices throughout Wales, and the hypocrisy that we have seen from those Labour MPs, who vote one way in Parliament and then express outrage in communities, has been absolutely breathtaking. Do they think that people are stupid? People are not stupid; they can see New Labour closing down post offices, schools and youth clubs in communities, and they understand who is responsible, despite the grandstanding of local politicians. Under New Labour, 4,000 post offices have closed to date. Adam Crozier, the chief executive of Royal Mail, has said that the number of sub-post offices needed for a sustainable network is around 4,000. That means we can expect to see another 10,000 post offices close before the end of this process. In saying this, of course, we must not forget that the Tories closed down 3,500 post offices during their last term of office, and that the Liberal Democrats want to privatise the Royal Mail, which will only result in further rationalisation and centralisation.

Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i gynnig y gwelliant yn enw Jane Hutt.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Cynigiaf y gwelliant canlynol yn enw Jane Hutt. Gwelliant 3: dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adrodd yn ôl ar ailagor y gronfa datblygu swyddfeydd post:

a) yn wyneb penderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol cyllid rhwydweithiau cymdeithasol, a

b) cyn diddymu cyfrif cerdyn swyddfa'r post.

Leanne Wood: Yr ydym wedi trafod mater y swyddfeydd post droeon yn y Cynulliad dros y misoedd diwethaf. Cafodd y problemau sy'n wynebu cymunedau oherwydd rhaglen Llafur Newydd i gau swyddfeydd post eu hachosi gan bleidlais yn y Senedd. Gadewch inni beidio ag anghofio'r Aelodau Seneddol Llafur hynny yng Nghymru a bleidleisiodd o blaid y rhaglen i ailddyfeisio'r rhwydwaith. Pleidleisiodd yr ASau hynny i gau swyddfeydd post ledled Cymru, ac mae'r rhagrith yr ydym wedi ei weld gan yr ASau Llafur hynny, sy'n pleidleisio un ffordd yn y Senedd ac yna'n mynegi dicter mewn cymunedau, wedi bod yn syfrdanol. A ydych yn meddwl bod pobl yn dwp? Nid yw pobl yn dwp; gallant weld Llafur Newydd yn cau swyddfeydd post, ysgolion a chlybiau ieuenctid mewn cymunedau, er gwaethaf ymagweddu gorchestol gwleidyddion lleol. O dan Lafur Newydd, mae 4,000 o swyddfeydd post wedi cau hyd yma. Mae Adam Crozier, prif weithredwr y Post Brenhinol, wedi dweud mai tua 4,000 o is-swyddfeydd post sy'n ofynnol ar gyfer rhwydwaith cynaliadwy. Mae hynny'n golygu y gallwn ddisgwyl gweld 10,000 arall o swyddfeydd post yn cau cyn diwedd y broses hon. Wrth ddweud hyn, wrth gwrs, rhaid inni beidio ag anghofio i'r Torïaid gau 3,500 o swyddfeydd post yn ystod eu cyfnod diwethaf mewn Llywodraeth, a bod y Democratiaid Rhyddfrydol am breifateiddio'r Post Brenhinol, rhywbeth sy'n sicr o achosi rhagor

o resymoli a chanoli.

However, of all of the double standards that we have seen in this debate, the worst example has to be that of the post office card account. First, the Government forced post office users to open card accounts, something that a lot of people did not want to do at the time, and now, when they have got used to a new system, it is being taken away. When it forced people to take up the new account, no mention was made of abolishing that system. People have been deliberately misled by the Government yet again. The abolition of the card account will take vital business away from post offices, which will make them financially unviable.

Over 360,000 people in Wales use a post office card account to access their benefits. The decision to end over-the-counter payments has already lost the post office network £400 million, and there are no plans to make up that revenue shortfall. The abolition of the post office card account will lead to the closure of more post offices. Therefore, the Assembly must argue as strongly as possible for that card account to be retained. If today's debate achieves nothing else, I hope that it will result in some action from the Welsh Assembly Government on this issue. Pressure should be put on Westminster to extend the post office card account beyond 2010. If we do not achieve this, we could be looking at the end of the post office network. I sincerely hope that you are not prepared to sit back and allow that to happen.

Peter Black: I will start with a quote, by Tony Blair, as it happens. In June 2000, he wrote:

'Britain's post offices are a vital part of the fabric of our country. While 28 million people are served every week at Post Office counters, post offices are more—much more—than just businesses. Especially in rural areas, and in disadvantaged parts of our towns and cities—'

Fodd bynnag, o'r holl safonau dwbl yr ydym wedi eu gweld yn y ddadl hon, mae'n rhaid mai'r enghraifft waethaf yw honno'n ymwneud â chyfrif cerdyn swyddfa'r post. Yn gyntaf, gorfododd y Llywodraeth ddefnyddwyr swyddfa'r post i agor cyfrif cerdyn, rhywbeth nad oedd llawer o bobl am ei wneud ar y pryd, ac yn awr, a hwythau wedi cynefino â system newydd, mae'n cael ei diddymu. Pan orfododd bobl i gymryd y cyfrif newydd, ni soniwyd o gwbl am ddileu'r system honno. Mae pobl wedi cael eu camarwain yn fwriadol gan y Llywodraeth unwaith eto. Bydd diddymu'r cyfrif cerdyn yn mynd â busnes hanfodol oddi ar swyddfeydd post, a fydd yn eu gwneud yn annichonadwy yn ariannol.

Mae dros 360,000 o bobl yng Nghymru yn defnyddio cyfrif cerdyn swyddfa'r post i gael eu budd-daliadau. Mae'r penderfyniad i roi terfyn ar daliadau dros y cownter eisoes wedi golygu bod rhwydwaith y swyddfeydd post yn colli £400 miliwn, ac nid oes cynlluniau i wneud iawn am y diffyg refeniw hwnnw. Bydd diddymu cyfrif cerdyn swyddfa'r post yn arwain at gau rhagor o swyddfeydd post. Felly, rhaid i'r Cynulliad ddadlau cyn gryfed â phosibl o blaid cadw'r cyfrif cerdyn hwnnw. Os na chyflawnir dim byd arall gan y ddadl heddiw, gobeithiaf y bydd yn arwain at ryw weithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y mater hwn. Dylid rhoi pwysau ar San Steffan i ymestyn cyfrif cerdyn swyddfa'r post y tu hwnt i 2010. Os na chyflawnwn hyn, gallem fod yn edrych ar rwydwaith y swyddfeydd post yn dod i ben. Mawr obeithiaf nad ydych yn barod i eistedd yn ôl a gadael i hynny ddigwydd.

Peter Black: Dechreuaf gyda dyfyniad, gan Tony Blair, fel y mae'n digwydd. Ym mis Mehefin 2000, ysgrifennodd:

Mae swyddfeydd post Prydain yn rhan hanfodol o wead ein gwlad. Er bod 28 miliwn o bobl yn cael gwasanaeth bob wythnos wrth gownteri Swyddfa'r Post, mae swyddfeydd post yn fwy—yn llawer mwy—na dim ond busnesau. Mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, ac mewn rhannau difreintiedig o'n trefi a'n dinasoedd—

The Deputy Presiding Officer: Order. I am sorry to interrupt you, Peter, but, Mick, it is not necessary to hold up that placard. This is not a circus; this is a National Assembly debate. Can you put it down, please?

Peter Black: It probably clashed with my tie, anyway.

Tony Blair goes on to say:

‘Especially in rural areas, and in disadvantaged parts of our towns and cities, post offices play an important role in communities across the country: keeping services going, supporting the vulnerable, acting as a focal point. The Government values the Post Office network. We want to see it thrive.’

Since Tony Blair wrote those words, the total number of post offices in Wales has fallen by 200 since March 2001, and by 3,237 across the United Kingdom over a period of five years. That is a strange way of helping the network to thrive. If Tony Blair and the Labour Government at Westminster were in favour of making our post offices thrive, they would not continue to put the sorts of obstacles that have been proposed in the past and are being proposed for the future in their way. The impact of the withdrawal of the post office card account, for example, will add considerably to the number of post offices that will close as a result of the loss of business and revenue, which will come about as a result of that measure.

Earlier this year, I conducted a survey in my region of South Wales West, which revealed that nearly two thirds of the postmasters who replied believed that their businesses would have to close as a result of the Labour Government’s plans to abolish the post office card account from 2010.

Jeff Cuthbert: I am grateful to Peter Black for giving way at the fourth time of asking, which was not his fault.

Peter Black: It was the first time.

Jeff Cuthbert: Perhaps you can explain to

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae’n ddrwg gennyf dorri ar eich traws, Peter, ond, Mick, nid oes rhaid ichi ddal y placard hwnnw. Nid syrcais yw hon; dadl yn y Cynulliad Cenedlaethol ydyw. A wnewch ei roi i lawr, os gwelwch yn dda?

Peter Black: Mwy na thebyg ei fod yn gwrthdaro â’m tei, beth bynnag.

Â Tony Blair yn ei flaen i ddweud:

Mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, ac mewn rhannau difreintiedig o’n trefi a’n dinasoedd, mae swyddfeydd post yn chwarae rhan bwysig mewn cymunedau ar draws y wlad: yn cadw gwasanaethau i fynd, yn cynorthwyo pobl fregus, yn gweithredu fel canolbwynt. Mae’r Llywodraeth yn gweld gwerth yn rhwydwaith Swyddfa’r Post. Yr ydym am ei weld yn ffynnu.

Ers i Tony Blair ysgrifennu’r geiriau hynny, mae cyfanswm y swyddfeydd post yng Nghymru wedi gostwng 200 ers mis Mawrth 2001, a 3,237 ar draws y Deyrnas Unedig dros gyfnod o bum mlynedd. Mae hynny’n ffordd ryfedd o helpu’r rhwydwaith i ffynnu. Pe bai Tony Blair a’r Llywodraeth Lafur yn San Steffan o blaid gwneud i’n swyddfeydd post ffynnu, ni fyddent yn dal i roi’r mathau o rwystrau sydd wedi cael eu cynnig yn y gorffennol ac sy’n cael eu cynnig ar gyfer y dyfodol ar eu ffordd. Bydd effaith dileu cyfrif cerdyn swyddfa’r post, er enghraifft, yn ychwanegu’n sylweddol at nifer y swyddfeydd post a fydd yn cau yn sgîl colli busnes a refeniw, sef yr hyn a fydd yn digwydd o ganlyniad i’r mesur hwnnw.

Yn gynharach eleni, cynhaliais arolwg yn fy rhanbarth, Gorllewin De Cymru, a ddatgelodd fod bron dwy ran o dair o’r postfeistri a atebodd yn credu y byddai’n rhaid i’w busnesau gau oherwydd cynlluniau’r Llywodraeth Lafur i ddileu cyfrif cerdyn swyddfa’r post o 2010.

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn ddiolchgar i Peter Black am ildio y pedwerydd tro y gofynnais, er nad ei fai ef oedd hynny.

Peter Black: Dyna oedd y tro cyntaf.

Jeff Cuthbert: Efallai y gallwch esbonio

us, from your survey of postmasters, how many of them supported your party's plans to sell off 49 per cent of Royal Mail, as was mentioned by Leanne Wood earlier, which would lead to Post Office Counters Ltd splitting from the Royal Mail Group. How can you justify that policy in the light of these discussions?

Peter Black: The Royal Mail is not Post Office Counters Ltd, Jeff. The impact of that policy would be to enable us to invest £2 billion in the post office network, and give those postmasters the support that they need to keep their businesses open. I am sure that many postmasters and postmistresses around Britain would welcome that sort of investment and the support that we could give them. I would hope—especially given that your party is also proposing some changes to the structure of the Royal Mail—that you would support that as well.

As I was saying, in terms of the survey, the post offices in Swansea, Neath Port Talbot and Bridgend that responded serve 1,200 people per week, on average. Over half of their business can be accounted for by post office card account transactions, but many respondents commented that there would be a knock-on effect on other businesses because when people collect their pensions or benefits, they tend to pay their bills at the same time. Ancillary sales also rely on the footfall created by post office card account holders.

The proposals that are being put forward by the UK Government will undermine the post office network and will leave many communities without the benefit of that service. The Assembly should be doing everything that it can to support them, and that includes reinstating the post office development fund. We should also be campaigning aggressively for the UK Government to keep the post office card account going.

Nick Bourne: I am privileged to be able to take part in this debate. We will be supporting the Liberal Democrat motion.

wrthym, yn ôl eich arolwg o bostfeistri, faint ohonynt a oedd yn cefnogi cynlluniau eich plaid chi i werthu 49 y cant o'r Post Brenhinol, fel y soniodd Leanne Wood yn gynharach, a fyddai'n golygu bod Cownteri Swyddfa'r Post Cyf yn gwahanu oddi wrth Grŵp y Post Brenhinol. Sut y gallwch gyfiawnhau'r polisi hwnnw yng ngoleuni'r trafodaethau hyn?

Peter Black: Nid Cownteri Swyddfa'r Post Cyf yw'r Post Brenhinol, Jeff. Effaith y polisi hwnnw fyddai ein galluogi i fuddsoddi £2 biliwn yn rhwydwaith y swyddfeydd post, a rhoi i'r postfeistri hynny y cymorth y mae ei angen arnynt i gadw eu busnesau ar agor. Yr wyf yn siŵr y byddai llawer o bostfeistri a phostfeistresi ar hyd a lled Prydain yn croesawu'r math hwnnw o fuddsoddiad a'r cymorth y gallem ei roi iddynt. Byddwn yn gobeithio—yn arbennig o gofio bod eich plaid chithau hefyd yn cynnig rhai newidiadau i strwythur y Post Brenhinol—y byddech yn cefnogi hynny hefyd.

| <p>5. recognises the important role of post offices in sustaining communities both urban and rural and in providing an essential service to people throughout Wales, particularly the elderly and vulnerable;</p> | <p>5. yn cydnabod swyddogaeth bwysig swyddfeydd post o ran cynnal cymunedau trefol a gwledig a darparu gwasanaeth hanfodol i bobl ledled Cymru, yn arbennig yr henoed a phobl sy'n agored i niwed;</p> |
| <p>6. instructs the Welsh Assembly Government to lobby the Westminster Government to retain the post office account;</p> | <p>6. yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i lobïo Llywodraeth San Steffan i gadw cyfrif cerdyn swyddfa'r post;</p> |
| <p>7. calls on the Welsh Assembly Government to put immediate pressure on the UK Government to retain the post office card account beyond the 2010 deadline.</p> | <p>7. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd ati ar unwaith i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gadw cyfrif cerdyn swyddfa'r post y tu hwnt i 2010.</p> |

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amended motion: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane

Davies, Andrew
 Davies, Glyn
 Davies, Jocelyn
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.
 Amended motion carried.*

4.50 p.m.

Diogelwch Staff y Sector Cyhoeddus **The Safety of Public Sector Staff**

Motion (NDM3069): to propose that

Cynnig (NDM3069): cynnig bod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. recognises the importance of ensuring the safety of staff delivering public services, including those in the emergency services;

1. yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau diogelwch y staff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai yn y gwasanaethau brys;

2. notes the actions taken to date to improve

2. yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn i

the protection of such staff in the performance of their duties.

Amendment 1 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to ensure improved security at hospitals, especially during night-time, to protect NHS staff.

Amendment 2 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

believes that effective law enforcement is the first step in a strategy to better protect staff delivering public services.

Amendment 3 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Assembly Government—given its commitment to providing more public services in the community, especially in health—to conduct an assessment of any additional risks posed to the safety of lone public service workers and to bring forward measures to address any identified risks.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Kirsty Williams, amendment 2 in the name of Lisa Francis, and amendment 3 in the name of Jocelyn Davies.

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): I propose that

the National Assembly for Wales:

1. recognises the importance of ensuring the safety of staff delivering public services, including those in the emergency services;

2. notes the actions taken to date to improve the protection of such staff in the performance of their duties. (NDM3069)

The risks that staff in the national health

wella diogelwch staff o'r fath wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

Gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau gwell diogelwch mewn ysbytai, yn enwedig yn ystod y nos, er mwyn amddiffyn staff y GIG.

Gwelliant 2 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu mai sicrhau bod y gyfraith yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol yw'r cam cyntaf mewn unrhyw strategaeth i wella diogelwch staff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Gwelliant 3 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad—yn wyneb ei hymroddiad i ddarparu mwy o wasanaethau cyhoeddus yn y gymuned, yn enwedig ym maes iechyd—i gynnal asesiad o unrhyw risgiau ychwanegol i ddiogelwch gweithwyr yn y sector cyhoeddus pan fyddant ar eu pen eu hun, a chyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau a nodir.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams, gwelliant 2 yn enw Lisa Francis, a gwelliant 3 yn enw Jocelyn Davies.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau diogelwch y staff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai yn y gwasanaethau brys;

2. yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn i wella diogelwch staff o'r fath wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. (NDM3069)

Cyfeiriwyd at y risgiau y mae staff yn y

service in Wales are exposed to as a result of violence and aggression have been well documented in a recent Wales Audit Office report. The report emphasised the good work taking place in the national health service in Wales to address the risks of violence and aggression. However, some recommendations for further improvements were made in the report: for example, dealing with repeat offenders through increased prosecutions, simplifying the reporting systems, particularly for staff, and easier access to violence and aggression training. These recommendations were also the subject of a lengthy discussion at a recent Wales partnership forum of NHS staff representatives and the Assembly Government. I am pleased to say that our response to the Wales Audit Office report was very much in line with the priorities highlighted by our trade union colleagues.

We must get over to the public the message that violence against NHS staff and those working in our public services is unacceptable. The Assembly Government is determined to stamp it out and to get the message to staff that violence and intimidation is unacceptable, and that we are determined to see it tackled.

NHS trusts have also made use of anti-social behaviour legislation under the Crime and Disorder Act 1998 and anti-social behaviour legislation. The North Glamorgan NHS Trust has made use of this legislation and works with other agencies, such as housing, the police and social services, which may also have problems with particular troublesome individuals. The process brings together these key agencies, and can help to tackle an offender's pattern of behaviour through remedial action to help and support, rather than punish, the offender. North Glamorgan NHS Trust's innovative yellow card scheme is to be commended. Although this would be the preferred measure for NHS trusts to take in every instance, I would also emphasise the need for trusts to ensure that they support their staff in prosecuting offenders.

gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn eu hwynebu o ganlyniad i drais ac ymddygiad ymosodol mewn adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yr oedd yr adroddiad yn pwysleisio'r gwaith da sy'n cael ei wneud yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru i roi sylw i'r risg o drais ac ymddygiad ymosodol. Fodd bynnag, gwnaethpwyd rhai argymhellion ar gyfer rhagor o welliannau yn yr adroddiad: er enghraifft, delio â phobl sy'n troseddu dro ar ôl tro drwy fwy o erlyniadau, symleiddio'r systemau adrodd, yn enwedig ar gyfer staff, a mynediad haws at hyfforddiant yn ymwneud â thrais ac ymddygiad ymosodol. Cafwyd trafodaeth helaeth ar yr argymhellion hyn hefyd mewn cyfarfod o fforwm partneriaeth Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar, ac a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr staff y GIG a Llywodraeth y Cynulliad. Yr wyf yn falch o ddweud bod ein hymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r blaenoriaethau a nodwyd gan ein cyfeillion yn yr undebau llafur.

Rhaid inni gyfleu i'r cyhoedd y neges bod trais yn erbyn staff y GIG a'r rhai sy'n gweithio yn ein gwasanaethau cyhoeddus yn annerbyniol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn benderfynol o'i ddileu ac o roi'r neges i'r staff fod trais ac ymddygiad bygythiol yn annerbyniol, a'n bod yn benderfynol o wneud rhywbeth yn eu cylch.

Mae ymddiriedolaethau'r GIG hefyd wedi defnyddio deddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a deddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg wedi defnyddio'r ddeddfwriaeth hon ac mae'n gweithio gydag asiantaethau eraill, megis tai, yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, sydd hefyd yn cael problemau o bosibl â rhai unigolion sy'n achosi trafferthion. Mae'r broses yn dod â'r asiantaethau allweddol hyn at ei gilydd, a gall helpu i fynd i'r afael â phatrwm ymddygiad troseddwr drwy gamau adferol er mwyn helpu'r troseddwr a rhoi cymorth iddo, yn hytrach na'i gosbi. Mae cynllun cerdyn melyn blaengar Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg i'w ganmol. Er mai hyn fyddai'r cam y byddem yn hoffi i ymddiriedolaethau'r GIG ei gymryd ym mhob achos, byddwn hefyd yn pwysleisio

bod angen i ymddiriedolaethau sicrhau eu bod yn cynorthwyo eu staff wrth erlyn troseddwy.

In this context, I would like to respond to the amendment in the name of Lisa Francis. The Government will support it today, because it contains a key concept. However, it is not a masterpiece of amendment drafting. I cannot believe that Lisa believes that the best way to respond to violence in the NHS and our public services is to wait for it to happen and then to prosecute. I am sure that everyone, including Lisa, would agree that prevention is better than cure. Sadly, there will be times when preventative work does not deliver results, and unlawful activities in the form of assaults on our staff will take place. In those circumstances, when a criminal offence has been committed and prosecution is necessary, the full force of law needs to be applied. We need to be clear about this, and so that there is no doubt about the commitment of the Assembly Government, we will support the amendment.

Central to our approach to dealing with aggression within the health service in particular is the Wales NHS violence and aggression training passport and information scheme, which has been launched by the Welsh Assembly Government. The framework provides for the delivery of violence and aggression training, and guidance on the development of documentation to ensure the effective assessment and management of violence and risks, and consistent standards of documentation, aligned to risk assessment and training for NHS staff in Wales. This guidance also makes particular reference to lone workers.

More recently, the Assembly Government has given its support to the Emergency Workers (Obstruction) Bill, which is currently progressing through Parliament. This Bill will make it an offence to obstruct emergency workers responding to emergency situations, and specifically covers the police, fire service and ambulance service staff. So far I have referred to the situation with regard to the NHS, but this extends across the public

Yn y cyd-destun hwn, hoffwn ymateb i'r gwelliant yn enw Lisa Francis. Bydd y Llywodraeth yn ei gefnogi heddiw, gan ei fod yn cynnwys cysyniad allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant sydd wedi ei ddrafftio yn gampwaith. Ni allaf gredu bod Lisa yn credu mai'r ffordd orau o ymateb i drais yn y GIG a'n gwasanaethau cyhoeddus yw aros iddo ddigwydd ac yna erlyn. Yr wyf yn sicr y byddai pawb, gan gynnwys Lisa, yn cytuno mai gwell rhwystro'r clwy na'i wella. Yn anffodus, bydd adegau pan na fydd gwaith ataliol yn sicrhau canlyniadau, a bydd gweithgareddau anghyfreithlon ar ffurf ymosodiadau ar ein staff yn digwydd. Yn yr amgylchiadau hynny, pan fo trosedd wedi ei chyflawni a phan fo angen erlyn, mae angen defnyddio holl rym y gyfraith. Mae angen inni fod yn glir ynglŷn â hyn, a rhag bod dim amheuaeth ynglŷn ag ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad, byddwn yn cefnogi'r gwelliant.

Elfen ganolog o'n dull o ddelio ag ymddygiad ymosodol yn y gwasanaeth iechyd yn benodol yw cynllun pasport a gwybodaeth hyfforddiant trais ac ymddygiad ymosodol GIG Cymru, a lansiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r fframwaith yn ymwneud â chyflwyno hyfforddiant trais ac ymddygiad ymosodol, ac mae'n cynnwys canllawiau ar gyfer datblygu dogfennau a fydd yn sicrhau bod trais a risgiau'n cael eu hasesu a'u rheoli'n effeithiol, a safonau cyson o ran dogfennau, wedi eu llunio ar gyfer asesu risg a hyfforddiant i staff y GIG yng Nghymru. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio'n benodol hefyd at bobl sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi ei chefnogaeth i'r Mesur Gweithwyr Achosion Brys (Rhwystro), sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Dan y Mesur hwn bydd rhwystro gweithwyr achosion brys rhag ymateb i argyfwng yn drosedd, ac mae'r Mesur yn ymwneud yn benodol â staff yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans. Hyd yn hyn yr wyf wedi cyfeirio at y sefyllfa o ran y GIG,

sector, and, within my own portfolio, to social care.

Moving on to social care, the Assembly Government regulates social care settings through the Care Standards Inspectorate for Wales. The national minimum standards in place under the Care Standards Inspectorate's regime require a focus on the health, safety and security of all staff and service users.

The Care Council for Wales is the regulator of social care staff. It promotes high standards of conduct for social care workers and has published codes of practice for employers and social care workers.

In conclusion, the improved health, safety and welfare of all public health service staff must be a priority. Without it, we cannot have fit-for-purpose public services in Wales. It will be impossible to maintain the improvements that are being made in public services in Wales if we are not in a position to protect our own staff. We owe a great debt to our care workers in public services, whether they are directly employed or contracted, as they are there to work for us when we need them. The amount of work being undertaken to protect them is clear evidence of our commitment to making sure that they are well looked after. This is the least that we can do for this dedicated band of public service employees.

The Deputy Presiding Officer: I have six Members wishing to catch my eye and three Members to propose amendments. If everyone takes their full time, we would need an extension until 6 p.m.. We might be able to avoid that if Members, where they can, make succinct speeches. I appeal for Members to do so wherever possible.

Jenny Randerson: I propose amendment 1 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

ond mae hyn yn cynnwys y sector cyhoeddus i gyd, ac, yn fy mhortffolio i, mae'n cynnwys gofal cymdeithasol.

Gan droi at ofal cymdeithasol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn rheoleiddio lleoliadau gofal cymdeithasol drwy Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol sydd mewn grym dan drefniadau'r Arolygiaeth Safonau Gofal yn mynnu bod angen canolbwyntio ar iechyd a diogelwch personol pob aelod o'r staff a phawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Cyngor Gofal Cymru yw'r corff rheoleiddio ar gyfer staff gofal cymdeithasol. Mae'n hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac mae wedi cyhoeddi codau ymarfer ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol.

I gloi, rhaid rhoi blaenoriaeth i wella iechyd, diogelwch a lles holl staff y gwasanaeth iechyd cyhoeddus. Heb hyn, ni allwn gael gwasanaethau cyhoeddus addas i'w diben yng Nghymru. Bydd yn amhosibl inni gynnal y gwelliannau sy'n cael eu gwneud mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru os nad ydym yn gallu amddiffyn ein staff ein hunain. Yr ydym yn ddyledus iawn i'n gweithwyr gofal mewn gwasanaethau cyhoeddus, pa un a ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu'n gweithio ar gontract, gan eu bod yno i weithio drosom pan fo arnom eu hangen. Mae'r holl waith sy'n cael ei wneud er mwyn eu hamddiffyn yn dystiolaeth glir o'n hymrwymiad i sicrhau ein bod yn gofalu amdanynt. Dyma'r peth lleiaf y gallwn ei wneud dros y grŵp ymroddedig hwn o weithwyr y gwasanaethau cyhoeddus.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennyf chwe Aelod sy'n awyddus i ddal fy sylw a thri Aelod sydd am gynnig gwelliannau. Pe bai pawb yn cymryd yr amser llawn sydd ar gael, byddai angen inni fod yma tan 6 p.m.. Efallai y gallem osgoi hynny pe bai Aelodau, lle y bo hynny'n bosibl, yn gwneud areithiau cryno. Gofynnaf i'r Aelodau wneud hynny pryd bynnag y bo modd.

Jenny Randerson: Cynigiau welliant 1 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Welsh Assembly Government to ensure improved security at hospitals, especially during night-time, to protect NHS staff.

I reiterate the Minister's comments on the dedication and loyalty of staff, not only in the NHS, but throughout the public sector, and our duty to protect them.

According to the British crime survey, nurses working in the NHS are more than three times more at risk of assault than teachers, for instance. We hear a great deal—and rightly so—about the dangers to teachers from assault, but nurses are more than three times as likely to suffer. Anyone who has ever attended an accident and emergency department on a Saturday night will have seen a situation that is fraught with tension and violence. However, within the NHS, which is the area on which I want to concentrate, the risks are certainly not restricted to the accident and emergency scenario.

In Wales, the latest figures, for 2003-04, show that 7,971 assaults and aggressive incidents were reported by NHS staff. That is 22 incidents somewhere in Wales each day. When we examine the figures for individual trusts, it is clear that there is a varied approach to reporting. Cardiff and Vale NHS Trust reported 1,683 assaults and Carmarthenshire NHS Trust only 94. Although the trusts concerned are of different size, and face different circumstances, I am sure that there is more behind those figures than that.

As a first step, people must be encouraged to report incidents. I welcome the Minister's words, but we need strong and forceful leadership from the Labour Assembly Government. I quote from evidence from the Royal College of Nursing to a Health and Social Services Committee meeting last year, in which the representative said:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau gwell diogelwch mewn ysbytai, yn enwedig yn ystod y nos, er mwyn amddiffyn staff y GIG.

Ategaf sylwadau'r Gweinidog ynglŷn ag ymroddiad a theyrngarwch y staff, nid yn unig yn y GIG, ond yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol, a'n dyletswydd i'w diogelu.

Yn ôl arolwg troseddau Prydain, mae nyrsys sy'n gweithio yn y GIG deirgwaith yn fwy tebygol o ddioddef ymosodiad nag athrawon, er enghraifft. Clywn lawer—yn ddigon teg—am y perygl y mae athrawon yn ei wynebu, o ran ymosodiadau, ond mae nyrsys dros deirgwaith yn fwy tebygol o ddioddef ymosodiad. Bydd unrhyw un sydd wedi bod mewn adran damweiniau ac achosion brys ar nos Sadwrn wedi gweld sefyllfa sy'n llawn tensiwn a thrais. Fodd bynnag, yn y GIG, sef y maes yr hoffwn ganolbwyntio arno, nid yw'r risgiau wedi eu cyfyngu o gwbl i'r senario damweiniau ac achosion brys.

Yng Nghymru, dengys y ffigurau diweddaraf, ar gyfer 2003-04, fod staff y GIG wedi rhoi gwybod am 7,971 o ymosodiadau a digwyddiadau ymosodol. Mae hyn yn golygu 22 digwyddiad yn rhywle yng Nghymru bob diwrnod. O edrych ar ffigurau ymddiriedolaethau unigol, mae'n amlwg bod yr agwedd tuag at roi gwybod am ddigwyddiadau yn amrywio. Cofnododd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro 1,683 o ymosodiadau ond dim ond 94 a gofnodwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin. Er bod yr ymddiriedolaethau hyn yn amrywio o ran maint, ac yn wynebu amgylchiadau gwahanol, yr wyf yn siŵr bod rheswm arall dros y gwahaniaeth rhwng y ffigurau.

Fel cam cyntaf, rhaid annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau. Yr wyf yn croesawu geiriau'r Gweinidog, ond mae angen inni gael arweiniad cryf a grymus gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad. Dyfynnaf o dystiolaeth gan Goleg Brenhinol y Nyrsys i gyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y llynedd, lle y dywedodd y cynrychiolydd:

‘There is guidance, and the majority of trusts have notices up saying that violence and aggression towards the staff will not be tolerated. That is where it stops. No-one does anything about it.’

We have to change that perception on behalf of the staff concerned. That perception is not just something that the Royal College of Nursing representative said in committee. The NHS staff survey for 2005, from Wales, showed that 16 per cent of NHS staff had experienced physical violence in the previous 12 months from patients and service users. Five per cent had experienced it from the relatives of patients, but only 70 per cent of those who had experienced violence had bothered to report it or had felt that they could report it. When asked whether they thought that their employer would take effective action if they were physically attacked, a worrying 40 per cent of staff said that they were not sure, and 8 per cent felt that their employer would not take action. We have to change that perception in the minds of NHS staff. We need a clear message to employees that this will not be tolerated. We cannot just talk the talk; we have to walk the walk, Minister.

5.00 p.m.

I urge you to look closely at the Emergency Workers (Scotland) Act 2005. That applies to the police, the fire and ambulance services, doctors, nurses, midwives, social workers, mental health officers, prison officers, and so on. It applies not only when they are dealing with emergencies, but when they are on duty in general. It contains a new, specific offence of impeding and attacking an emergency worker, with a maximum penalty of nine months imprisonment, a £5,000 fine, or both. The important fact is that this gives other emergency workers the same status as police officers, who already have this protection.

A similar private Member’s Bill—from Alan Williams, MP—is going through the House

Ceir canllawiau, ac mae gan y rhan fwyaf o’r ymddiriedolaethau hysbysiadau sy’n nodi na fydd trais ac ymddygiad ymosodol tuag at y staff yn cael ei oddef. Dyna lle y mae’n dod i ben. Nid oes neb yn gwneud dim ynglŷn â’r peth.

Rhaid inni newid y syniad hwn sydd gan staff o’r fath. Mae’r syniad hwn yn fwy na rhywbeth a ddywedwyd gan gynrychiolydd Coleg Brenhinol y Nyrsys mewn pwyllgor. Dangosodd arolwg staff y GIG ar gyfer 2005, yng Nghymru, fod 16 y cant o staff y GIG wedi profi trais corfforol yn ystod y 12 mis blaenorol gan gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth. Yr oedd pump y cant wedi dioddef trais gan berthnasau cleifion, ond dim ond 70 y cant o’r rhai a oedd wedi profi trais a oedd wedi trafferthu i roi gwybod amdano neu a oedd wedi teimlo y gallent roi gwybod amdano. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn meddwl y byddai eu cyflogwr yn cymryd camau effeithiol pe baent yn dioddef ymosodiad corfforol, dywedodd canran sy’n peri pryder, sef 40 y cant o’r staff, nad oeddent yn siŵr, a themlai 8 y cant na fyddai eu cyflogwr yn gwneud dim byd. Rhaid inni newid y syniad hwn sydd gan staff y GIG. Mae angen inni roi neges glir i weithwyr na fydd hyn yn cael ei oddef. Rhaid inni wneud mwy na siarad am y peth; rhaid inni gymryd camau pendant, Weinidog.

Yr wyf yn pwysu arnoch i edrych yn ofalus ar Ddeddf Gweithwyr Achosion Brys (Yr Alban) 2005. Mae hynny’n berthnasol i’r heddlu, y gwasanaethau tân ac ambiwlans, meddygon, nyrsys, bydwragedd, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion iechyd meddwl, swyddogion carchar ac yn y blaen. Mae’n berthnasol nid yn unig pan fyddant yn delio ag argyfyngau, ond pan fyddant ar ddyletswydd yn gyffredinol. Mae’n cynnwys trosedd newydd, benodol o rwystro ac ymosod ar weithiwr achosion brys, gydag uchafswm cosb o naw mis o garchar, dirwy o £5,000, neu’r ddau. Y ffaith bwysig yw y rhydd i weithwyr achosion brys eraill yr un statws â heddweision, sydd eisoes yn cael eu gwarchod fel hyn.

Mae Mesur Aelod Preifat tebyg—gan Alan Williams, AS—yn mynd drwy Dŷ’r

of Commons at present. I am disappointed that the UK Government has said that it does not feel that this legislation is needed. It would be helpful for us if the Labour Assembly Government could add its voice to that of Alan Williams, in saying that we want this legislation, because, if nothing else, it is a good outward symbol. In addition, the zero tolerance campaign is an excellent initiative, but it needs a legal framework to back it up.

Mark Isherwood: I propose amendment 2 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

believes that effective law enforcement is the first step in a strategy to better protect staff delivering public services.

According to the British Crime Survey, the police are most at risk from violence at work, followed by social workers, probation officers, publicans and bar staff, and security guards. However, also at high risk are nurses, other healthcare professionals, transport workers—particularly taxi drivers—health community and youth workers, retail managers and proprietors, and national and local government administrators, such as benefits officers.

Although today's motion applies to the safety of staff in the public services, it should also be noted that the self-employed are particularly at risk of violence while at work, as are many employees in the private sector. As a former building society area manager, I understand from first-hand experience the distress caused to staff who have suffered armed hold-ups.

Almost half of assaults at work result in injury, and almost three quarters leave the victim emotionally affected. Even more worryingly, labour force survey figures reveal that the rate of reportable injury was higher in Wales than in any other UK nation or region. Meanwhile, staff in the emergency and other public services are having to operate in an increasingly violent society. Based on the last full-year Home Office

Cyffredin ar hyn o bryd. Yr wyf yn siomedig bod Llywodraeth y DU wedi dweud na theimla fod angen am y ddeddfwriaeth hon. Byddai o gymorth i ni pe gallai Llywodraeth Lafur y Cynulliad ychwanegu ei llais at lais Alan Williams, a dweud bod arnom eisiau'r ddeddfwriaeth hon oherwydd, os nad yw'n ddim arall, mae'n symbol allanol da. Hefyd, mae'r ymgyrch dim goddefgarwch yn fenter gampus, ond mae angen fframwaith cyfreithiol yn gefn iddi.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 2 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu mai sicrhau bod y gyfraith yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol yw'r cam cyntaf mewn unrhyw strategaeth i wella diogelwch staff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ôl Arolwg Troseddau Prydain, yr heddlu sydd mewn mwyaf o berygl o drais yn y gwaith, ac yna gweithwyr cymdeithasol, swyddogion prawf, tafarnwyr a staff bar, a swyddogion diogelwch. Fodd bynnag, mae'r canlynol mewn cryn berygl hefyd, sef nyrsys, gweithwyr ieuchyd proffesiynol eraill, gweithwyr cludiant—yn enwedig gyrwyr tacsis—gweithwyr ieuchyd cymunedol a gweithwyr ieuenctid, rheolwyr a pherchenogion siopau, a gweinyddwyr llywodraeth genedlaethol a lleol, megis swyddogion budd-daliadau.

Er bod a wnelo'r cynnig heddiw â diogelwch staff yn y gwasanaethau cyhoeddus, dylid nodi hefyd fod yr hunangyflogedig mewn perygl arbennig o drais yn y gwaith, fel y mae nifer o weithwyr yn y sector preifat. Fel cyn reolwr ardal i gymdeithas adeiladu, gallaf ddeall o brofiad uniongyrchol y loes a berir i staff sydd wedi dioddef lladrad arfog.

Mae bron hanner yr ymosodiadau yn y gwaith yn achosi anaf, a thri chwarter bron yn cael effaith emosiynol ar y dioddefwr. Yr hyn sy'n peri mwy fyth o bryder yw bod ffigurau arolwg y gweithlu yn datgelu bod cyfradd yr anafiadau y gellir adrodd amdanynt yn uwch yng Nghymru nag mewn dim un genedl neu ranbarth arall yn y DU. Yn y cyfamser, mae'r staff yn y gwasanaethau brys a'r gwasanaethau

figures to July 2005, violent crime across Wales had increased by 64 per cent since devolution, ranging from 15 per cent in Gwent to 149 per cent in north Wales. However, only 20 per cent of the increase is accounted for by changes in the way that statistics are compiled.

We need a strong society, where our families, communities and nation create secure foundations on which people can build their lives. The public service concept of working for the good of the community is a high ideal. Public servants deserve to work in a safe environment, with the maximum protection that can be reasonably provided in a free society. Abuse and violence against fire and ambulance crews is on the increase. Although the Scottish Parliament has introduced laws to protect emergency workers, with offenders facing prison or a fine, the UK Government has stated that it has no plans to introduce measures for England or Wales.

As the Labour MP for Swansea West, Alan Williams, states, England and Wales should follow Scotland in making an assault on a member of the emergency services a specific offence. His Emergency Workers (Protection) Bill has cross-party support, but has little chance of becoming law without Government backing. The Serious Organised Crime and Police Act 2005 states that a person commits an offence if he assaults a designated person. However, this is restricted to persons having the powers of a constable, and to customs and immigration officers, and the maximum penalty is just 51 weeks imprisonment.

Although postal workers are no longer civil servants, they clearly provide a public service. The postal workers union has called for action to deal with the growing menace of assaults on postal delivery staff. The public sector union, Unison, has warned that the UK Government's proposed change to the criminal injuries compensation scheme could result in public sector workers who suffer

cyhoeddus eraill yn gorfod gweithredu mewn cymdeithas gynyddol dreisgar. Ar sail ffigurau'r Swyddfa Gartref ar gyfer y flwyddyn lawn ddiwethaf hyd at Orffennaf 2005, yr oedd troseddau treisgar ledled Cymru wedi cynyddu 64 y cant ers datganoli, yn amrywio o 15 y cant yng Ngwent i 149 y cant yng ngogledd Cymru. Fodd bynnag, dim ond 20 y cant o'r cynnydd sydd wedi digwydd yn sgîl newidiadau yn y dull o gasglu'r ystadegau.

Mae arnom angen cymdeithas gref lle y mae ein teuluoedd, ein cymunedau a'n cenedl yn creu sylfeini cadarn i bobl adeiladu eu bywydau. Mae cysyniad y gwasanaethau cyhoeddus o weithio er lles y gymuned yn ddelfryd aruchel. Mae gweision cyhoeddus yn haeddu gweithio mewn amgylchedd diogel, gyda hynny o warchodaeth y mae modd ei roi'n rhesymol mewn cymdeithas rydd. Cynyddu y mae cam-drin a thrais yn erbyn criwiau tân ac ambiwlans. Er i Senedd yr Alban gyflwyno cyfreithiau i amddiffyn gweithwyr achosion brys, gyda throreddwyr yn wynebu carchar neu ddirwy, dywedodd Llywodraeth y DU nad oes ganddi gynlluniau i gyflwyno mesurau ar gyfer Lloegr na Chymru.

Fel y dywed AS Llafur Gorllewin Abertawe, Alan Williams, dylai Lloegr a Chymru ddilyn yr Alban a gwneud ymosod ar aelod o'r gwasanaethau brys yn drosedd benodol. Mae cefnogaeth drawsbleidiol i'w Fesur Gweithwyr Achosion Brys (Amddiffyn), ond nid oes fawr o obaith i'r mesur ddod yn ddeddf heb gefnogaeth y Llywodraeth. Dywed Deddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 fod rhywun yn cyflawni trosedd os ymosoda ar rywun dynodedig. Fodd bynnag, cyfyngir hyn i'r rhai sydd â phwerau cwnstabl, ac i swyddogion tollau a mewnfudo, ac uchafswm y gosb yw 51 wythnos o garchar yn unig.

Er nad yw gweithwyr post bellach yn weision sifil, maent yn amlwg yn rhoi gwasanaeth cyhoeddus. Galwodd undeb y gweithwyr post am gamau i fynd i'r afael â bygythiad cynyddol ymosodiadau ar weithwyr cludo'r post. Rhybuddiodd undeb y sector cyhoeddus, Unsain, y gallai newid arfaethedig Llywodraeth y DU i'r cynllun digolledu am anafiadau troseddol olygu na

criminal violence at work receiving no compensation. In schools, the number of exclusions for assault or violence towards staff rose to 699 in 2004. In the NHS, the Wales Audit Office found that violence and aggression towards health service workers cost £6 million a year, and that mental health nurses take this as part and parcel of the job. As the Auditor General stated,

‘the fact that we cannot answer the question whether violence is increasing is significant...there were not sufficiently robust systems in place’.

He added that the zero tolerance approach to violence is the right one.

We must be concerned at news that more than half the police forces of England and Wales are planning to cut the amount of money available for police officers who retire due to injury. Injured officers now receive a standard pension plus compensation, but new Home Office guidelines would drastically reduce the amount of compensation. As the Police Federation commented, decisions on pensions should be based on clinical judgments, and not on cost-cutting by any authorities.

As amendment 2 states, effective law enforcement is the first step in a strategy to better protect staff delivering public services, but we must tackle causes as well as effects, applying zero tolerance to both violent crime and to the causes of violent crime. Contrary to the Minister’s implication that we should wait for offences to occur against NHS staff, we must take a proactive approach to deterrents, detection and prosecution. However, this also means tackling the underlying reasons why 70 per cent of youth offenders have learning needs, why 35 per cent of those aged under 17 with anti-social behaviour orders have an accepted learning difficulty, why up to 80 per cent of those in custody are functionally illiterate or innumerate and why a similar number suffer from drug or alcohol addiction. We must go beyond mere recognition of the importance of ensuring the safety of public sector staff and take positive action to improve the protection

fyddai gweithwyr y sector cyhoeddus sydd yn dioddef trais troseddol yn y gwaith yn derbyn dim iawndal. Mewn ysgolion, cynyddodd nifer yr achosion o wahardd am ymosodiadau neu drais tuag at staff i 699 yn 2004. Yn y GIG, canfu Swyddfa Archwilio Cymru fod trais ac ymosodedd tuag at weithwyr y gwasanaeth iechyd yn costio £6 miliwn y flwyddyn, a bod hyn yn rhan annatod o’r gwaith i nyrsys iechyd meddwl. Fel y dywedodd yr Archwiliwr Cyffredinol,

mae’r ffaith na allwn ateb y cwestiwn a yw trais ar gynnydd ai peidio yn arwyddocaol... nid oedd systemau digon cadarn ar waith.

Ychwanegodd mai’r dull dim goddefgarwch o ymdrin â thrais yw’r un iawn.

Dylem bryderu o glywed y newyddion bod mwy na hanner heddluoedd Cymru a Lloegr yn bwriadu torri’r arian sydd ar gael i heddwision sydd yn ymddeol oherwydd anafiadau. Mae swyddogion a anafwyd yn awr yn derbyn pensiwn safonol ynghyd ag iawndal, ond byddai canllawiau newydd y Swyddfa Gartref yn lleihau’r iawndal yn sylweddol. Fel y dywedodd Ffederasiwn yr Heddlu, dylid seilio penderfyniadau ynghylch pensiynau ar farn glinigol, yn hytrach nag ar ymgais i dorri costau gan awdurdodau.

Fel y dywed gwelliant 2, gorfodi’r gyfraith yn effeithiol yw’r cam cyntaf tuag at amddiffyn staff sydd yn cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, ond rhaid inni fynd i’r afael hefyd â’r achosion yn ogystal â’r effeithiau, gan beidio â goddef troseddau treisgar nac achosion troseddau treisgar. Yn groes i awgrym y Gweinidog y dylem aros nes i droseddau gael eu cyflawni yn erbyn staff y GIG, rhaid inni feithrin dull rhagweithiol o ymdrin ag atal, canfod ac erlyn. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn golygu mynd i’r afael â’r rhesymau sylfaenol pam mae gan 70 y cant o droseddwr ifanc anghenion dysgu, pam mae gan 35 y cant o’r rhai dan 17 sy’n destun gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol anhawster dysgu cydnabyddedig, pam mae hyd at 80 y cant o’r rhai sydd yn y carchar yn anllythrennog neu’n anrhifog yn weithredol a pham mae nifer cyffelyb yn gaeth i gyffuriau neu alcohol. Rhaid inni wneud rhywbeth

afforded to them.

Contrary to the motion before us today, New Labour gesture politics have yet again been used as an alternative to real action in too many areas. They are sound-bite heavy but policy light, and they too frequently damage the protection afforded to public service staff in the performance of their duty to all.

Helen Mary Jones: I propose amendment 3 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Assembly Government—given its commitment to providing more public services in the community, especially in health—to conduct an assessment of any additional risks posed to the safety of lone public service workers and to bring forward measures to address any identified risks.

I am pleased to be taking part in this important debate today. There is broad consensus across the Assembly that this is a serious issue, and there is real concern that the level of abusive and threatening behaviour appears to be rising. We can hope that some of that is due to a rise in reporting, but we cannot be complacent that that is so.

As Jenny Randerson and others have already said, there are some areas of public service—accident and emergency departments and some areas of social work, for example—where, for a very long time, there have been high levels of violence and aggression. However, it seems that that is spreading to other settings. I was speaking today to a sister from Prince Philip Hospital in Llanelli who reported shocking levels of aggression and violence and abusive language, on occasion, from patients and visitors in an ordinary surgical ward. Therefore, we cannot be sure that public workers are safe in any setting.

heblaw dim ond cydnabod pwysigrwydd sicrhau diogelwch staff y sector cyhoeddus a chymryd camau cadarnhaol i wella'r warchodaeth sydd ar gael iddynt.

Yn groes i'r cynnig sydd ger ein bron heddiw, mae gwleidyddiaeth symbolaidd Llafur Newydd wedi cael ei defnyddio eto fyth yn lle gwneud rhywbeth gwirioneddol mewn gormod o feysydd. Maent yn llawn dyfyniadau bachog ond yn wag o ran polisïau, ac yn rhy aml o lawer yn niweidio'r warchodaeth sydd ar gael i staff y gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu dyletswydd tuag at bawb.

Helen Mary Jones: Cynigïaf welliant 3 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad—yn wyneb ei hymroddiad i ddarparu mwy o wasanaethau cyhoeddus yn y gymuned, yn enwedig ym maes iechyd—i gynnal asesiad o unrhyw risgiau ychwanegol i ddiogelwch gweithwyr yn y sector cyhoeddus pan fyddant ar eu pen eu hun, a chyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau a nodir.

Yr wyf yn falch fy mod yn cymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw. Mae consensws cyffredinol ar draws y Cynulliad bod hwn yn fater difrifol, a phryder gwirioneddol bod lefel yr ymddygiad bygythiol ac ymosodol fel petai'n codi. Gallwn obeithio mai cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu cofnodi sydd i gyfrif am ryw faint o hyn, ond ni allwn fod yn hunanfodlon a dweud mai dyna sy'n wir.

Fel y dywedodd Jenny Randerson ac eraill eisoes, mae rhai meysydd o ran gwasanaethau cyhoeddus—adrannau damweiniau ac achosion brys a rhai meysydd o ran gwaith cymdeithasol, er enghraifft—lle y mae lefelau uchel o drais ac ymosodedd ers amser maith. Fodd bynnag, ymddengys fod hyn yn lledu i leoliadau eraill. Yr oeddwn yn siarad heddiw â phrif weinyddes o Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli a oedd yn sôn am lefelau brawychus o ymosodedd ac iaith ddifriol, ar adegau, gan gleifion ac ymwelwyr mewn ward lawfeddygol gyffredin. Felly, ni allwn fod yn sicr bod gweision cyhoeddus yn ddiogel mewn dim un lleoliad.

It is clear from this debate that, as a nation, we cannot, and will not, tolerate this kind of behaviour. It is good to see the National Assembly united on this. Before moving on to our amendment, I state that we will not be supporting the Conservative amendment because of its wording. I share some of the Minister's concerns on that issue. Law enforcement is important, but it is certainly not the first step. The first step is dealing with some of the underlying causes, which Mark Isherwood has already identified. Therefore, while we support the principle that offenders must be dealt with vigorously, we cannot support the amendment because of its wording.

Turning to our amendment 3, in the health sector alone, there are already more than 12,000 workers working in communities, mostly alone, sometimes in people's homes and sometimes in community settings. We can add to this care workers, social workers and youth workers—I speak as a former youth worker who spent quite a lot of time hanging around on street corners on my own talking to young people. All of those people are in vulnerable situations. We therefore have a large number of staff providing vital services, and the Government's policy, which we all support, particularly in the field of health, leads to providing more services in the community. That will mean that workers who have traditionally worked in settings where they have had other staff around them may be on their own and possibly at risk.

The employers—trusts, county councils and others—are supposed to take proper precautions by providing mobile phones to staff, training them to identify, and if possible diffuse, situations, and, if not, to protect themselves in potentially difficult situations, ensuring that sufficient staff are available to work together in known vulnerable situations, and so on. However, the evidence that we have already heard in this debate and from the trade unions suggests that employer performance is far from consistent. I seek the Minister's assurance today that the Government is not complacent about this. We

Mae'n amlwg yn ôl y ddadl hon na allwn fel cenedl oddef y math hwn o ymddygiad, ac na wnawn hynny. Da yw gweld y Cynulliad Cenedlaethol yn unfarn ar hyn. Cyn symud ymlaen at ein gwelliant, dyma ddatgan na fyddwn yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr oherwydd ei eiriad. Yr wyf yn rhannu rhai o bryderon y Gweinidog ar y mater hwnnw. Mae gorfodi'r gyfraith yn bwysig, ond yn sicr, nid dyma'r cam cyntaf. Y cam cyntaf yw mynd i'r afael â rhai o'r achosion sylfaenol, a nodwyd eisoes gan Mark Isherwood. Felly, er ein bod yn cefnogi'r egwyddor o ymdrin yn gadarn â throseddwyr, ni allwn gefnogi'r gwelliant oherwydd ei eiriad.

A throi at ein gwelliant 3, yn y sector iechyd yn unig, mae dros 12,000 o weithwyr yn gweithio mewn cymunedau eisoes, ar eu pennau eu hunain fel arfer, weithiau yng nghartrefi pobl ac weithiau mewn lleoliadau cymunedol. Gallwn ychwanegu at hyn weithwyr gofal, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuenctid—a siaradaf fel cyn weithiwr ieuenctid a dreuliodd lawer o amser yn loetran ar gorneli strydoedd ar fy mhen fy hun yn siarad â phobl ifanc. Mae'r rheini oll mewn sefyllfaoedd agored i niwed. Mae gennym felly nifer fawr o staff yn darparu gwasanaethau hanfodol, ac mae polisi'r Llywodraeth, yr ydym oll yn ei gefnogi, yn arbennig ym maes iechyd, yn arwain at ddarparu mwy o wasanaethau yn y gymuned. Golyga hyn y gall gweithwyr sydd yn draddodiadol wedi gweithio mewn lleoliadau lle'r oedd staff eraill o'u cwmpas fod ar eu pennau eu hunain, ac o bosibl yn wynebu risg.

Mae'r cyflogwyr—ymddiriedolaethau, cynghorau sir ac eraill—i fod i gymryd rhagofalon priodol drwy roi ffonau symudol i'r staff, eu hyfforddi i weld bod sefyllfaoedd yn beryglus, a lleihau'r perygl os oes modd, ac os na allant wneud hynny, i amddiffyn eu hunain mewn sefyllfaoedd a all fod yn anodd, gan sicrhau bod digon o staff ar gael i weithio gyda'i gilydd mewn sefyllfaoedd y gwyddys eu bod yn agored i niwed yddynt, ac yn y blaen. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom eisoes yn y ddadl hon a chan yr undebau llafur yn awgrymu nad yw perfformiad cyflogwyr yn gyson o bellffordd.

know that there is good practice out there, but we also know—and I will not repeat some of the points that Jenny Randerson has already made—that performance is far from consistent. I hope that the Minister will tell us today that he will ensure that all trusts and employers, including him and his Government colleagues, follow the very best practice. I also seek his assurance that additional resources will be committed, particularly if Assembly Government policies, as they are being put into practice, put more staff in more vulnerable situations. That work will need to be resourced.

Yr wyf yn gofyn am sicrwydd gan y Gweinidog heddiw nad yw'r Llywodraeth yn hunanfodlon ynghylch hyn. Gwyddom fod arferion da'n digwydd, ond gwyddom hefyd—ac nid ailadroddaf rai o'r pwyntiau a wnaeth Jenny Randerson eisoes—nad yw'r perfformiad yn gyson o gwbl. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn dweud wrthym heddiw y bydd yn gofalu bod pob ymddiriedolaeth a phob cyflogwr, gan ei gynnwys ef a'i gyd-Weinidogion, yn dilyn yr arferion gorau oll. Yr wyf yn gofyn am sicrwydd ganddo hefyd yr ymrwymir i roi adnoddau ychwanegol, yn enwedig os bydd polisïau Llywodraeth y Cynulliad, wrth iddynt gael eu gweithredu, yn rhoi mwy o staff mewn sefyllfaedd agored i niwed. Mae angen adnoddau ar gyfer y gwaith hwnnw.

5.10 p.m.

We are all at one in the Assembly in supporting and valuing public-service workers and in condemning aggression, abuse and violence against them. No-one should have to put up with that in any situation in their working life, but particularly not those who work to support the most vulnerable in our communities. However, the Government needs to ensure that public bodies have the right policies and resources in place to protect their staff, because our public-service workers deserve not just our warm words, but also our practical support.

Yr ydym yn unfarn yn y Cynulliad o ran cefnogi a gwerthfawrogi gweithwyr y gwasanaethau cyhoeddus a chondemnio ymosodedd, cam-drin a thrais yn eu herbyn. Ni ddylai neb orfod goddef hynny mewn dim un sefyllfa yn ystod eu gwaith, ond yn enwedig y rhai sy'n gweithio i roi cymorth i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau. Fodd bynnag, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus y polisïau a'r adnoddau iawn i amddiffyn eu staff, oherwydd y mae ein gweithwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus yn haeddu nid yn unig ein canmoliaeth ond ein cefnogaeth ymarferol.

Ann Jones: I have spoken many times, as have other Members, about attacks on public-sector workers. It never fails to amaze me that we see increasing numbers of attacks on these people who set out to attempt to assist others. It is the mindless few who are responsible, and we must recognise the fact that many within civilised society appreciate public-sector workers. However, I want to take a few minutes this afternoon to concentrate on the increase in attacks on firefighters, in particular. It is timely to do so, given that only last week a north Wales firefighter was ambushed and shot with a ball-bearing air rifle when attending an incident. It was a deliberate attempt to cause harm to that firefighter. There was no fire or reason for that fire engine to be there; the call was only made to set up the attack on this

Ann Jones: Siaredais lawer gwaith, fel y mae Aelodau eraill wedi gwneud, am ymosodiadau ar weithwyr y sector cyhoeddus. Mae'n destun syndod parhaus i mi ein bod yn gweld mwy a mwy o ymosodiadau ar y bobl hyn sydd â'r nod o geisio helpu eraill. Lleiafrif difeddwl sydd yn gyfrifol, a rhaid inni gydnabod y ffaith bod llawer mewn cymdeithas wâr yn gwerthfawrogi gweithwyr y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, carwn dreulio rhai munudau y prynhawn yma i ganolbwyntio ar y cynnydd mewn ymosodiadau ar ddiffoddwyr tân yn arbennig. Mae'n amserol gwneud hynny, o gofio i ddiffoddwr tân yng ngogledd Cymru yr wythnos diwethaf gael ei saethu â dryll awyr a oedd yn saethu peli traul wedi iddo fynd i ddigwyddiad. Ymgais fwriadol oedd hynny i niweidio'r diffoddwr

firefighter.

The Fire Brigades Union, for which I am still an out-of-trade member—I therefore declare an interest—conducted research to show that attacks on firefighters are running at about 40 per week across the UK. They are served a diet of bricks, bottles, missiles and other forms of obstruction when attending fires. We must ensure that we can do something to stop that and to alleviate those problems.

People should feel able to carry out their work without fear of attack. Lone workers in the health service, in particular, should know that they can go out to deliver a service that is most needed in their community. We must support the call for zero tolerance and examine ways in which we can ensure that it is more than just a buzz word—it should become what we want it to be, namely zero tolerance.

Alan Williams's private Member's Bill has been mentioned by several speakers. I too congratulate Alan for the way in which he has taken this Bill forward through the House of Commons. It is a start to strengthen the law; it will close the gap that currently exists for the ambulance service, although it is not everything that we want. At the moment, the ambulance service has no protection, but Alan's Bill will make it easier to prosecute those who attempt to hijack paramedics or stop them doing their job. We have seen far too many brutal and callous attacks on emergency workers, and we have all visited accident and emergency departments and surgical wards where we have heard abusive language, and seen some threatening behaviour. I do not think that we, as members of the public, should stand by. If we see this happening, we should go to the side of the emergency worker and assist them with any form of evidence.

Like Helen Mary, I think that tougher legislation cannot be the only solution to the problem. It cannot tackle the problem on its own. A far wider package of measures is

tân hwnnw. Nid oedd tân na rheswm i'r injan dân fod yno; gwnaed yr alwad yn unswydd er mwyn trefnu'r ymosodiad ar y diffoddwr tân hwn.

Cynhaliodd Undeb y Brigadau Tân, yr wyf yn dal yn aelod heb fod yn y gwaith ohono—ac felly datganaf fuddiant—ymchwil i ddangos bod tua 40 o ymosodiadau yr wythnos ar ddiffoddwyr tân ledled y DU. Maent yn gorfod wynebu brics, poteli, taflegrau a mathau eraill o rwystr pan fyddant yn trin tanau. Rhaid inni ofalu y gallwn wneud rhywbeth i roi terfyn ar hynny a lliniaru'r problemau hynny.

Dylai gweithwyr allu gwneud eu gwaith heb ofni ymosodiadau. Dylai gweithwyr ar eu pennau eu hunain yn y gwasanaeth iechyd, yn enwedig, wybod y gallant fynd allan i gyflwyno gwasanaeth y mae angen mawr amdano yn eu cymuned. Rhaid inni gefnogi'r alwad am ddim goddefgarwch ac archwilio ffyrdd o ofalu ei fod yn fwy na dim ond gair ffasiynol—dylai ddatblygu nes ei fod yn cyflawni'r hyn y dymunwn iddo ddigwydd, sef nad oes dim goddefgarwch.

Mae llawer o siaradwyr wedi sôn am Fesur Aelod preifat Alan Williams. Yr wyf finnau hefyd yn llongyfarch Alan am y modd y mae wedi cyflwyno'r Mesur hwn drwy Dŷ'r Cyffredin. Mae'n gam cyntaf i gryfhau'r gyfraith; bydd yn cau'r blwch sydd yn bodoli ar hyn o bryd o ran y gwasanaeth ambiwlans, er nad yw'n gwneud popeth a ddymunwn. Ar hyn o bryd, nid oes gwarchodaeth i'r gwasanaeth ambiwlans, ond bydd Mesur Alan yn ei gwneud yn haws erlyn y rhai sydd yn ceisio herwgipio parafeddygon neu eu hatal rhag gwneud eu gwaith. Gwelsom ormod o lawer o ymosodiadau ffiiaidd a brwnt ar weithwyr achosion brys, ac yr ydym oll wedi ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys a wardiau llawfeddygol lle y clywsom iaith ddifriol, a gweld ymddygiad ymosodol. Nid wyf yn credu y dylem ni, fel aelodau o'r cyhoedd, sefyll draw. Os gwelwn hyn yn digwydd, dylem sefyll ochr yn ochr â'r gweithiwr achosion brys a'u helpu gydag unrhyw fath o dystiolaeth.

Fel Helen Mary, ni chredaf mai deddfwriaeth lymach yw'r unig ateb i'r broblem. Ni all drin y broblem ar ei ben ei hun. Mae angen pecyn ehangach o lawer o fesurau i helpu i

required to help address the problem of attacks on public-service workers. We must work in partnership—and I know that partnership working is another buzz word—with the unions. We must look at the union data that is collected, and work with all the representative bodies and agencies to come up with a plan that is meaningful. We must say to our emergency-service workers, ‘We will not tolerate this and we will do something about it; we want you to be able to go out and do your jobs, helping the public, in complete safety’. As an Assembly, I hope that we will work towards that end.

Michael German: I will make one point, which is obvious to the people who have read the literature relating to this debate. This is a serious issue. We have a duty of protection towards all who work in the public sector, to ensure that they are not abused while doing their job, whether they work on the front-line in local authorities, in council tax benefit offices or in emergency services. My question for the Minister is related to the fact that there is no consistent set of figures of violence against the different categories of public-service staff, and until we have a consistent set of figures we will not know what is going on.

I will illustrate that by using three figures that I have obtained from the Assembly Library. There were 7,971 incidents of violence and aggression towards NHS staff in 2003-04, which is the latest reported figure. That figure refers to violence and aggression, and yet we talk about injuries to teachers. The latest information that we have on injuries to teachers, from 2004-05, is that 247 teachers were injured as a result of assaults in the course of their duties. For bus staff, the latest available figure concerns 2003-04—a year earlier—and refers to assaults on bus staff, of which there were 54 in Wales. Until we get some uniform method of measuring this, we will not be able to tackle the roots of this problem as we will not be able to see whether you have been successful, year on year, in trying to deal with the matter. I would be grateful if the Minister, in his response, could let us know whether he believes that now is the time to collect uniform data, whether it is

fynd i'r afael â phroblem ymosodiadau ar weithwyr y gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid inni weithio mewn partneriaeth—a gwn mai ymadrodd ffasiynol arall yw gweithio mewn partneriaeth—gyda'r undebau. Rhaid inni edrych ar ddata a gesglir gan yr undebau, a gweithio gyda'r holl gyrff ac asiantaethau cynrychioliadol i esgor ar gynllun ystyrlon. Rhaid inni ddweud wrth weithwyr ein gwasanaethau brys, ‘Ni oddefwn hyn ac fe wnawn rywbeth yn ei gylch; yr ydym am i chi allu mynd allan a gwneud eich gwaith, helpu'r cyhoedd, yn hollol ddiogel’. Fel Cynulliad, gobeithio y gwnawn weithio tuag at y nod hwnnw.

Michael German: Gwnaf un pwynt, sydd yn amlwg i'r sawl a ddarllenodd y llenyddiaeth yn ymwneud â'r ddadl hon. Mae hyn yn fater difrifol. Mae'n ddyletswydd arnom amddiffyn pawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, i sicrhau nad ydynt yn cael eu cam-drin wrth wneud eu gwaith, boed hynny yn y rheng flaen mewn awdurdodau lleol, mewn swyddfeydd budd-daliadau'r dreth gyngor neu yn y gwasanaethau brys. Mae a wnelo fy nghwestiwn i'r Gweinidog â'r ffaith nad oes set gyson o ffigurau am drais yn erbyn y gwahanol gategorïau o staff y gwasanaethau cyhoeddus, a hyd nes y cawn set gyson o ffigurau, ni fyddwn yn gwybod beth sy'n digwydd.

Dangosaf hynny drwy ddefnyddio tri ffigur a gefais o Lyfrgell y Cynulliad. Bu 7,971 achos o drais ac ymddygiad ymosodol yn erbyn staff y GIG yn 2003-04, sef y ffigurau diweddaraf sydd ar gael. Mae'r ffigur hwnnw'n cyfeirio at drais ac ymddygiad ymosodol, ac eto yr ydym yn sôn am anafiadau i athrawon. Y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym am anafiadau i athrawon, o 2004-05, yw bod 247 o athrawon wedi cael eu hanafu o ganlyniad i ymosodiadau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Yn achos staff bysiau, mae'r ffigur diweddaraf sydd ar gael yn cyfeirio at 2003-04—flwyddyn yn gynharach—ac mae'n cyfeirio at ymosodiadau ar staff bysiau, y cafwyd 54 ohonynt yng Nghymru. Hyd nes y cawn ryw ddull unffurf o fesur hyn, ni allwn fynd i'r afael ag achos sylfaenol y broblem gan na fydd modd inni weld a ydych wedi bod yn llwyddiannus, o flwyddyn i flwyddyn, wrth geisio delio â'r mater.

within his power to do so and whether he thinks that we could find some legislative powers within those of the National Assembly to deal with this crucial issue. We need to protect our people and ensure that we have done all that we can and examined all avenues.

Sandy Mewies: Like everyone else here and, I am sure, the great majority of the public, I am appalled that anybody could do anything to those people who put themselves at risk to ensure public safety. They should not be harassed or physically attacked by members of the very communities that they serve. Unfortunately, as Ann Jones has said, attacks, bullying and harassment are on the increase and, like her, I would like to suggest that we all back the move for zero tolerance. It is the only answer and zero tolerance has to be taken through to penalties and sentencing.

I intend to concentrate on the fire and rescue services, which have been keeping detailed records of attacks and harassment since April 2005. In north Wales, between June 2005 and June 2006, 25 incidents were recorded. I am only talking about the recorded incidents because, as has already been said, some people are reluctant to report incidents, some are too busy and some are just too selfless. We must do everything that we can to encourage people to report these incidents when they occur, and then we must take the appropriate action so that they are not discouraged when they file reports. The incidents that I have just mentioned include verbal abuse hurled at a crew in Bethesda by a crowd of youths, a laser pen shone in the eye of a crew member at Llandudno, damage to Chirk fire station when crews were attending incidents, the incident mentioned by Ann involving a ball-bearing gun fired by a young child at a crew member in Porthmadog, and damage to equipment and vehicles in other areas. It is an absolute disgrace that these things go on and it is even worse if the perpetrators are allowed to get away with it.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog, yn ei ymateb, ddweud wrthym a yw'n credu ei bod bellach yn amser casglu data unffurf, a yw gwneud hynny o fewn ei bwerau ac a yw'n credu bod modd dod o hyd i ryw bwerau deddfwriaethol o fewn rhai'r Cynulliad Cenedlaethol i ddelio â'r mater hollbwysig hwn. Rhaid inni amddiffyn ein pobl a sicrhau ein bod wedi gwneud popeth o fewn ein gallu ac wedi edrych ar bob dewis sydd ar gael inni.

Sandy Mewies: Fel pawb arall yma ac, yr wyf yn siŵr, mwyafrif helaeth y cyhoedd, yr wyf yn arswydo wrth feddwl y gallai unrhyw un wneud rhywbeth i'r bobl hynny sy'n peryglu eu hunain i sicrhau diogelwch y cyhoedd. Ni ddylai aelodau o'r union gymunedau y maent yn eu gwasanaethau aflonyddu arnynt nac ymosod yn gorfforol arnynt. Yn anffodus, fel y dywedodd Ann Jones, mae ymosodiadau, bwlio ac aflonyddu ar gynnydd ac, fel hithau, hoffwn awgrymu ein bod i gyd yn cefnogi'r symudiad i gael polisi dim goddefgarwch. Dyna'r unig ateb a rhaid glynu wrth bolisi o'r fath wrth gosbi a dedfrydu.

Yr wyf yn bwriadu canolbwyntio ar y gwasanaethau tân ac achub, sydd wedi bod yn cadw cofnodion manwl o achosion o ymosod ac aflonyddu ers Ebrill 2005. Yn y gogledd, rhwng Mehefin 2005 a Mehefin 2006, cofnodwyd 25 o achosion. Dim ond am yr achosion a gofnodwyd yr wyf yn sôn oherwydd, fel y dywedwyd eisoes, mae rhai pobl yn amharod i hysbysu'r awdurdodau am achosion, mae rhai'n rhy brysur ac mae eraill yn rhy anhunanol. Rhaid inni wneud popeth a allwn i annog pobl i gofnodi'r digwyddiadau hyn pan fyddant yn digwydd, ac yna rhaid inni gymryd camau priodol i sicrhau nad ydynt yn cael eu siomi pan fyddant yn cyflwyno adroddiadau. Mae'r digwyddiadau y soniais amdanynt yn cynnwys ymosodiadau geiriol a anelwyd at griw gan dorf o bobl ifanc ym Methesda, pen laser wedi ei anelu at lygad aelod o griw yn Llandudno, difrod i orsaf dân y Waun pan oedd criwiau'n ymateb i alwadau, y digwyddiad y soniodd Ann amdano lle y saethodd plentyn ifanc â gwn peli traul at aelod o griw ym Mhorthmadog, a difrod i offer a cherbydau mewn ardaloedd eraill. Mae'n warthus bod y pethau hyn yn parhau i ddigwydd ac mae'n waeth fyth os

yw'r drwgweithredwyr yn dianc heb gael eu cosbi.

The Welsh Assembly Government has already supported measures that will protect NHS staff, and people have talked about Alan Williams MP's Bill that is going through Parliament. I hope that it is enacted because, as Ann has said, it will close gaps, particularly for the ambulance service, and it will help the fire service. Everyone, young and old, must be made aware of the dangers that they cause when they obstruct the emergency services, which can be prevented from attending, or delayed on their way, to life-threatening situations. They must be made aware that such actions cannot and will not be tolerated. Fines should be increased and, just as importantly, when sentencing offenders, courts should take into account whether an attack has hindered any individual or organisation in providing a vital public service.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi cefnogi mesurau a fydd yn amddiffyn staff y GIG, ac mae pobl wedi crybwyll Mesur Alan Williams AS sydd ar ei daith drwy'r Senedd. Gobeithiaf y bydd yn dod yn ddeddf oherwydd, fel y dywedodd Ann, bydd yn cau bylchau, yn enwedig yn achos y gwasanaeth ambiwlans, a bydd yn cynorthwyo'r gwasanaeth tân. Rhaid i bawb, yr hen a'r ifanc, fod yn ymwybodol o'r peryglon a achosir ganddynt pan fyddant yn rhwystro'r gwasanaethau brys, gan fod perygl iddynt eu rhwystro rhag cyrraedd, neu achosi oedi, pan fyddant ar y ffordd i ddigwyddiadau lle y mae bywydau mewn perygl. Rhaid iddynt sylweddoli na ellir goddef gweithredoedd o'r fath ac na wneir hynny. Dylid cynyddu dirwyon, a'r un mor bwysig, pan fyddant yn dedfrydu troseddwyr, dylai llysoedd ystyried a yw ymosodiad wedi amharu ar unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n ceisio darparu gwasanaeth cyhoeddus allweddol.

All of us, including politicians and members of the public, must realise that we have a responsibility to support our front-line workers, and we should support them in terms of reporting any incidents that we see. No longer should anyone turn a blind eye to such threats because to do so would be to create an even greater threat to community safety and community life.

Rhaid i bob un ohonom, gan gynnwys gwleidyddion a'r cyhoedd, sylweddoli bod cyfrifoldeb arnom i gefnogi ein gweithwyr rheng flaen, a dylem eu cefnogi o ran cofnodi unrhyw ddigwyddiadau yr ydym yn eu gweld. Ni ddylai neb anwybyddu bygythiadau o'r fath oherwydd byddai hynny'n arwain at fwy fyth o fygythiad i ddiogelwch y gymuned a bywyd y gymuned.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf yn falch o gael y cyfle i ategu popeth a ddywedwyd yn ystod y ddadl hon. Credaf fod unoliaeth barn yma; yr ydym yn dymuno gweld y mesurau hyn yn dod i rym er mwyn diogelu pobl sy'n gwasanaethu'r cyhoedd ac sydd, yn rhinwedd y swyddi hynny, yn aml yn wynebu sefyllfaoedd bygythiol, ac ymosodiadau weithiau, hyd yn oed. Yr unig bwynt yr wyf am ei wneud, Weinidog, yw nodi y bydd yn haws gweithredu'r mesurau hyn ymysg pobl sy'n gweithio o fewn sefydliadau. Fodd bynnag, bellach mae llawer o bobl yn y sector cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau yn y gymuned, ac yn aml maent yn gorfod mynd i gartrefi pobl a delio ag unigolion neu grwpiau ar eu pennau eu hunain neu yng nghwmni cydweithiwr. Bydd

Rhodri Glyn Thomas: I am glad to have this opportunity to endorse everything that has been said during this debate. I think that there is unanimity here; we wish to see these measures being put in place to safeguard those people who serve the public and who, due to the nature of their jobs, often face threatening situations, and even attacks, occasionally. The only point that I wish to make, Minister, is to note that it will be easier to implement these measures among people who work in institutions. However, many of those who work in the public sector now perform their duties in the community, and often have to go to people's houses and deal with individuals or groups on their own or in the company of a colleague. It will be harder to ensure their safety. Despite your assurance

yn anos sicrhau eu diogelwch hwy. Er ichi ddweud y bydd y mesurau hyn ar gael i bawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, byddem yn falch pe baem yn cael sicrwydd gennych y byddwch nid yn unig yn ystyried pobl sy'n gweithio mewn sefydliadau, ond yn ystyried pobl eraill sy'n gorfod darparu'r math hwn o wasanaeth yn y gymuned. Hoffem i chi wnewch ymrwymiad, nid yn unig y byddwn yn mynegi hyn drwy eiriau, ond y byddwn yn sicrhau y caiff hyn ei weithredu yn ymarferol er mwyn diogelu'r bobl sydd â swyddi mor bwysig yn y gymdeithas?.

Val Lloyd: I will focus on those public sector workers in the education sector, because violent incidents against school staff have made the headlines in recent years.

The Teacher Support Network charity conducted a survey requesting information on violence and disruption last year, and an amazing 84 per cent of respondents were found to have been verbally abused. Some 29 per cent had been physically abused, and 38 per cent had had their property vandalised. Nearly two thirds of respondents said that pupil aggression and unruliness would possibly force them to consider leaving the profession. Unfortunately, school staff are not only subject to violence from pupils; even more regrettably, they are also targeted by parents, which is inexcusable. The same survey revealed that 12 per cent of teachers had been abused or assaulted by pupils' parents, and that a staggering 15 per cent had experienced aggressive behaviour, which can be highly intimidating. These figures call for something to be done urgently to improve confidence and safety.

Teaching unions across the border are looking at the issue; the National Union of Teachers released a pupil behaviour charter last September, and the National Association of Schoolmasters Union of Women Teachers is focusing on the need to reduce violent and abusive behaviour against staff. The Teacher Support Network also called for similar protection for teachers to that which has been introduced for NHS staff, following the publication of the results that other speakers

that these measures will be applicable to everyone working in the public sector, we would appreciate your assurance that you will not only consider people who work in institutions, but those who have to provide this kind of service in the community. We ask you to give an undertaking, not only that we will express this in words, but that we will ensure that this will be implemented in practice to safeguard those who have such important jobs in society.

Val Lloyd: Yr wyf am ganolbwyntio ar y gweithwyr sector cyhoeddus hynny yn y sector addysg, oherwydd bod achosion o drais yn erbyn staff ysgolion wedi cyrraedd y penawdau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cynhaliwyd arolwg gan yr elusen Teacher Support Network y llynedd pryd y gofynnwyd am wybodaeth am achosion o drais ac aflonyddu, a dywedodd cyfran syfrdanol o 84 y cant o'r rhai a ymatebodd eu bod wedi profi cam-drin geiriol. Yr oedd 29 y cant wedi profi ymosodiad corfforol, ac yr oedd eiddo 38 y cant wedi cael ei fandaleiddio. Dywedodd bron dau o bob tri ymatebwr y gallai ymddygiad ymosodol ac afreolus disgyblion wneud iddynt ystyried gadael y proffesiwn. Yn anffodus, mae staff ysgolion nid yn unig yn gorfod dioddef trais gan ddisgyblion, ond yn fwy anffodus fyth, maent yn cael eu targedu gan rieni hefyd, sy'n anfaddeuol. Dangosodd yr un arolwg fod 12 y cant o athrawon wedi cael eu cam-drin neu wedi profi ymosodiad gan rieni disgyblion, a bod canran anhygoel, 15 y cant, wedi profi ymddygiad ymosodol, sy'n gallu bod yn frawychus dros ben. Mae'r ffigurau hyn yn peri bod rhaid gwneud rhywbeth ar fyrder i godi hyder a gwella diogelwch.

Mae undebau athrawon ar draws y ffin yn edrych ar y mater; cyhoeddodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon siarter ymddygiad disgyblion fis Medi diwethaf, ac mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn canolbwyntio ar yr angen i leihau ymddygiad treisgar ac ymosodol yn erbyn staff. Mae'r Teacher Support Network hefyd wedi galw am fesurau tebyg i'r hyn a gyflwynwyd ar gyfer staff y GIG i amddiffyn athrawon, wedi

have mentioned. Headteachers, in conjunction with governors, are responsible for drawing up a discipline policy for their school, and they should feel that they can use the agreed disciplinary measures available to them, including exclusions, if necessary, without being undermined or put at risk. I support the Teacher Support Network's recommendations for a zero-tolerance approach to adults who threaten or abuse teachers, and possible accompanying measures such as financial penalties. However, we must also take account in this equation of the problems that some young people have, be they emotional, social or physical. There is also a need for preventative measures, and it is essential that students and parents get involved in drawing up a code of conduct for their school, so that they are aware of the consequences of any violent or abusive behaviour. This could be one of the roles for the wonderfully constituted school councils.

Violence in schools should be put in perspective; incidents are rarely isolated, and all parts of the community must work together to tackle such anti-social behaviour wherever it occurs.

Jonathan Morgan: I welcome this debate, and I echo Sandy Mewies's view that this is about supporting front-line staff. That is a stark recognition of where we are in terms of the national health service, because we know that the number of incidents of violence against members of medical teams has increased. In the past year, roughly 290 attacks were carried out against ambulance staff, 134 of which resulted in injury. Often, ambulance staff face difficult circumstances because they have to deal with a variety of dangerous situations, which is somewhat different to the experiences of other front-line medical staff.

This is a matter of effective law enforcement. This is vital; it is not happening at the moment and it should be top of the list. If

cyhoeddi'r canlyniadau a grybwyllwyd gan siaradwyr eraill. Mae penaethiaid, mewn cydweithrediad â llywodraethwyr, yn gyfrifol am lunio polisi disgyblaeth ar gyfer eu hysgol, a dylent deimlo eu bod yn gallu defnyddio'r mesurau disgyblu y cytunwyd arnynt sydd ar gael iddynt, gan gynnwys gwahardd disgyblion, os oes angen, heb gael eu tansilio neu eu rhoi mewn perygl. Yr wyf yn cefnogi argymhellion y Teacher Support Network i fabwysiadu dull dim goddefgarwch o ymdrin ag oedolion sy'n bygwth neu'n cam-drin athrawon, ynghyd â mesurau eraill posibl, megis cosbau ariannol. Fodd bynnag, yn y sefyllfa hon rhaid inni ystyried hefyd y problemau sydd gan rai pobl ifanc, boed y rheini'n rhai emosiynol, cymdeithasol neu gorfforol. Mae angen hefyd am fesurau ataliol, ac mae'n hanfodol bod myfyrwyr a rheini'n cyfrannu at lunio cod ymddygiad ar gyfer eu hysgol, er mwyn sicrhau eu bod yn sylweddoli beth fydd y canlyniadau os byddant yn ymddwyn mewn ffordd dreisgar neu ymosodol. Gallai hyn fod yn un o rolau'r cynghorau ysgol, sydd yn greadigaethau ardderchog.

Dylid rhoi trais mewn ysgolion yn ei gyd-destun; anaml iawn y bydd digwyddiadau'n digwydd ar eu pennau eu hunain, a rhaid i bob carfan o'r gymuned weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r fath lle bynnag y mae'n digwydd.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn croesawu'r ddadl hon, ac yr wyf yn ategu barn Sandy Mewies ei bod yn ymwneud â chefnogi staff y rheng flaen. Mae hynny'n cydnabod yn blaen lle'r ydym arni o ran y gwasanaeth iechyd gwladol, oherwydd gwyddom fod nifer yr achosion o drais yn erbyn aelodau timau meddygol wedi cynyddu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu tua 290 o ymosodiadau ar staff ambiwlans, a 134 ohonynt wedi achosi anafiadau. Mae staff ambiwlans yn wynebu amgylchiadau anodd yn aml oherwydd bod rhaid iddynt ddelio â phob math o sefyllfaoedd peryglus, sydd ychydig yn wahanol i brofiadau staff meddygol eraill yn y rheng flaen.

Mae hyn yn fater o orfodi'r gyfraith yn effeithiol. Mae hyn yn hanfodol; nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd a dylai fod ar

other Assembly Members do not think that it should be at the top of the list, perhaps they can say how far down the list they think it ought to be. We should not give the impression that we will be soft on those people who commit these horrendous offences against members of medical staff.

Helen Mary Jones: Will you give way?

Jonathan Morgan: I will give way later if I have time.

The number of attacks in Wales has increased to just short of 5,000, although, admittedly, these include a whole range of attacks that could be committed. The fact that the Minister for Health and Social Services says that the issue is as much about prevention as it is about trying to prosecute people, once offences have been committed, demonstrates a lack of understanding. In many circumstances, there will be people for whom violence is commonplace, whether it involves mouthing off at a member of medical staff or being drunk or high on drugs. You cannot do much to prevent those people from committing acts of violence, but we must ensure that NHS trusts prosecute them, that such people feel the full weight of the law, and that such incidents are not just dismissed because these people are drunk or high on drugs. I welcome anything that we can do to ensure that NHS trusts protect members of staff who work in our hospitals, but we need to examine the level of security arrangements that exist within hospitals in Wales. That is essential if we are to promote a zero-tolerance attitude.

Helen Mary Jones: I do not suggest for a moment that we should be soft on people who offend. However, my problem is with the word 'first', because there are other things that should be done before we reach that point. It is not a question of going soft, as I support what you have said, but it is not the first thing that needs to be done. It may be the most important, but it should not be the first step.

frig y rhestr. Os nad yw Aelodau eraill o'r Cynulliad yn credu y dylai fod ar frig y rhestr, efallai y gallant ddweud pa mor isel y dylai fod ar y rhestr. Ni ddylem roi'r argraff y byddwn yn drugarog tuag at y bobl hynny sy'n cyflawni'r troseddau dychrynlyd hyn yn erbyn aelodau o staff meddygol.

Helen Mary Jones: A wnewch ildio?

Jonathan Morgan: Ildiaf yn nes ymlaen os bydd amser.

